



Medi
2024

Gwerthusiad Uned Atal Trais Cymru

Astudiaeth Achos Systemau Cyfan: Abertawe

Ellie McCoy, Chloe Smith, Rebecca Harrison, Hannah Timpson a Zara Quigg

Liverpool John Moores University, Tithebarn Building, 79 Tithebarn Street, Liverpool, L2 2ER

Manylion cyswllt: E.J.McCoy@ljmu.ac.uk

Gwerthusiad Uned Atal Trais Cymru

Astudiaeth Achos Systemau Cyfan: Abertawe

Ellie McCoy, Chloe Smith, Rebecca Harrison, Hannah Timpson a Zara Quigg

Prifysgol John Moores Lerpwl (JMU), Sefydliad Iechyd y Cyhoedd – *Canolfan Gydwethredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Atal Trais*

Medi 2024

ISBN 978-1-83766-524-2

© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru 2023. Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open\[1\] government-licence/version/3/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open[1] government-licence/version/3/) ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Oni nodir fel arall, mae'r hawlfraint yn y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Yr adroddiad hwn

De Cymru yw un o'r 20 o ardaloedd a gafodd gyllid gan Lywodraeth y DU i sefydlu Uned Lleihau Trais. Sefydlwyd Uned Atal Trais Cymru yn 2019 gyda chymorth ymrwymadau ychwanegol gan bartneriaid yng Nghymru. Er mwyn llywio datblygiad parhaus Uned Atal Trais Cymru, comisiynwyd Prifysgol John Moores Lerpwl fel partner gwerthuso. Mae'r adroddiad hwn yn un o gyfres o ganlyniadau rhaglen waith y gwerthusiad hwn, ac mae'n cyflwyno gwerthusiad o'r dull system gyfan a'r dull astudiaeth achos ar gyfer Abertawe. Cyflwynir yr adroddiad ochr yn ochr ag adroddiad astudiaethau achos manwl ategol. Mae'r gyfres o adroddiadau gwerthuso ar gael ar wefan yr Uned Atal Trais: (<https://www.violencepreventionwales.co.uk/cy/>) ac mae'n cynnwys:

- Blwyddyn 1 – Datblygu fframwaith gwerthuso ac adroddiad systemau cyfan Uned Atal Trais Cymru
- Blwyddyn 2 – Gwerthuso rhaglenni gwaith dethol
- Blwyddyn 3 – Gwerthuso dull astudiaethau achos systemau gyfan Abertawe
- Blwyddyn 4 – Gwerthuso dull astudiaethau achos systemau cyfan Caerdydd

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r bobl a'r sefydliadau canlynol am gefnogi gwerthusiad Uned Atal Trais Cymru:

- Cyllidwyr y gwerthusiad, Uned Atal Trais Cymru
- Aelodau tîm Uned Atal Trais Cymru, partneriaid ehangach a gweithredwyr y rhaglen a gefnogodd y broses o roi'r gwerthusiad ar waith
- Ceidwaid yr ymchwil a gefnogodd y broses o gasglu data a recriwtio
- Pawb a gymerodd ran yn yr astudiaeth, mewn cyfweiliadau a grwpiau ffocws

- Cydweithwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru am gynghori ar y broses o ddatblygu astudiaethau a chydweithwyr o Sefydliad Iechyd y Cyhoedd am gefnogi'r broses o gynnal yr astudiaeth a llunio'r adroddiad, gan gynnwys Alice Booth-Rosamond, Ann Marie Farrugia a David Seddon.

Terminoleg

Y defnydd o'r term 'trais difrifol'

Mae Uned Atal Trais Cymru yn annog partneriaethau i beidio â defnyddio 'difrifol' fel term wrth ddiffinio trais. O safbwynt iechyd y cyhoedd, mae'n bwysig deall y gall ymyriadau (yn enwedig y rhai yn ystod plentyndod cynnar) atal trais yn yr hirdymor, a gwella deilliannau addysgol, rhagolygon cyflogaeth ac iechyd a llesiant unigolion a chymunedau. Mae'r ymyriadau hyn hefyd yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol ehangach o ran yr economi a'r gymdeithas. Felly, byddwn yn cyfeirio at 'trais' drwy'r adroddiad hwn oni fyddwn yn cyfeirio at ffynhonnell sy'n defnyddio 'trais difrifol' fel term, neu'n dyfynnu'n uniongyrchol o'r ffynhonnell honno.

Y defnydd o'r term 'trais gan bobl ifanc'

Roedd y plant, y bobl ifanc a'r gweithwyr proffesiynol a gyfrannodd at Fframwaith Cymru Heb Drais, a gyd-gynhyrchwyd gan Uned Atal Trais Cymru a Peer Action Collective Cymru, yn glir bod y term 'trais gan bobl ifanc' yn derm hen ffasiwn. Roedd ymdeimlad y gall y term gyfrannu at labelu a stereoteipio plant a phobl ifanc fel grŵp. Felly, byddwn yn cyfeirio at 'trais ymhlith plant a phobl ifanc' drwy'r adroddiad hwn oni fyddwn yn cyfeirio at ffynhonnell sy'n defnyddio 'trais gan bobl ifanc' fel term, neu'n dyfynnu'n uniongyrchol o'r ffynhonnell honno.

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Yn 2019, ariannodd y Swyddfa Gartref y broses o sefydlu Unedau Lleihau Trais mewn 18 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr, gan gynyddu i 20 yn 2022. Sefydlwyd yr Unedau i leihau lefelau trais gan ddefnyddio dull 'iechyd y cyhoedd' o atal trais. Sefydlwyd Uned Atal Trais Cymru gyda'r nod o atal pob math o drais. Mae Heddlu De Cymru, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhan o'r tîm amlasiantaethol. Mae dull gweithredu pedwar cam yr Uned Atal Trais (Ymwybyddiaeth, Eiriolaeth, Cymorth a Mabwysiadu) yn sicrhau bod dull iechyd y cyhoedd yn cael ei ymgorffori ym mhob rhan o'r system ehangach er mwyn sicrhau gweithgarwch atal trais cynaliadwy sy'n gweithio ymhellach i sicrhau bod dull iechyd y cyhoedd yn cael ei drosi'n ymarfer gweithredol i ddylanwadu ar newidiadau cynaliadwy ar lefel system.

Yn Abertawe, sy'n ardal lle ceir lefelau uchel o drais, mae'r Uned Atal Trais a phartneriaid yn cyflwyno amrywiaeth o ymyriadau a threfniadau amlasiantaethol i leihau ac atal trais, ac i ddefnyddio dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar y plentyn o helpu plant a phobl ifanc sy'n rhan o achosion o drais neu sy'n wynebu risg o hynny. Mae'r Uned Atal Trais wedi ariannu amrywiaeth o ymyriadau ar lefel sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, sy'n cynnwys ymyriadau sy'n targedu achosion sylfaenol trais ac yn cynnig cymorth yn ystod yr hyn a ystyrir yn 'gyfle dysgu digymell'. Mae'r ymyriadau hyn yn rhan o system sydd wedi sefydlu amrywiaeth o ddulliau i dargedu trais, gan gynnwys:


Sector	Ymyriad/rhaglen/dull	Natur	Oedran
Awdurdod Lleol	Diogelu Cyd-destunol a phanel CMET Cydlynedd Ymyryd yn Gynnar ac Atal	Dull wedi'i dargedu Ymyryd yn gynnar	≥18 11-25
Cyfiawnder Troseddol	Ymyriadau Cyfleoedd Dysgu Digymell yn Nalfeydd yr Heddlu	Ymyriadau trydyddol	10-18
	Rhaglen GRIP/ Ymgyrch Sceptre	Ymataliad	Pob oedran
	Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru	Camau atal cyffredinol	4-18
Iechyd	Tîm Atal Trais y GIG	Ymyryd yn gynnar	Pob oedran
Cymunedol	Ymddiriedolaeth St Giles	Ymyriad eilaidd, wedi'i dargedu	11-18
	Fearless, Crimestoppers	Ymyriadau cynradd cyffredinol	Gweithwyr proffesiynol 11-16
	Braver Choices, Media Academy Cymru	Ymyriadau therapiwtig	10-17

Dulliau gwerthuso

Comisiynodd Uned Atal Trais Cymru Sefydliad Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl i gynnal gwerthusiad annibynnol o ddull systemau cyfan yr Uned Atal Trais o atal trais, gan ganolbwyntio ar Abertawe. Mae'r gwerthusiad yn archwilio sut mae'r ymyriadau a'r dulliau gweithredu ledled Abertawe yn gweithredu i nodi unigolion sy'n rhan o achosion o drais neu sy'n wynebu risg o hynny, a'r mesurau a roddir ar waith i liniaru risg a'u hatal rhag ymwneud ymhellach ag achosion o drais a throesdu. Ymysg y gweithgareddau gwerthuso roedd:



Adolygiad cyflym o lenyddiaeth i roi cyd-destun i'r ymchwil ac i helpu i ddehongli canfyddiadau ymchwil ac i ddatblygu argymhellion.



Cafodd tystiolaeth allweddol o raglenni, polisiâu a dogfennaeth weithredol eu casglu, eu hadolygu a, lle y bo'n bosibl, eu dadansoddi i archwilio datblygiad, gweithrediad, cyflawniad ac effaith ymyriadau'r Uned Atal Trais.



Cafodd cyfweiliadau â rhanddeiliaid allweddol (n=23) eu cynnwys yn y broses o weithredu a chyflwyno ymyriadau ledled Abertawe a ariannwyd gan yr Uned Atal Trais. Cynhaliwyd gweithdy i rhanddeiliaid (n=23) i ddatblygu argymhellion



Cyfweiliadau â defnyddwyr gwasanaethau (n=5) sy'n ymgysylltu â'r ymyriadau ledled Abertawe a ariannwyd gan yr Uned Atal Trais i archwilio anghenion unigolion, rhwystrau i gael gafael ar gymorth, profiadau teithiau ac effaith cymorth. Datblygwyd astudiaethau achos (n=7) ar gyfer ymyriadau.

Canfyddiadau allweddol

Disgrifiwyd bod yr Uned Atal Trais yn dod â gwasanaethau a chydweithwyr ynghyd i ddatblygu rhwydweithiau a meithrin cydberthnasau er mwyn gweithio mewn partneriaeth. Roedd gweledigaeth glir a rennir ymysg partneriaid ar gyfer defnyddio dull iechyd y cyhoedd cydgysylltiedig o atal trais.

Ystyriwyd bod aelodau'r Uned Atal Trais yn cynnwys amrywiaeth dda o bartneriaid. Nododd partneriaid fod ganddynt ymwybyddiaeth dda o swyddogaeth yr Uned Atal Trais, gan nodi ei bod yn fwy nag elfen ariannu. Roedd hyn yn golygu bod eu gwasanaethau wedi'u cymeradwyo a oedd yn rhoi cymorth a chredadwyedd i gyflwyno unrhyw ymyriadau yn y dyfodol. Nodwyd bod cydberthnasau a dulliau cyfathrebu rhwng yr Uned Atal Trais a darparwyr ymyriadau yn gadarnhaol, a bod gan yr Uned Atal Trais ddull hyblyg o ddeall anghenion a chefnogi gwasanaethau. Gwnaed argymhellion ar gyfer sicrhau bod adborth gan yr Uned Atal Trais yn cael ei raeadru i lawr a'i gyfeirio at staff llinell flaen er mwyn sicrhau eu bod yn deall sut mae eu gwaith yn cyd-fynd â'r agenda atal trais ehangach, ac i ddatblygu eu gwaith. Roedd partneriaid yn cytuno hefyd y gallai'r Uned Atal Trais helpu i roi gwaith ymgysylltu ag ysgolion ar waith ag ymyriadau.

*“Bydd pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn cael yr amser a'r cyfleoedd i fyw bywydau ystyrlon... gan roi sgiliau iddynt. Rydym yn credu bod addysg yn hanfodol er mwyn sicrhau bod unrhyw berson ifanc yn symud yn gadarnhaol drwy fywyd”
(Rhanddeiliad)*

*“Mae'r Uned Atal Trais yn ddynamig iawn o ran risgiau ac o ran cyflwyno newidiadau, a dangos yr hyn y gallai'r gwasanaeth fod yn dibynnu ar yr anghenion. Maen nhw'n flaengar iawn yn hynny o beth”
(Rhanddeiliad)*

Ystyriwyd bod y gwaith amlasiantaethol a chyfranogiad partneriaid yn allweddol i'r dull unedig hwn. Rhoddwyd enghreifftiau ar gyfer cydeoli a datblygu llwybrau atgyfeirio a oedd wedi hyrwyddo prosesau gweithio ar y cyd, ymwybyddiaeth o wasanaethau ac ymwybyddiaeth o'r rhwystrau a wynebir gan bobl ifanc ac unigolion sydd ag anghenion cymhleth. Nododd partneriaid fod ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r gweithgareddau atal trais a ariannwyd gan yr Uned Atal Trais, ynghyd â gwasanaethau cymorth ehangach ledled Abertawe. Fodd bynnag, awgrymodd y canfyddiadau y gall fod diffyg dealltwriaeth eang o hyd o'r gwasanaethau a ddarperir, ac y byddai'r bartneriaeth yn cael budd o gael mewnbwn cryfach gan ddarparwyr addysg ac iechyd meddwl.

"Yr unig ffordd y gallwn fynd i'r afael ag unrhyw fath o drosedd yn briodol yw drwy gael dull cydgysylltiedig a sicrhau bod pawb yn cydweithio" (Rhanddeiliad)

Ystyriwyd bod rôl y tîm Cyd-destunol, Coll, Wedi'u Hecsbloetio a'u Masnachu (CMET) yn allweddol ar gyfer gwaith amlasiantaethol effeithiol ledled Abertawe, gan gyflwyno cyfle i ddod â phartneriaid gweithredol a strategol allweddol ynghyd i rannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau ar y cyd er mwyn cael ymateb uniongyrchol a chydgyssylltiedig. Ystyriwyd bod y tîm CMET yn allweddol wrth gefnogi gwaith cydweithredol, ymgysylltu â'r sector gwirfoddol, a chwalu rhwystrau er mwyn atal pobl ifanc rhag cael eu troseddoli.

Ymysg y rhwystrau i gyflawni ar gyfer darparwyr ymyriadau roedd oedi wrth recriwtio a oedd yn effeithio ar y broses o roi ymyriadau ar waith, natur fyrhoedlog cyllid a oedd yn arwain at ansicrwydd swyddi i'r staff, gweithio gydag adnoddau a gallu cyfyngedig mewn amgylchedd sy'n ymdrin ag anghenion cynyddol a chymhleth pobl ifanc, a'r gofynion cynyddol ar y system gymorth yn gyffredinol. Ystyriwyd bod effaith pandemig COVID-19 wedi cynyddu'r cymhlethdodau hyn a'r gofynion ar wasanaeth, gyda bylchau mewn darpariaeth iechyd meddwl ar gyfer ymyriadau cynnar ac mewn argyfwng. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd deall lefel y gwaith a'r adnoddau sy'n ofynnol i gefnogi cymunedau'n effeithiol. Rhoddwyd enghreifftiau hefyd o rwystrau o ran cyfathrebu a rhannu gwybodaeth, a'r ymrwymiad sy'n ofynnol er mwyn lleihau achosion o ddyblygu gwaith, gweithio mewn seilo a hyrwyddo ymwybyddiaeth o ymyriadau a'u buddiannau.

"Mae'n heriol. Rydych yn ceisio hyrwyddo'r gwaith cydweithredol newydd hwn ac yna mae pobl, sefydliadau ac unigolion yn dychwelyd i fod eisiau gweithio mewn seilos ac mae'n anodd iawn gwneud y math hwnnw o newid mewn diwylliant" (Rhanddeiliad)

Roedd y canfyddiadau'n tynnu sylw at bwysigrwydd defnyddio dull sy'n ystyriol o drawma ar gyfer y gweithgareddau atal trais. Disgrifiodd partneriaid y ffactorau risg a phrofiadau'r bobl ifanc a oedd wedi defnyddio'r gwasanaethau, gan gynnwys Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, niwroamrywiaeth ac iechyd meddwl gwael. Gwnaethant hefyd nodi bod llawer o bobl ifanc wedi ymddieithrio o'r ysgol, gan dynnu sylw at y rôl hanfodol sydd gan addysg i'w chwarae yn creu ffactorau amddiffynnol ac yn cydnabod ffactorau risg. Nodwyd rhwystrau i deuluoedd ymgysylltu â gwasanaethau am eu bod wedi'u llethu gan brofiadau negyddol blaenorol o gymorth a'r ffaith eu bod wedi ymwneud â sawl sefydliad, a oedd wedi arwain at ddiffyg ymddiriedaeth a diffyg ymgysylltiad rhieni. Mae hyn yn tynnu sylw at y ffaith bod angen i wasanaethau gydweithio

"Efallai nad yw pobl yn deall effaith y trawma y gall pethau fel bod yn rhan o gang neu weld rhywun yn cael ei drywanu a'i frifo ei achosi. "Rwy'n meddwl bod pobl yn diystyru trawma a sut y gall effeithio ar eich iechyd meddwl" (Rhanddeiliad)

"Wedi fy amddiffyn rhag perygl a'm haddysgu beth sy'n gywir a beth sy'n anghywir" (Person ifanc)

i roi cymorth teulu cyfan cofleidiol a hygyrch. Ystyriwyd bod cael staff profiadol a medrus yn allweddol i hyn, gan sicrhau y gallent weld y tu hwnt i'r ymddygiad/digwyddiad cychwynol er mwyn meithrin ymddiriedaeth, eiriol dros y bobl ifanc a gwneud i bob cyswllt gyfrif.

Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn rhoi tystiolaeth o ganlyniadau unigol pobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau a'r cymorth atal trais a ariennir gan yr Uned Atal Trais. Roedd hyn yn cynnwys creu ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael a sut i gael gafael arno, chwalu rhwystrau a lleihau stigma, gan alluogi pobl ifanc i gael gafael ar gymorth, a meithrin cydberthnasau diogel y gellir ymddiried ynddynt er mwyn ymgysylltu â gwasanaethau. Roedd yr adborth gan ddarparwyr gwasanaethau a'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y gwerthusiad yn cynnwys bod gan bobl ifanc fwy o wybodaeth am risgiau ac ymwybyddiaeth ohonynt a'u bod yn gwneud dewisiadau hyddysg, yn datblygu strategaethau ymdopi amgen ac yn mwynhau iechyd a llesiant gwell, gan gynnwys mwy o wydnwch a mwy o hunan-barch a hyder. Roedd cymryd rhan mewn gweithgareddau ymyrryd hefyd yn cynnig strwythur a threfn o bobl ifanc, gan roi'r cyfle iddynt feithrin sgiliau i'w helpu i symud ymlaen â'u bywydau. Roedd adroddiadau hefyd am effaith ehangach o ran cydberthnasau gwell gan bobl ifanc â ffrindiau a theulu a llai o achosion o drais. Er enghraifft, dywedodd un person ifanc ei fod yn teimlo'n fwy diogel ar ôl cymryd rhan mewn gweithgareddau i atal troseddau cyllyll. Yn wir, roedd rhanddeiliaid yn gobeithio y byddai cymorth o'r ymyriadau yn arwain at lai fyth o achosion o drais, gyda phobl ifanc yn teimlo'n rhan o'u cymunedau ac yn ddiogel ynddynt.

"Rwy'n siarad â MAC, ond rwy'n siarad â phobl eraill nawr hefyd, rwy'n siarad â'm ffrindiau a'm teulu"
(Person ifanc)

"Gallwn nodi rhwydweithiau troseddol a rhwydweithiau camfanteisio. Rydym yn nodi'n llawer mwy effeithiol nag erioed o'r blaen" (Rhanddeiliad)

Mae canfyddiadau'r gwerthusiad hefyd yn rhoi tystiolaeth o effaith y gweithgareddau a ariennir gan yr Uned Lleihau Trais ar draws y system ehangach. Arweiniodd y cyllid gan yr Uned Atal Trais at fwy o gapasiti mewn gwasanaethu gan olygu bod ganddynt gyrhaeddiad ehangach i ymgysylltu â mwy o weithwyr proffesiynol a phobl ifanc. Rhoddwyd enghreifftiau o welliannau o ran gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol, gan gynnwys mwy o ymarfer sy'n ystyriol o drawma. Dengys canfyddiadau hefyd waith partneriaeth gwell, mwy o gyrhaeddiad a defnydd mwy priodol o lwybrau gwell, ynghyd â datblygiad llwybrau hygyrch at gymorth ac ymwybyddiaeth ohonynt. Cafwyd adroddiadau am brosesau gwell i rannu gwybodaeth ac adrodd a oedd yn golygu y gellid targedu adnoddau ac ymatebion yn well.

"Rwy'n meddwl bod angen i ni gael dulliau adrodd sy'n edrych ar ein heffaith a'n perfformiad a meddwl am dulliau o fesur llwyddiannau a chanlyniadau. Dydw i ddim yn meddwl ein bod yn mesur yr effaith mor gadarn ag y gallem fod yn ei wneud"
(Rhanddeiliad)

Tynnwyd sylw at rwystrau o ran sicrhau bod data'n cael eu caffael yn effeithiol ac roedd partneriaid yn cydnabod pwysigrwydd casglu data, gan gynnwys ansawdd y data, er mwyn rhoi tystiolaeth o effaith a chefnogi cynaliadwyedd ymyriadau. Nodwyd yr angen am gymorth ychwanegol, o bosibl gan yr Uned Atal Trais er mwyn datblygu system ganolog i ddod â'r holl wybodaeth a chudd-wybodaeth ynghyd. Roedd adroddiadau ar ddangosyddion perfformiad y Swyddfa Gartref ar gyfer gweithgareddau a ariennir gan yr Uned Lleihau Trais yn gyfyngedig i adlewyrchu gwir natur yr ymyriadau, a gellid eu haddasu a'u teilwra ymhellach ar gyfer yr ymyriadau a ariennir gan yr Uned Atal Trais.

Dengys canfyddiadau'r gwerthusiad fod y model comisiynu a chyflawni yn cyfrannu at nodau cyffredinol ehangach lleihau trais a niwed ymysg plant a phobl ifanc, a'i fod yn creu cymunedau mwy diogel ledled Cymru. Er bod darparwyr y gwasanaethau yn bodoli cyn iddynt weithio gyda'r Uned Atal Trais, mae canfyddiadau gwerthuso yn dangos, heb y cyllid a'r cymorth gan yr Uned Atal Trais i sefydlu a chynnal llwybrau cymorth, na fyddai'r canlyniadau hyn drwy'r system wedi cael eu cyflawni. Gan ystyried cynaliadwyedd y gwasanaethau a gynigir, tynnodd partneriaid sylw at y ffaith na fyddai gan ddarparwyr yr un cyrhaeddiad i gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd heb gyllid parhaus a hirdymor. Nodwyd bod hyn yn bryder o ystyried y cymhlethdodau cynyddol a wynebwr gan gymunedau a'r gofynion cynyddol ar y system. Mae canfyddiadau gwerthuso yn tynnu sylw at y ffaith bod gwaith partneriaeth effeithiol yn cefnogi dull cynaliadwy o atal trais ledled Abertawe. Mae enghreifftiau o arferion gorau o astudiaeth achos Abertawe yn cynnig gwersi pwysig i ardaloedd eraill ledled Cymru. Cytunwyd hefyd fod y model yn cynnig y cyfle i weithio'n agos gyda Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Diogelu Cyd-destunol yr Awdurdod Lleol a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i ddatblygu a chysoni strategaethau er mwyn gwella cydlyniant a diogelwch cymunedol. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â chyflwyno'r Ddyletswydd Trais Difrifol.

Argymhellion ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar draws y system

- Gallai'r Uned Atal Trais weithio gyda'r darparwyr atal cyffredinol i sicrhau bod lefelau uwch o sefydliadau addysgol ac ysgolion ledled Abertawe yn cymryd rhan. Gall fod angen cymorth y llywodraeth i annog ymgysylltiad.
- Ymysg yr enghreifftiau o arferion gorau, tynnwyd sylw at y gwaith partneriaeth rhwng gwasanaethau statudol a gwirfoddol mewn gweithgareddau a ariennir gan yr Uned Atal Trais. Dylid ehangu ar hyn ymhellach ar draws y sector gwirfoddol er mwyn ymgysylltu'n well â chymunedau. Gellid defnyddio'r hyn a ddysgwyd gan y tîm diogelu cyd-destunol yma.
- Mae'r ymyriadau yn Abertawe yn enghreifftiau da o waith partneriaeth i wella adnoddau ar draws y system o ran gwaith sy'n ystyriol o drawma. Gellid cysylltu hyn â hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ym mhob rhan o'r gweithlu.
- Mae'r holl ymyriadau yn cynnwys mewnbyn ar lefel strategol a gweithredol sy'n bwysig ar gyfer cyflawni'n effeithiol, gyda gwaith gweithredol ar y llinell flaen yn llywio penderfyniadau strategol. Dylai'r Uned Atal Trais ystyried sut y gall ymgysylltu'n fwy anffurfiol â staff llinell flaen er mwyn cael proses adborth ddwyffordd.
- Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at fwch mewn darpariaeth cymorth iechyd meddwl (ar gam ymyrryd yn gynnar ac mewn argyfwng) a chynrychiolaeth ar lefel partneriaeth. Os nad ydych eisoes wedi gwneud hyn, dylid gwahodd cydweithwyr iechyd meddwl o'r system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach i banel CMET a dylai'r Uned Atal Trais archwilio'r broses o greu llwybr cymorth iechyd meddwl at ymyriadau wedi'u hariannu gan yr Uned Atal Trais yn y dyfodol.
- Gallai partneriaid allweddol a'r Uned Atal Trais gydweithio i ddatblygu strategaeth gyfathrebu sy'n addas i bobl ifanc. Awgrymodd rhanddeiliaid y gallai'r ffocws symud i ffwrdd oddi wrth gario cyllyll a chanolbwyntio ar ddefnyddio iaith a rennir a straeon newyddion da.
- Lle y bo'n bosibl, byddai cyllid tymor hwy yn golygu y byddai llai o darfu ar y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y gweithlu a defnyddwyr gwasanaethau. Mae hefyd yn golygu y gellir cynnal gwerthusiad tymor hwy i allu deall gwir effaith ymyriadau. Dylai gwasanaethau atal trais weithio ochr yn ochr â'r Uned Atal Trais i ddatblygu achos busnes a model cynaliadwy y tu hwnt i gyllid yr Uned Atal Trais.
- Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol er mwyn cydweithio. Mae angen i ymyriadau sy'n cynnwys sefydliadau gwahanol gynnwys pob partner allweddol sy'n cymryd rhan o'r

dechrau er mwyn llywio'r broses gynllunio a gweithredu. Bydd hyn yn cyfrannu at berchnogaeth a chyfrifoldeb a rennir. Gall aelodaeth amlasiantaethol yr Uned Atal Trais hwyluso gwasanaethau i rannu cyfrifoldebau.

- Mae aelodaeth panel CMET yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol sy'n rhan o'r Uned Atal Trais a gweithgarwch atal trais ehangach ledled Abertawe. Dylai hyn barhau i redeg, gan adolygu'r aelodaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod pob partner a sector yn cymryd rhan. Os nad yw hyn eisoes yn digwydd, dylid gwahodd adrannau iechyd cyhoeddus, a gallai'r Uned Atal Trais weithio gyda chydweithwyr o'r byd addysg i nodi'r cydweithwyr sydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r cyfarfodydd hyn.
- Gellid cofnodi cudd-wybodaeth a ddefnyddir ar gyfer CMET yn swyddogol er mwyn creu allbynnau mwy ffurfiol gan gynnwys argymhellion a arweinir gan gudd-wybodaeth i lywio cyfeiriad adnoddau ar draws y system. Byddai angen adnoddau a chapasiti ychwanegol i gefnogi hyn. Gallai'r Uned Atal Trais weithio gyda Chyngor Abertawe i archwilio dichonoldeb hyn.
- Mae'r gwaith a wneir gan y tîm diogelu cyd-destunol yn unigryw ac mae'n cefnogi dull diogelu sy'n ystyriol o drawma. Gallai Abertawe ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd i arddangos y gwaith hwn fel arfer gorau a'r hyn a ddysgwyd ar gyfer ardaloedd eraill ledled Cymru.

Argymhellion ar gyfer dangos effaith ym mhob rhan o'r system

- Ym mlwyddyn gyntaf yr Uned Atal Trais, datblygodd yr Uned Atal Trais a Phrifysgol John Moores Lerpwl becyn cymorth gwerthuso i gefnogi'r Uned Atal Trais a darparwyr a ariennir ganddi i wella'r broses o ddangos effaith gweithgareddau atal trais ledled Cymru. Gellid defnyddio'r pecyn offer yn fwy eang i gefnogi gwerthusiadau cyson. Gallai partneriaid yr Uned Atal Trais gydweithio i ddatblygu fframwaith canlyniadau safonol ymhellach ar gyfer model atal trais Uned Atal Trais Abertawe. Argymhellir y dylai rhan greiddiol o'r fframwaith hwn fod yn gyson ar draws gwasanaethau er mwyn dangos effaith systemau cyfan. Fodd bynnag, dylai'r fframwaith hwn hefyd sicrhau rhyddid i wneud addasiadau ar draws ymyriadau gwahanol. Dylai hyn gynnwys canlyniadau llai pendant a nodau wedi'u teilwra yn seiliedig ar anghenion a nodau cleientiaid unigol.
- Gall ymarferion mapio data a sicrhau ansawdd fod yn ddefnyddiol ar gyfer ymyriadau unigol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau y caiff y data priodol eu casglu i adlewyrchu'r ddarpariaeth ac effaith y ddarpariaeth honno.
- Dylid cyflwyno data canlyniadau ar gyfer achosion o fynd i Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, yn ogystal â data eraill, gyda naratif i ddangos yr effaith fyrdymor ac osgoi camddehongli.
- Gellid archwilio data ar ymyriadau ynghyd â setiau data ehangach o fewn Porth Atal Trais Cymru i olrhain effaith bosibl ar draws y system ehangach (er enghraifft data'r Grŵp Cudd-wybodaeth Trawma ac Anafiadau). Gall hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar gudd-wybodaeth data fod yn ddefnyddiol er mwyn i gydweithwyr ddeall y darlun ehangach a sut y gall data canlyniadau ddylanwadu ar weithredoedd.
- Dylai astudiaethau achos dienw barhau i gael eu datblygu ar draws ymyriadau mewn templed safonol i'w ddefnyddio wrth werthuso (yn fewnol ac yn allanol) i ddangos effaith gwasanaethau. Dylid cael cydsyniad gan ddefnyddwyr gwasanaethau cyn ei ddefnyddio ar gyfer y cyhoedd.
- Mae'r gwerthusiad yn tynnu sylw at ymarfer data arfer gorau a gynhaliwyd gan Gyngor Abertawe. Gellid ehangu'r ymarfer casglu data hwn a'i ymgorffori fel mater o drefn i ddwyn

data ynghyd ar draws y system. Byddai angen adnoddau a chapasiti ychwanegol i gefnogi hyn. Gallai'r Uned Atal Trais a Chyngor Abertawe weithio ar y cyd i sicrhau y caiff y gudd-wybodaeth fwyaf priodol ei chasglu o bob rhan o'r system ehangach.

- Caiff y rhan fwyaf o'r ymyriadau eu gwerthuso'n lleol ac yn genedlaethol. Byddai'n ddefnyddiol i bartneriaid gwerthuso ddod ynghyd i sefydlu grŵp cyngori ar werthuso i rannu canfyddiadau (lle y caniateir hynny) ac i gysoni dulliau recriwtio i sicrhau nad ymchwilir yn ormodol i wasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau neu na ofynnir gormod ganddynt.
- Mae adborth gan bobl ifanc yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynnwys llais defnyddwyr gwasanaethau wrth ddylunio, gweithredu, darparu a gwerthuso ymyriadau. Dylai darparwyr gwasanaethau a gwerthuswyr barhau i sicrhau bod llais defnyddwyr gwasanaethau wrth wraidd y broses o ddylunio a darparu ymyriadau, gan ymgorffori prosesau cyd-gynhyrchu lle y bo'n bosibl. Dylai hyn fod yn ffocws allweddol ar gyfer gwerthusiadau blwyddyn olaf gweithgareddau a ariennir gan yr Uned Atal Trais i ddeall gwaddol yr Uned Atal Trais yn well ac i ddatblygu cynllun cynaliadwyedd.

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	1
1.1 Uned Atal Trais Cymru	1
1.2 Rôl gwerthuso	2
1.3 Astudiaeth Achos Dull Systemau Cyfan yr Uned Atal Trais: Abertawe.....	2
Cyd-destun lleol	2
Dull gweithredu ac ymyriadau model Abertawe	2
2. Methodoleg gwerthuso	4
2.1 Nodau gwerthuso systemau cyfan.....	4
2.2 Deall proses a gweithrediad.....	5
2.3 Ymgysylltiad cymunedol i ddeall ac archwilio effaith	5
2.4 Dadansoddi rhwydwaith	5
2.5 Amserlenni	6
3. Canfyddiadau	7
3.1 Profiadau rhanddeiliaid o waith amlasiantaethol ar draws y system.....	7
Dull cydweithredol.....	7
Cydweithio â'r Uned Atal Trais.....	7
Llwybrau a chyfathrebu	8
Rôl CMET o ran gwaith amlasiantaethol.....	11
3.2 Rhwystrau i gyflawni dull systemau cyfan effeithiol o atal trais yn Abertawe	12
Cyllid, adnoddau a chapasiti	12
Achosion posibl o ddyblygu'r gwasanaethau a ddarperir ar draws y system.....	13
Rhwystrau o ran partneriaeth a chyfathrebu	14
Ennyn diddordeb partneriaid yn yr ymyriadau.....	14
Rhannu data a gwybodaeth rhwng gwasanaethau ar draws y system	15
Bylchau o ran darparu gwasanaethau	15
3.3 Dull sy'n ystyriol o drawma ar draws y system	16
3.4 Effaith ar draws y system.....	19
Effaith unigol.....	19
Effaith ar lefel system	21
3.5 Dangos tystiolaeth o effaith ar lefel system	23
3.6 Cynllunio ar gyfer y dyfodol a chynaliadwyedd ar gyfer atal trais yn Abertawe	27
4. Deall canlyniadau system atal trais effeithiol yn Abertawe.....	29

4.1 Model Rhesymeg Abertawe.....	29
4.2 Argymhellion ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar draws y system	34
4.3 Argymhellion ar gyfer dangos effaith ym mhob rhan o'r system	35
5. Cyfeiriadau	37
5. Atodiadau.....	38

1. Cyflwyniad

1.1 Uned Atal Trais Cymru

Yn 2019, ariannodd y Swyddfa Gartref y broses o sefydlu Unedau Lleihau Trais mewn 18 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr, gan gynyddu i 20 yn 2022. Sefydlwyd yr Unedau Lleihau Trais i leihau lefelau o drais difrifol drwy arwain a chydlynu gweithgareddau atal trais mewn modd strategol. Roedd yn ofynnol i'r Unedau ymgorffori dull 'iechyd y cyhoedd' o atal trais, sy'n defnyddio data i ddeall natur ac amlygrwydd trais ac i ddatblygu ymyriadau sy'n mynd i'r afael ag achosion craidd erledigaeth a chyflawniad trais. Mae pob Uned Lleihau Trais wedi buddsoddi mewn gweithgarwch ymyrryd yn gynnar a gweithgarwch dargyfeirio sydd â'r nod o atal unigolion rhag bod yn rhan o achosion o drais ac ymddygiad troseddol ehangach, a chefnogi'r rhai sy'n rhan o achosion o drais i wneud newidiadau cadarnhaol a lleihau'r risg o niwed pellach. Nod yr ymyriadau hyn yw ceisio mynd i'r afael â ffactorau risg o drais ar lefel unigol, rhyngpersonol, cymunedol a/neu gymdeithasol, gan hyrwyddo ffactorau amddiffynnol.

Sefydlwyd Uned Atal Trais Cymru gyda'r nod o atal pob math o drais yng Nghymru drwy ddull iechyd y cyhoedd. Nod yr Uned Atal Trais yw cyflwyno dull systemau cyfan o atal trais. Mae Heddlu De Cymru, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn arwain tîm amlasiantaethol yr Uned. Mae'r Uned Atal Trais wedi sefydlu rhwydwaith rhanddeiliaid mawr er mwyn helpu'r Uned i sefydlu a chydlynu gweithgarwch atal trais yn genedlaethol.

Mae'r Uned Atal Trais yn defnyddio dull systemau i fynd i'r afael â phroblemau iechyd y cyhoedd. Mae angen dull systemau cyfan i fynd i'r afael â materion iechyd y cyhoedd cymhleth, er mwyn cefnogi dull cydweithredol o sicrhau newidiadau hirdymor [1,2]. Ni fydd ymyriadau sy'n canolbwyntio ar unigolion yn unig yn mynd i'r afael ag achosion craidd a phenderfynyddion ehangach trais. Mae nodi a deall penderfynyddion ehangach iechyd sy'n effeithio ar y boblogaeth yn hanfodol [3]. Mae dulliau sy'n seiliedig ar le yn cydnabod na fydd dull cyffredinol o fynd i'r afael â thrais yn llwyddiannus. Drwy gydnabod penderfynyddion cymdeithasol iechyd drwy gamau gwahanol bywyd, mae dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar le yn darparu fframwaith sy'n mynd i'r afael ag anghenion cymunedau penodol, drwy sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth i wella canlyniadau ar gyfer y 'lle cyfan' nid unigolion yn unig [3, 4].

Cydnabu'r Uned Atal Trais yr angen i ddylanwadu ar newid ehangach, cynaliadwy drwy ddylanwadu ar asiantaethau a rhanddeiliaid allweddol i ymgorffori dulliau iechyd y cyhoedd yn eu gwaith, i wella ymatebion rhyngasiantaethol ac i ymgorffori newid ar lefel system. Mae dull gweithredu pedwar cam i fodel gweithredu'r Uned Atal Trais: Ymwybyddiaeth, Eiriolaeth, Cymorth a Mabwysiadu [5]. Datblygwyd y model hwn i gwmpasu gweithgarwch yr Uned Atal Trais ar draws pob agwedd ar ddull iechyd y cyhoedd ac i sicrhau bod dull iechyd y cyhoedd yn cael ei ymgorffori ar draws y system ehangach i alluogi gweithgarwch atal trais cynaliadwy [6, 7, 8].

1.2 Rôl gwerthuso

Un elfen allweddol o ddull iechyd y cyhoedd yw sicrhau bod dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael ei ddefnyddio, drwy werthuso gweithgareddau ac ymyriadau, a thrwy ddatblygu dystiolaeth er mwyn llywio'r broses ehangach o gyflwyno mentrau effeithiol. Fel rhan o gytundebau'r grant, mae Swyddfa Gartref y DU yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Unedau Lleihau Trais ddangos effaith yr ymyriadau a'r dulliau a gyflawnir, i sicrhau eu bod yn effeithiol wrth fynd i'r afael â ffactorau risg trais a gostwng lefelau trais o ganlyniad i hynny.

Mae'r Uned Atal Trais wedi gwneud cynnydd sylweddol yn sefydlu ei bresenoldeb yng Nghymru ac mae'n dylanwadu ar ddulliau atal trais yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol. Dros y tair blynedd diwethaf, mae Uned Atal Trais Cymru wedi llunio gwerthusiadau o ymyriadau unigol, ac wedi comisiynu gwerthusiadau annibynnol o ddull atal trais systemau cyfan yr Uned Atal Trais [9,10]. Mae dystiolaeth yn dangos bod newidiadau llwyddiannus i systemau yn mynd y tu hwnt i ymyriadau comisiynu ar lefelau gwahanol o'r system (sylfaenol/eilaidd/trydyddol); ond mae hefyd yn dibynnu ar y partneriaethau sydd dan sylw i fabwysiadu dull iechyd y cyhoedd o atal trais, ac o ymgorffori hyn yn llwyddiannus mewn polisiâu ac ymarfer [10].

Er bod gwerthusiadau blaenorol wedi canolbwyntio ar archwilio gweithrediad ac effaith gynnar yr Uned Atal Trais, mae'r gwerthusiad presennol yn defnyddio dull astudiaeth achos systemau cyfan¹ o archwilio sut mae'r Uned yn gweithio i gynnal gweithgareddau atal trais yn Abertawe. Yn benodol, roedd yr Uned Atal Trais am asesu'r broses o gyflwyno'r dulliau hyn sy'n seiliedig ar le yn Abertawe ar y cyd, er mwyn cofnodi sut maent yn gweithredu i nodi unigolion sy'n rhan o achosion o drais neu sy'n wynebu risg o hynny, ac asesu'r mesurau a roddir ar waith i liniaru risg a'u hatal rhag cael eu cynnwys ymhellach mewn achosion o drais a throeddau.

1.3 Astudiaeth Achos Dull Systemau Cyfan yr Uned Atal Trais: Abertawe Cyd-destun lleol

Abertawe yw'r ddinas fwyaf ond un yng Nghymru a'r ganolfan fasnachol ranbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru, gyda phoblogaeth o 238,500 – dyma'r awdurdod unedol mwyaf ond un yng Nghymru [11]. Gwelir lefelau uchel o amddifadedd ac anghydraddoldebau iechyd ledled Abertawe, gyda 17 o'r 148 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ymysg y 10 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru [12]. Mae gan drigolion Abertawe ganlyniadau iechyd gwaeth o gymharu â chyfartaledd Cymru [13]. Mae troseddau treisgar yn cyfrif am 35.1% o'r holl droseddau a gofnodir yn Abertawe a dyma'r drosedd fwyaf cyffredin yn yr ardal [14] sy'n dangos y galw sylweddol am ymyriadau atal trais ledled Abertawe. Mae pandemig COVID-19 [15] a'r argyfwng costau byw presennol hefyd wedi effeithio ar drawma a thrais.

Dull gweithredu ac ymyriadau model Abertawe

Yn Abertawe, sy'n ardal lle ceir lefelau uchel o drais, mae'r Uned Atal Trais a phartneriaid yn cyflwyno amrywiaeth o ymyriadau a threfniadau amlasiantaethol i leihau ac atal trais, ac i ddefnyddio dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar y plentyn o helpu plant a phobl ifanc sy'n rhan o achosion o drais neu sy'n wynebu risg o hynny. Mae'r Uned Atal Trais wedi ariannu amrywiaeth o ymyriadau ar lefel sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, sy'n cynnwys ymyriadau sy'n targedu achosion sylfaenol trais ac yn

¹ At ddibenion y gwerthusiad hwn, mae'r term 'system' yn cyfeirio at yr amrywiaeth eang o asiantaethau ledled Cymru sy'n cyfrannu at atal trais.

cynnig cymorth yn ystod yr hyn a ystyrir yn 'gyfle dysgu digymell'. Mae'r ymyriadau hyn² yn rhan o system sydd wedi sefydlu amrywiaeth o ddulliau i dargedu trais, gan gynnwys:

Enw'r ymyriad	Grŵp oedran targed	Lleoliad	Trosolwg
Y Panel Cyd-destunol, Coll, Wedi'u Hecsbloetio a'u Masnachu (CMET) (Cyngor Abertawe)	Dd/G	Dd/G	Grŵp amlasiantaethol yw'r Panel CMET sy'n cynnwys partneriaid fel Heddlu De Cymru, Diogelwch Cymunedol, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid a sefydliadau yn y trydydd sector. Mae panel CMET yn gweithio o fewn fframwaith diogelu cyd-destunol i gydnabod ac ymateb i anghenion unigol pobl ifanc a nodwyd gan bartneriaid.
Cyfleoedd Dysgu Digymell (Heddlu De Cymru a Media Academy Cymru (MAC))	10-17 oed	Dalfeydd	Nod Cyfleoedd Dysgu Digymell yw ymyrryd ac atal pobl ifanc rhag ymwneud ymhellach â thrais drwy drin yr adeg y daw person ifanc i'r ddalfa fel 'cyfle dysgu digymell'. Mae'r model yn cyflogi gweithwyr achos o Media Academy Cymru (MAC) i gyflwyno cyfweiliadau cymell, gan gynnwys asesiad o anghenion ac archwiliad o nodau bywyd.
Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru (WPSP) (Heddlu De Cymru)	5-16 oed	Ysgolion yng Nghymru	Partneriaeth gydweithredol yw WPSP rhwng Llywodraeth Cymru a phedwar Heddlu Cymru. Caiff y rhaglen ei chyflwyno gan Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion i ddiogelu plant a phobl ifanc, i'w haddysgu am y niweidiau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, i hyrwyddo egwyddorion dinasyddiaeth gadarnhaol, ac i leihau'r lefelau troseddau ac anhrefn o fewn cymunedau ifanc.
Ymddiriedolaeth St Giles	11-18 oed	Swyddfeydd St Giles	Mae St Giles yn cynnig ymyriadau eilaidd wedi'u targedu i gefnogi pobl ifanc sy'n rhan o achosion o drais a chamfanteisio neu sy'n wynebu risg o hynny e.e., llinellau cyffuriau, gweithgarwch troseddol, camfanteisio a chamfanteisio'n rhywiol ar blant a'u masnachu. Mae'r gwasanaeth yn helpu pobl ifanc i oresgyn rhwystrau i'w galluogi i gael y cymorth sydd ei angen arnynt i symud ymlaen â'u bywydau.
Fearless (Crimestoppers)	11-18 oed	Unrhyw leoliad lle mae pobl ifanc yn ymgynnull	Mae Fearless yn cynnal gweithdai addysgol i rymuso plant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau cadarnhaol, hyddysg ynghylch rhoi gwybod am droseddau. Prif nod y gwasanaeth yw addysgu pobl ifanc am faterion yn ymwneud â throseddau a all effeithio arnynt a'u hannog i roi gwybod am droseddau a welwyd ganddynt.
Braver Choices (Media Academy Cymru (MAC))	10-25 oed	Lleoliadau cymunedol	Mae Braver Choices yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n ymddwyn mewn ffordd beryglus, er enghraifft drwy gario arfau. Mae'n cyflwyno rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ymwneud ag arfau, trais a chamfanteisio rhywiol er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau hyddysg, datblygu strategaethau ymdopi a deall goblygiadau eu gweithredoedd.

² Ochr yn ochr â'r ymyriadau, ceir hefyd nifer o ddulliau heddlu ehangach gan gynnwys: 1) Rhaglen GRIP – plismona ardaloedd problemus, gan ganolbwyntio'n fforensig ar y strydoedd a'r cymdogaethau penodol yr effeithir arnynt fwyaf. 2) Ymgyrch Sceptre – mynd i'r afael â throseddau cyllyll, a phroblemau cysylltiedig trais difrifol a chyffuriau anghyfreithlon. Gan gynnwys gweithrediadau, ymgysylltu ac addysg wedi'u targedu.

Tîm Atal Trais y GIG (y GIG a Media Academy Cymru (MAC))	Hyd at 25 oed	Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Treforys	Mae'r Tîm Atal Trais yn gweithio i nodi ac ymateb i gleifion sydd ag anafiadau sy'n gysylltiedig â thrais. Mae'r tîm yn ymgysylltu â'r cleifion hyn pan fyddant yn yr ysbyty ac yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i annog pobl ifanc i beidio â dilyn ffyrdd o fyw llawn trais drwy eu hannog i ymgysylltu â gwasanaethau.
--	---------------	---	---

2. Methodoleg gwerthuso

2.1 Nodau gwerthuso systemau cyfan

Comisiynodd Uned Atal Trais Cymru Sefydliad Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl i gynnal gwerthusiad annibynnol o ddull systemau cyfan yr Uned Atal Trais o atal trais, gan ganolbwyntio ar Abertawe. Nod y gwerthusiad oedd archwilio effaith gweithgareddau a ariennir gan yr Uned Atal Trais ar brosesau atal trais ar lefel gymunedol a deall sut mae gwasanaethau, sefydliadau a gweithgareddau yn gweithredu ar y cyd i wella canlyniadau i unigolion a'u cymunedau. At ddibenion yr Uned Atal Trais a'r gwerthusiad hwn, cafodd y 'system' ei diffinio i gynnwys dulliau ehangach asiantaethau allweddol (e.e. yr heddlu a phartneriaethau diogelwch cymunedol), ond gan ganolbwyntio'n benodol ar banel y panel Cyd-destunol, Coll, Wedi'u Hecsbloetio a'u Masnachu, trefniant amlasiantaethol i dargedu ardaloedd problemus, gan ddarparu cymorth cofleidiol i blant a phobl ifanc sy'n wynebu risg.

Gellir diffinio dull systemau cyfan Abertawe o fynd i'r afael ag achosion o drais a bregusrwydd fel 'ymyriad cymhleth' oherwydd ei elfennau gwahanol, y rhyngweithio rhyngddynt, yr amrywiaeth o arbenigedd a sgiliau sy'n ofynnol i'w cyflwyno, a'r grwpiau a'r lleoliadau a dargedir gan yr ymyriad. O ganlyniad, defnyddiwyd y fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso ymyriadau cymhleth³ i lywio'r broses o ddylunio'r gwerthusiad hwn [16]. Mae'r canllawiau yn canolbwyntio ar y broses o weithredu a gwerthuso ymyriadau cymhleth mewn lleoliad go iawn ac mae'n cydnabod y dylai gwerthusiadau ystyried sut mae ymyriadau'n cyfrannu at newid mewn systemau, yn hytrach na chanolbwyntio ar effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd yn unig. Mae hyn yn gwella'r ddealltwriaeth o'r broses a'r ddealltwriaeth o ganlyniadau unigol ac ar lefel system [16]. Mae'r canllawiau yn argymhell y dylai ymchwil ymyrryd gymhleth ystyried: 1) Effeithiolrwydd – ba raddau y mae neu y dylai'r ymyriad greu'r canlyniadau a fwriedir, 2) Damcaniaeth – beth sy'n gweithio ym mha amgylchiadau, a 3) System – sut mae'r system a'r ymyriad yn addasu i'w gilydd [16].

Mae'r canllawiau yn argymhell y dylid defnyddio dyluniadau ansoddol a dulliau cymysg i werthuso ymyriadau cymhleth. Mae'r fframwaith canllawiau yn cynnwys chwe elfen graidd (cyd-destun, damcaniaeth rhaglen, ymgysylltiad rhanddeiliaid, nodi ansicrwydd allweddol, mireinio'r ymyriad ac ystyriaethau economaidd) [16] sydd wedi llywio'r broses o ddatblygu'r fethodoleg ar gyfer y gwerthusiad o'r astudiaethau achos (gweler yr atodiad).

Mae'r gwerthusiad wedi cael cymeradwyaeth foesegol lawn gan Bwyllgor Moesegau Ymchwil John Moores Lerpwl (cyfeirnod cymeradwyaeth: 21/PHI/023). Roedd hyn yn galw am gynllunio clir ar gyfer diogelu, rhannu data, storio data, rheoli risg a chydysyniad hyddysg. Roedd ceidwaid pyrth yn cefnogi'r broses o gasglu data drwy recriwtio a hwyluso, a mynediad at ffynonellau data perthnasol.

³ Comisiynwyd gan y Cyngor Ymchwil Feddygol a'r Sefydliad Ymchwil Iechyd Cenedlaethol. Mae canllawiau 2021 yn ddiweddiariad ar ganllawiau'r Cyngor Ymchwil Feddygol a gyhoeddwyd yn 2000 ac a ddiweddarwyd yn 2006 a chawsant eu comisiynu ar y cyd gan y Cyngor Ymchwil Feddygol a'r Sefydliad Ymchwil Iechyd Cenedlaethol.

2.2 Deall proses a gweithrediad

Mae sefydlu tystiolaeth ynghylch sut mae Abertawe wedi rhoi dull systemau cyfan o atal trais ar waith yn hanfodol er mwyn cyflwyno'r dull hwn yn ehangach. Cynhaliwyd cyfweiliadau un-i-un (n=18), cyfweiliad mewn pâr (n=1) a grŵp ffocws (n=1) gyda 23 o randdeiliaid. Roedd hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o bob rhan o'r system gan gynnwys darparwyr ymyriadau/gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol allweddol i ddeall ymgysylltiad â'r system ehangach a phrofiadau ohoni. Drwy'r ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, bu modd i'r tîm ddeall p'un a arweiniodd dull Abertawe at newid, a sut a pham y gellid bod wedi sicrhau'r newid hwn, ac i ystyried yr hyn a weithiodd yn dda, gan gynnwys llwyddiant canfyddedig a meysydd yr oedd angen eu gwella. Roedd y dull hwn yn archwilio safbwyntiau rhanddeiliaid am ansawdd ymyriad Abertawe, o ran yr elfennau unigol a'r effeithiau lefel system a'r ffactorau cyd-destunol sy'n effeithio ar weithrediad a llwyddiant ymyriadau.

Hefyd, adolygwyd dogfennaeth y rhaglen i ychwanegu dealltwriaeth a chyd-destun manylach i'r broses werthuso. Defnyddiwyd y cyfweiliadau a dogfennaeth y rhaglen i lywio dadansoddiad o'r system a datblygu astudiaethau achos o ymyriadau.

2.3 Ymgysylltiad cymunedol i ddeall ac archwilio effaith

Gweithiodd y tîm ymchwil yn agos gyda'r sefydliadau sy'n darparu ymyriadau er mwyn nodi cyfleoedd i ymgysylltu â'r cymunedau y maent yn gweithio'n uniongyrchol gyda nhw, a deall yr effaith ar y bobl y mae eu gweithgarwch yn effeithio arnynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, a'u profiadau. Cafodd lleisiau pum person ifanc eu cofnodi drwy gyfweiliadau uniongyrchol a thrwy gyfweiliadau a arweiniwyd gan weithwyr ieuenctid. Roedd cynnwys lleisiau pobl ifanc yn rhan allweddol o weithgareddau gwerthuso a rhagwelwyd y byddai'r gwerthusiad yn ymgysylltu â mwy o bobl ifanc na'r hyn a oedd yn bosibl. Er mwyn sicrhau bod yr adborth yn adlewyrchu'r holl ymyriadau, cafodd astudiaethau achos a gasglwyd yn fewnol, adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a straeon newyddion da eu cynnwys. Ystyriwyd yr ymgysylltiad ansoddol â rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau:

- A yw'r ymyriadau yn ymgysylltu â'r cymunedau yn Abertawe, sut a ble
- Sut mae'r ymyriadau yn gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd ac asiantaethau allanol i hyrwyddo/effeithio ar ddiogelwch cymunedol
- Canfyddiadau o allu'r 'system' i weithio mewn ffordd gydweithredol i ymateb yn effeithlon ac yn gyflym
- Sut mae'r cyd-destun ehangach, o ran polisi, gofal cymdeithasol a dylanwadau ehangach yn effeithio/dylanwadu ar y materion hyn

Cafodd data eilaidd hefyd eu cynnwys i archwilio'r mesurau llwyddiant a ddiffiniwyd gan yr Uned Atal Trais a phennu effaith. Roedd hyn yn cynnwys data monitro a gasglwyd y rheolaidd a ddarparwyd i'r Uned Atal Trais, a data ychwanegol a gasglwyd o fewn gwasanaethau i ddangos effaith. Mae'r ymgysylltiad â phobl ifanc a'r data ychwanegol ar effaith wedi cyfrannu at yr astudiaethau achos o ymyriadau.

2.4 Dadansoddi rhwydwaith

Cynhaliwyd gweithdy i randdeiliaid ar ddiwedd y gwerthusiad gan ddod â rhanddeiliaid allweddol (n=20) o bob rhan o system atal trais Abertawe ynghyd i rannu'r canfyddiadau a'r argymhellion gwerthuso drafft. Roedd y gweithdy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith y darparwyr ymyriadau/gwasanaethau yn bennaf. Galluogodd hyn y rhanddeiliaid i gyd-drafod y canfyddiadau ar draws y 'system', archwilio meysydd o arfer da, deall sut a ble y caiff materion a nodwyd eu profi ym mhob rhan o'r rhwydwaith, ac ystyried camau i'w hymgorffori i oresgyn rhwystrau a heriau.

Cyflwynwyd y canfyddiadau allweddol hefyd i'r panel CMET strategol. Roedd hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o'r system atal trais ehangach, gan gynnwys rhanddeiliaid o'r awdurdod lleol, a'r sectorau iechyd, addysg a chyfiawnder troseddol. Rhoddodd y panel y cyfle i'r aelodau gael adborth a llywio'r argymhellion ymhellach ar y cyd.

2.5 Amserlenni

Cynhaliwyd casglu data rhwng Ionawr 2022 a Hyfred 2022. Roedd adroddiadau chwarterol yn cynnwys Ebrill 2021 hyd at fis Mawrth 2024.

3. Canfyddiadau⁴

3.1 Profiadau rhanddeiliaid o waith amlasiantaethol ar draws y system

Dull cydweithredol

Yn ystod y cyfweiliadau gwerthuso, holwyd y rhanddeiliaid am nodau eu hymyriadau unigol a sut roeddent yn meddwl bod eu gwaith yn rhan o'r cyd-destun atal trais ehangach ledled Abertawe. Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno bod gweledigaeth glir a rennir o ddefnyddio dull iechyd y cyhoedd o atal trais ym mhob rhan o'r Uned Atal Trais a'r sefydliadau. Ystyriwyd ei bod yn hanfodol cael y bobl gywir allan yno yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd a all ymgysylltu â phobl ifanc.

“Gallem ddweud mai ein datganiad cenhadaeth yw bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn cael yr amser a'r cyfleoedd i fyw bywydau ystyrlon. Ystyr hynny yw rhoi sgiliau iddynt. Rydym yn credu bod addysg yn hanfodol er mwyn sicrhau bod unrhyw berson ifanc yn symud yn gadarnhaol drwy fywyd” (Rh9)

“Rydym i gyd yno gyda'r un ffocws hwn” (Rh4)

Roedd y rhanddeiliaid a oedd yn rhan o'r broses o ddarparu ymyriadau ledled Abertawe yn cytuno bod cyllid yr Uned Atal Trais yn dod â gwasanaethau ynghyd i weithio mewn partneriaeth. Ystyriwyd bod gwaith amlasiantaethol a denu partneriaid ledled Abertawe yn allweddol i hwyluso dull cydweithredol o atal a mynd i'r afael â thrais. At hynny, credwyd bod yr Uned Atal Trais yn ffordd o ddwyn partneriaid lleol ynghyd i ddatblygu rhwydweithiau a chydberthnasau. Nodwyd bod hyn yn allweddol i ddatblygu ffyrdd o helpu i nodi pobl ifanc sy'n wynebu risg, eu cyfeirio at gymorth priodol a'u symud ar draws y system gymorth. Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno bod dull cydweithredol o'r fath yn angenrheidiol gan ei fod yn hwyluso effaith a newid cadarnhaol ar draws y system ehangach yn fwy effeithiol.

Cydweithio â'r Uned Atal Trais

Roedd rhanddeiliaid yn credu bod yr Uned Atal Trais yn cynnwys amrywiaeth dda o bartneriaid allweddol, a oedd yn hwyluso mynediad a chymorth i wasanaethau sefydlu arferion gwaith ar y cyd. Roedd yr holl ddarparwyr gwasanaeth yn bodoli cyn iddynt weithio gyda'r Uned Atal Trais, fodd bynnag, buddsoddodd cyllid gan yr Uned Atal Trais adnoddau ychwanegol i mewn i'r gwasanaethau, gan eu galluogi i adeiladu ar eu capasiti a chyflwyno ymyriadau ychwanegol i sicrhau mwy o gyrhaeddiad ledled Abertawe. Ystyriwyd bod yr Uned Atal Trais yn cefnogi sefydliadau i ddod ynghyd ar sail fwy ffurfiol, drwy weithgareddau a gomisiynwyd ar y cyd. Roedd dwy enghraifft yn cynnwys Cyfleoedd Dysgu Digymell yn nalfeydd yr heddlu a'r Tîm Atal Trais yn yr ysbyty, sydd bellach wedi sefydlu llwybr partneriaeth ac ymyriadau gyda Media Academy Cymru (MAC). Ystyriwyd bod y gydberthynas rhwng gwasanaethau a'r Uned Atal Trais yn gadarnhaol o ran cyfathrebu a chydweithio. Nododd rhanddeiliaid fod gan yr Uned Atal Trais ddull hyblyg, sy'n ei galluogi i gydweithio â darparwyr gwasanaethau i ddeall eu hanghenion er mwyn cefnogi'r ymyriadau yn y ffordd orau posibl yn y dyfodol. Dywedodd un rhanddeiliad ei fod yn credu bod yr Uned Atal Trais yn fwy nag elfen ariannu, a'i bod yn hanfodol i annog partneriaid i gymryd cyfrifoldeb. Dywedodd y rhanddeiliad hwn fod yr Uned Atal Trais yn hanfodol i weithio mewn partneriaeth. Nododd rhanddeiliad arall fod y ffaith bod yr Uned Atal Trais yn cymeradwyo ei wasanaethau yn rhoi credadwyedd i'w waith, yn enwedig o ran cyflwyno ymyriadau mewn ardaloedd eraill o Gymru.

⁴ Allwedd y dyfyniadau: Rh= Rhanddeiliad, PI= Person Ifanc, Adroddiadau Chwarterol= data ansoddol o adroddiadau monitro chwarterol yr Uned Atal Trais

“Roedd yn hyfryd bod yr Uned Atal Trais wedi gofyn beth oedd ei angen... ac rydym yn gweithio gydag oddeutu 6,500 o blant bob blwyddyn. Felly mae cael rhywun yn holi beth mae'r plant yn ei ddweud a beth sydd ei angen yn beth prin mewn gwirionedd. Fel arfer mae pobl, yn enwedig awdurdodau lleol, yn dweud wrthyhych beth maen nhw'n meddwl sydd ei angen. Ond daeth yr Uned Atal Trais â dalen lân gan ofyn beth rydyn ni'n ei wneud. Pam y mae angen hynny? Pa dystiolaeth sydd gennych chi bod angen hynny?” (Rh9)

“Mae'r Unedau Atal Trais yn ddynamig iawn o ran risgiau ac o ran rhoi newid amgylcheddol ar waith ac o ran addasu'r hyn y gallai'r gwasanaeth fod yn dibynnu ar yr anghenion. Maen nhw'n flaengar iawn yn hynny o beth” (Rh9)

Esboniodd y gwasanaethau bod ganddynt dulliau cyfathrebu da â'r Uned Atal Trais a'u bod mewn cyswllt rheolaidd drwy gyfarfodydd ffurfiol ac y gallent hefyd gwrrdd a chael trafodaethau y tu allan i gyfarfodydd. Ystyriwyd bod gan yr Uned Atal Trais rôl bwysig yn y CMET, gan gynnig mewnwelediad a chudd-wybodaeth allweddol ac ystyried adborth a gwybodaeth gan bartneriaid. Er bod gwasanaethau mewn cysylltiad da â'r Uned Atal Trais yn strategol, ystyriwyd y byddai gweithwyr achos llinell flaen yn cael budd o gyswllt mwy uniongyrchol, yn enwedig o ran cael adborth am y gwaith roeddent yn ei wneud. Awgrymwyd hefyd y gallai'r Uned Atal Trais wneud mwy i helpu i hwyluso ymgysylltiad â phartneriaid, er enghraifft, ymgymryd â gwaith i annog mwy o ysgolion ledled Abertawe i gymryd rhan.

Llwybrau a chyfathrebu

Roedd gan y partneriaid ymwybyddiaeth dda o wasanaethau eraill a ariennir gan yr Uned Atal Trais a gwasanaethau cymorth ehangach ledled Abertawe. Fodd bynnag, roedd rhai awgrymiadau ar gyfer gwella, a nodir yn adran 3.2. Rhoddwyd enghreifftiau o arferion da ar gyfer y llwybrau ffurfiol a ddatblygwyd rhwng gwasanaethau, gweithio ar draws sefydliadau a sefydliadau'n dod ynghyd ar gyfer y panel Cyd-destunol, Coll, Wedi'u Hecsbloetio a'u Masnachu (CMET).

“Rydym yn cydweithio'n dda iawn. Gall gwaith amlasiantaethol ac amlbroffesiynol fod yn heriol ar adegau, ond rwy'n credu mai dyma'r ffordd fwyaf cadarnhaol i weithio am eich bod yn cael safbwyntiau pawb, [gall] pawb herio neu anghytuno pan fydd angen a cheir y canlyniad gorau i bawb” (Rh12)

Dywedodd y partneriaid fod Media Academy Cymru (MAC) yn rhan o nifer o ymyriadau eraill a ariennir gan yr Uned Atal Trais, gan gynnwys fel prif gyflenwr Rhaglen Braver Choices, ac fel asiantaeth bartner ar gyfer ymyriadau Cyfleoedd Dysgu Digymell yn Nalfeydd yr Heddlu ac ymyriadau mewn ysbytai Tîm Atal Trais y GIG. Roedd gweithio fel asiantaeth bartner ochr yn ochr â dalfeydd yr heddlu a Thîm Atal Trais y GIG nid yn unig yn rhoi llwybr ffurfiol i staff MAC ymgysylltu â phobl ifanc mewn lleoliadau gwahanol, ond hefyd yn galluogi MAC i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu manteisio ar y cymorth parhaus sydd ar gael yn y gymuned a'r cymorth ehangach sydd ar gael yn MAC.

“Roeddem am gyrraedd y pwynt hwn o gydweithio, er enghraifft, gyda'r ymyriadau dalfeydd yr heddlu yn dod i Abertawe nawr, rydym yn gweld unigolion yn cael eu hatgyfeirio at MAC a Braver Choices a St Giles. Felly rwy'n credu bod hyn yn mynd yn haws... Gwelwyd gwelliannau yn y flwyddyn ariannol hon yn sicr” (Rh18)

Mae sefydliadau cymunedol gan gynnwys MAC, St Giles a Fearless yn cydweithio ac maent yn gysylltiedig â phartneriaid cymunedol eraill a'r sector gwirfoddol, gan gynnwys gwasanaeth camddefnyddio sylweddau Barod, i ymgysylltu â'r gymuned. Mae gwasanaethau sy'n rhan o wasanaethau statudol, fel Tîm Atal Trais y GIG hefyd wedi dechrau meithrin cydberthnasau â sefydliadau cymunedol. Nododd un rhanddeiliad y gellid meithrin cysylltiadau gwell â St Giles er mwyn

sicrhau nad yw pobl ifanc sy'n wynebu risg uchel yn syrthio drwy unrhyw fylchau o ran y cymorth a ddarperir.

"Felly, y farn oedd y byddai St Giles yn llenwi'r bwlch ar gyfer pobl ifanc sydd wedi bod yn rhan o droseddau cyfundrefnol ac achosion o drais difrifol, yr achosion risg uwch hynny. Ond mae adroddiadau'n awgrymu eu bod yn gweithio gyda nifer bach iawn o bobl ifanc. Rwy'n deall ei fod yn waith achos dwys...mae ganddynt feini prawf llym ac rwyf wedi clywed gan bartneriaid nad ydynt bob amser yn hyblyg iawn... Ond mae wedi bod yn anodd dangos tystiolaeth o'r angen. Mae'n ymwneud â gweld sut mae hynny'n cyd-fynd â'r gwasanaethau eraill" (Rh18)

Er nad yw'n cael ei ariannu'n uniongyrchol gan yr Uned Atal Trais, mae Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru yn darparu addysg a hyfforddiant allweddol i bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol, ynghyd â Crimestoppers, drwy ei raglen Fearless. Mae MAC a St Giles hefyd yn darparu hyfforddiant pan fo angen. Er y credwyd bod hyn yn cyfrannu at addysg gref ledled Abertawe, roedd pryderon y gallai gwaith gael ei ddyblygu ar adegau.

"Rwy'n meddwl bod Abertawe mewn sefyllfa gryfach o lawer nag ardaloedd eraill o safbwynt partneriaeth a'r cysylltiad â gwasanaethau cymunedol" (Rh18)

Er bod Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru a Fearless yn gweithio mewn lleoliadau ysgol i addysgu, codi ymwybyddiaeth, chwalu mythau a chefnogi pobl ifanc i roi gwybod am droseddau ac achosion o drais, nid ydynt yn cydweithio. Y rheswm dros yw hyn yw'r ffaith nad yw rhaglen Fearless am gael ei chysylltu â'r heddlu, er mwyn annog pobl ifanc (sy'n ofni rhoi gwybod i'r heddlu am droseddau ac yn wynebu rhwystrau i wneud hynny) i ymgysylltu â'u rhaglen Fearless. Nodwyd rhwystrau sylweddol i ymgysylltu ag ysgolion ledled Abertawe, yn enwedig yn ystod pandemig COVID-19 ac ar ôl hynny.

Mae tystiolaeth o'r astudiaethau achos o ymyriadau unigol yn dangos bod y rhaglenni a ariennir gan yr Uned Atal Trais yn cysylltu'n agos â gwasanaethau statudol eraill ledled Abertawe. Rhoddodd darparwyr ymyriadau hefyd enghreifftiau o'r ffordd roeddent yn gweithio ar draws ac ochr yn ochr â phroffesiynau a sectorau allweddol eraill. Roedd hyn yn cynnwys addysg i gefnogi pobl ifanc i barhau mewn addysg neu i ddychwelyd i'r ysgol ar ôl cyfnod o ymddieithrio, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ar gyfer cwnsela a chymorth iechyd meddwl, a Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid i bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Gweithiodd darparwyr hefyd gyda thimau o bob cwr o'r Awdurdod Lleol gan gynnwys timau diogelu a help cynnar, a Gwasanaethau Plant.

"Dweud wrthynt am fannau diogel yn yr ardal fel bod y bobl ifanc yn meithrin cydberthnasau y gallant ymddiried ynddynt, ac mae'r staff yn yr ardal yn gwybod beth sy'n digwydd. Mae'r Heddlu a phobl sy'n ceisio cadw'r lle yn ddiogel, yn gwybod y gallant alw arnom i gael y sgysiau hyn â'r bobl ifanc fel ein bod yn gweld buddiannau. Yna atgyfeiriadau i wasanaethau ataliol a gwasanaethau eraill" (Rh3)

"Rwy'n credu bod y strwythur a sefydlwyd gan dîm diogelu Cyd-destunol yr awdurdod lleol wedi cefnogi'r gwaith cydweithredu hwnnw" (Rh18)

Ystyriwyd bod y tîm diogelu cyd-destunol yn allweddol wrth gefnogi gwaith cydweithredol, yn enwedig o ran cynnwys y sector gwirfoddol yn y broses. Nodwyd hyn fel enghraifft o arfer gorau a gwersi i'w dysgu ar gyfer meysydd eraill.

"Y dull hwnnw sy'n canolbwyntio ar ddatrysiad...rwy'n meddwl bod yr awdurdod lleol wedi creu cysylltiadau gwell â'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Maent yn ystyried eu bod yn rhan allweddol o'r ateb sy'n gwneud cymaint o wahaniaeth yn y dull gweithredu a nifer y partneriaid sy'n cymryd rhan yn fy marn i. Y gydberthynas honno â'r gwasanaethau

gwirfoddol, oherwydd maent yn gwneud gwaith gwych, ond oni bai ei fod yn gydgysylltiedig, ac rwy'n gwybod am y rhwystrau sy'n gysylltiedig â gwaith statudol a gwirfoddol. Rydym wedi llwyddo i oresgyn llawer o hynny yn Abertawe. Mae'n sicr yn ymddangos fel petaent yn rhan o'r ateb o ran datblygu'r dull hwnnw yn hytrach na dweud dyma rydym yn ei ddatblygu. Mae angen i chi fod yn rhan ohono." (Rh18)

Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno bod Heddlu De Cymru yn bartner allweddol a oedd yn gysylltiedig ar draws y gwasanaethau a ddarperir drwy ymyriadau Cyfleoedd Dysgu Digymell yn Nalfeydd yr Heddlu, Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru (WPSP) Ymgyrch GRIP ac Ymgyrch Sceptre. Gwnaethant hefyd chwarae rôl allweddol yn y panel CMET a gweithio gyda'r gwasanaethau yn y gymuned, gan gynnwys MAC, St Giles a Fearless, i gefnogi pobl ifanc i roi gwybod am droseddau. Caiff timau plismona eraill eu cynnwys hefyd, gan gynnwys yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, yn enwedig wrth weithio gydag achosion o gamfanteisio'n droseddol ar blant a llinellau cyffuriau, yn ogystal â thimau plismona yn y gymdogaeth i ymgysylltu â'r gymuned a hyrwyddo teimladau o ddiogelwch a chydlyniant cymunedol. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig o ran peidio â throseddoli pobl ifanc a defnyddio ymateb amlasiantaethol i atal a lleihau achosion o drais ymysg plant a phobl ifanc. Nodwyd hefyd fod cysylltiadau â thimau plismona lleol wedi gwella ers sefydlu'r panel CMET (trafodir isod). Rhoddwyd enghreifftiau o Heddlu De Cymru a'r Gwasanaethau Plant yn cydweithio ar gyfer ymweliadau ar y cyd i ddiogelu plant.

"Yr unig ffordd y gallwn fynd i'r afael ag unrhyw fath o drosedd yn briodol yw drwy gael dull cydgysylltiedig a sicrhau bod pawb yn cydweithio. Nid oes pwynt i'r heddlu arestio pobl a'u dwyn gerbron y llysoedd. Mae angen ystyried y broses adsefydlu er mwyn eu hatal rhag cael eu cynnwys yn y system eto yn y carchar. Yna mae angen ystyried y sefyllfa cyn hynny, ar y tîm ehangach sy'n gwneud gwaith ataliol i atal pobl rhag cael eu cynnwys yn y system yn y lle cyntaf. Y dull cydgysylltiedig hwnnw sy'n bwysig" (Rh14)

"... mae angen cydweithio oherwydd allen ni ddim gwneud ein gwaith heb yr heddlu, ac allai'r heddlu ddim gwneud ei waith hebddon ni. Mae angen cysylltu pawb i sicrhau'r sefyllfa orau i'r claf. A dyna rydyn ni am ei gael ar ddiwedd y dydd" (Rh5)

Roedd y rhanddeiliaid yn credu bod y cysylltiadau hyn rhwng gwasanaethau yn hyrwyddo prosesau gweithio ar y cyd ac yn gwella cyfeiriadau ac atgyfeiriadau at gymorth priodol i ddiwallu anghenion pobl ifanc. Gwnaethant gytuno bod gan wasanaethau a gweithwyr proffesiynol fwy o ymwybyddiaeth o'r rhwystrau a wynebier gan bobl ifanc, a'r materion cymhleth y gallent fod wedi'u profi, a bod ganddynt ddealltwriaeth well o'r gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi pobl ifanc. Rhoddwyd enghreifftiau o Dîm Atal Trais y GIG, Cyfleoedd Dysgu Digymell a Fearless yn cyfeirio at St Giles am gymorth ar gyfer llinellau cyffuriau a chamfanteisio, a MAC ar gyfer addysg a chymorth ar droseddau cyllyll.

"Mae'n rhaid i ni wneud rhywbeth. Dyna pam y mae'n rhaid i ni gael y dull cydgysylltiedig hwn a pham y bydd gennym gymdeithas gynyddol dreisgar fel arall yn y pen draw" (Rh15)

"Rwy'n meddwl bod yn rhaid iddo fod yn rhan o ddull sy'n ymwneud llawer mwy ag effaith gynaliadwy na gweithio mewn seilos. Mae'n ddull systemau" (Rh18)

Awgrymodd un rhanddeiliad y byddai'n ddefnyddiol cael gofod, neu ganolfan i gydleoli gwasanaethau er mwyn hyrwyddo gweithio cydgysylltiedig ymhellach. Cododd rhanddeiliaid eraill bwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau a'r Uned Atal Trais yn rhannu'r un iaith ac yn defnyddio'r un dull 'cyfathrebu' er mwyn rhannu negeseuon cyson wrth weithio mewn partneriaeth yn y gymuned.

"...Mae angen i ni gytuno ar sail amlasiantaethol o ran y negeseuon rydym am eu rhannu. Felly mae disgwyl i'r heddlu gyflawni llawer o'r pethau hyn ond mae angen i ni rannu negeseuon ar y cyd hefyd. Mae angen i ni rannu'r negeseuon cywir. Beth rydym yn ceisio ei ddweud? A ydym yn gwneud hynny'n iawn, oherwydd dyw ei droseddoli a bygwth pobl gydag agweddau troseddol ar bethau ddim yn atal risg" (Rh4)

Rôl CMET o ran gwaith amlasiantaethol

Grŵp amlasiantaethol yw'r Panel Cyd-destunol, Coll, Wedi'u Hechsbloetio a'u Masnachu (CMET), sy'n cwrdd bob pythefnos i ystyried cyd-destunau, themâu a thueddiadau mewn perthynas â chamfanteisio (yn hytrach nag achosion unigol) gan bartneriaid (gan gynnwys Heddlu De Cymru, Diogelwch Cymunedol, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid a sefydliadau yn y trydydd sector). Mae'r panel hefyd yn darparu gwasanaethau cymorth arbenigol mewn perthynas â bregusrwydd fel camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, digartrefedd a thrais, neu'n hwyluso mynediad i hynny. Mae hefyd yn canolbwyntio ar leoliadau problemus a nodwyd ledled Abertawe ac ymysg grwpiau cymheiriaid, gan ddarparu gweithgarwch allgymorth wedi'i dargedu. Mae panel CMET yn cael ei redeg yn annibynnol ar yr Uned Atal Trais.

Ym mhob cyfweiliad, cytunodd y rhanddeiliaid fod y broses o ddatblygu'r panel CMET gan Gyngor Abertawe yn allweddol i'r dull cydweithredol ledled Abertawe. Nodwyd bod y cysylltiad agos rhwng yr Uned Atal Trais a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau â CMET yn enghraifft o arfer gorau o ran mynd i'r afael â thrais a gwneud cymunedau'n ddiogel.

"Rwy'n credu y gallent fod wedi bod ar wahân braidd yn hanesyddol, ond eleni, rwy'n credu bod mwy o gyfathrebu cyson wedi bod rhwng yr ymyriadau gan ystyried yr hyn sydd fwyaf addas i gefnogi unigolion. Felly mae'r panel CMET wedi helpu'n fawr yn hyn o beth am fod pob un o'r darparwyr ymyriadau yn aelodau o'r panel CMET hwnnw. Maent yn gwybod am rai o'r materion lleol, lleoliadau, grwpiau cymheiriaid, ysgolion ac ati, ac maent wedi cymryd y dull cydweithredol hwnnw wedi'i dargedu ar gyfer eu darpariaeth, nad yw wedi bod cymaint â'r blynyddoedd blaenorol, a dyma'r pwynt roeddem am ei gyrraedd" (Rh18)

Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno bod proses CMET wedi dod â phartneriaid gweithredol a strategol allweddol ynghyd. Ystyriwyd bod gan y panel CMET gynrychiolaeth dda, gyda'r aelodau'n cynnwys partneriaid o nifer o sectorau allweddol, gan gynnwys cyfiawnder troseddol, iechyd, addysg, awdurdod lleol, gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol. Roedd partneriaid allweddol o ymyriadau a ariennir gan yr Uned Atal Trais hefyd yn mynychu cyfarfodydd y panel CMET, gan gynnwys Heddlu De Cymru, Tîm Atal Trais y GIG, MAC, St Giles a Fearless. Er bod Fearless wedi nodi nad oedd bob amser yn bosibl i weithwyr ieuencid fod yn bresennol oherwydd capasiti, esboniodd y rhanddeiliaid fod lefelau cyfranogiad strategol a gweithredol da ar draws y bartneriaeth ynghyd ag ymrwymiad gan y sectorau. Fodd bynnag, teimlwyd yn weithredol y gellid cael mwy o gynrychiolaeth o'r sector addysg ar adegau. Roedd un rhanddeiliad hefyd o'r farn y gellid cael cysylltiadau gwell ag iechyd y cyhoedd ym mhroses CMET. Ystyriwyd bod gweithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau yn bwysig er mwyn hwyluso sgysiau a rhannu gwybodaeth y tu allan i gyfarfodydd, sy'n golygu y gallai adnoddau gael eu cyfeirio lle roedd eu hangen. Ystyriwyd bod dod â'r partneriaid hyn ynghyd yn gyfle i drafod yn rhagweithiol, rhannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth am risg, gwneud penderfyniadau ar y cyd, a rhoi strategaethau ar waith ar unwaith i leihau risg. Ystyriwyd hefyd ei fod yn ffordd o ddod ynghyd i fapio'r ffordd ymlaen orau a rhoi'r cynnig cymorth mwyaf priodol ar waith ar gyfer anghenion person ifanc. Roedd hefyd yn golygu y gellid dysgu o'r bylchau, a rhoi mesurau ar waith i fynd i'r afael â'r bylchau hynny. Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno na ellid targedu ymyriadau i atal trais ar wahân, a bod angen yr ymrwymiad hwn i feithrin cydberthnasau.

Er bod cudd-wybodaeth yn cael ei rhannu yn y panel CMET i ddatblygu ymateb amlasiantaethol, cydnabuwyd nad oedd CMET yn wasanaeth sy'n casglu gwybodaeth ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae CMET yn edrych ar ardaloedd problemus a thueddiadau i ganolbwyntio adnoddau, gan awgrymu y gallai ehangu i gynnwys allbwn ar gyfer casglu cudd-wybodaeth. Nododd un rhanddeiliad, er bod swyddogaeth CMET yn golygu y gellir cydlynu a chyfarwyddo gwaith diogelu cyd-destunol, y gallai cymorth gweithredol ychwanegol hwyluso hyn ymhellach. Cododd y rhai a oedd yn bresennol yn y gweithdai bwysigrwydd gwaith parhaus i ddeall yn well y broses ehangach o gamfanteisio ar blant gan oedolion a sut y gellid mynd i'r afael â hynny.

"Oedolion sydd am barhau i gamfanteisio ar blant. Yr her ehangach honno sydd gennym o ran sut rydym yn mynd i'r afael â hynny, am fod llawer o gyfrifoldeb ar bobl ifanc i reoli eu hunain... rwy'n credu mai'r hyn sydd ar goll yw oedolion a'r gymuned yn hynny o beth"
(Gweithdy)

3.2 Rhwystrau i gyflawni dull systemau cyfan effeithiol o atal trais yn Abertawe

Cyllid, adnoddau a chapasiti

Nodwyd rhwystrau'r gweithlu ar gyfer recriwtio staff yn yr ymyriadau a ariennir gan yr Uned Atal Trais. Nodwyd hyn ar gyfer Tîm Atal Trais y GIG a MAC, gan olygu bod gwasanaethau'n gweithredu ar gapasiti is ar adegau. Codwyd natur fyrdymor cyllid, gan gynnwys gan yr Uned Atal Trais, ac yn gyffredinol o ran trefniadau comisiynu ehangach, fel rhwystr sylweddol i wasanaethau. Nodwyd bod Fearless wedi colli sawl gweithiwr ieuencid oherwydd y diffyg sefydlogrwydd sy'n gysylltiedig â chyllid byrdymor. Esboniodd eraill, drwy broses adnewyddu cyllid flynyddol, ei bod yn anodd recriwtio a chyflogi staff o fewn yr amserlen gyflawni, ac yna gynnal staff yr oedd angen iddynt chwilio am waith rywle arall tuag at ddiwedd eu contract wrth aros a fyddai'r gwasanaeth yn cael ei adnewyddu. Ystyriwyd hefyd bod hyn yn amharu ar gysondeb y cymorth i bobl ifanc.

"Pan fyddwch chi'n gorfod hysbysebu ac mae hynny'n cymryd amser. Os yw'r cyllid hwnnw gennyh chi, ond gallai gymryd ychydig fisoedd i gael rhywun yn y swydd. Ac erbyn hynny, dim ond naw mis sydd gennyh ar ôl" (Rh10)

Cafwyd trafodaeth hefyd am gefnogi gwasanaethau a chynaliadwyedd eu hymyriadau y tu hwnt i gyllid yr Uned Atal Trais. Cydnabu rhanddeiliaid, pan na fydd gan yr Uned Atal Trais y swyddogaeth hon mwyach, fod angen i wasanaethau fod mewn sefyllfa i weithredu hebddi. Nodwyd hyn o ran cynnal partneriaethau sefydledig, nid dibynnu ar gyllid yr Uned Atal Trais, a dod o hyd i ffyrdd cynaliadwy a ffynonellau cyllid eraill i gefnogi'r broses o gyflawni ymyriadau yn yr hirdymor. Teimlwyd bod angen sgwrs ynglŷn â pha mor ystyrion yw cyllid byrdymor er mwyn rhoi tystiolaeth briodol o effaith.

"Byddai'n llawer gwell gennyf weld buddsoddiad priodol dros gyfnod o dair i bum mlynedd, sy'n ymddangos fel cylchoedd gwell o lawer ar gyfer rheoli pethau oherwydd y bydd gennyh amser i sefydlu pethau a gweld beth sydd ei angen. Yna bydd gennyh gyfnod i'w brofi a'i werthuso cyn dweud mai dyna'r cyllid y bydd ei angen arnom yn y dyfodol" (Rh4)

Cafodd Cyfleoedd Dysgu Digymell a Thîm Atal Trais y GIG broblemau o ran capasiti yn ymwneud ag oriau gwaith. Er enghraifft, y ffaith na allai gweithwyr MAC gyrraedd pobl ifanc yn y ddalfa ac nad oedd nysys o Dîm Atal Trais y GIG ar gael yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys y tu allan i oriau gwaith 9am-5pm ac 8am-4pm. Yn y ddwy astudiaeth achos, nododd rhanddeiliaid, er eu bod yn gallu cysylltu â phobl ifanc yn y gymuned ar ôl iddynt adael y ddalfa a'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, fod hyn yn llai llwyddiannus, a'i bod bob amser yn fwy effeithiol cwrdd â'r person ifanc ar ddechrau'r achos. Roedd Tîm Atal Trais y GIG wedi treialu oriau gwaith gwahanol, gan gynnwys gweithio'n

hwyrach yn y dydd er mwyn bod ar gael ar ôl oriau ysgol, a bod ar gael yn ystod rowndiau wardiau ac yn hwyr gyda'r nos ar ôl amser cau'r tafarndai/clybiau. Mae Cyfleoedd Dysgu Digymell hefyd wedi newid ei fformat i wneud defnydd gwell o amser yn y ddalfa er mwyn sicrhau nad yw'r person ifanc yn cael ei gadw yn y ddalfa yn hirach sydd ei angen. Yn wreiddiol, byddai'r cyfweiliad cymell gyda MAC yn cael ei gynnal ar ôl y cyfweiliad ffurfiol â'r heddlu, ond newidiwyd hyn fel bod modd cynnal y cyfweiliad cymell ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, arweiniodd hyn at rwystrau ychwanegol am ei fod wedi newid mynediad MAC i system gyfrifiadurol yr heddlu ac wedi cynyddu'r risgiau o ddatgeliadau ynghylch y drosedd y tu allan i'r ymchwiliad.

Achosion posibl o ddyblygu'r gwasanaethau a ddarperir ar draws y system

Nododd rhanddeiliaid eu bod yn ofni y caiff gweithgareddau a chymorth a ddarperir gan y sefydliadau a ariennir drwy'r Uned Atal Trais eu dyblygu a'u hailadrodd. Codwyd hyn yn benodol ar gyfer MAC a St Giles, a oedd wedi meithrin cyberthynas i sicrhau bod y person ifanc yn cael ei atgyfeirio at y gwasanaeth perthnasol i ddiwallu ei anghenion yn y ffordd orau. Hefyd, roedd cael sawl gwasanaeth yn cynnig hyfforddiant yn arwain at risg bosibl o ddyblygu. Nodwyd hefyd fod angen i Dîm Atal Trais y GIG a Chyfleoedd Dysgu Digymell fod yn glir ynghylch sut roedd eu rolau'n wahanol i rolau tîm diogelu'r ysbyty a'r Gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol.

"Mae MAC wedi sefydlu cyfarfod dyrannu a gynhelir bob wythnos lle maen nhw'n edrych ar yr holl atgyfeiriadau sydd wedi dod i mewn i sicrhau eu bod nhw'n addas ar gyfer y gwasanaethau y cawsant eu hatgyfeirio atynt, ac mae hyn yn gadarnhaol iawn yn fy marn i am eu bod yn cyflawni gymaint. Roeddent am sicrhau mai nhw yw'r gwasanaeth cywir, ar gyfer y person ifanc hwnnw a'r cymorth cywir. Mae hyn yn gadarnhaol iawn yn fy marn i, a hyd yn oed wrth ystyried ai MAC neu St Giles neu wasanaeth arall yw'r mwyaf addas, maen nhw'n meddwl gan edrych tuag allan yn hytrach na chadw pethau'n fewnol, sy'n gadarnhaol iawn yn fy marn i" (Rh18)

Nodwyd hefyd fod ofn y byddai gwaith yn cael ei ddyblygu yn rhwystr o ran cyllid, gyda rhanddeiliaid yn cydnabod y gall cyllid byrdymor cyfyngedig roi pwysau ar wasanaethau, yn enwedig y sector gwirfoddol i gystadlu am gyllid. Cydnabuwyd y gall hyn olygu y bydd gwasanaethau'n dod yn amharod i rannu gwybodaeth am y gwasanaeth a gynigir ganddynt a dangosyddion perfformiad.

"Rwy'n meddwl weithiau eu bod yn mynd i'w cragen am nad ydynt am i bobl eraill ddod i mewn a chymryd yr hyn rydyn ni'n ei wneud. Rhag ofn i hynny leihau'r hyn rydyn ni'n ei wneud... ond yr unig ffordd y byddwn ni'n delio â throeddau treisgar ac unrhyw faith o droseddau yw drwy gydweithio â'n gilydd" (Rh14)

"Weithiau rwy'n meddwl bod y rhai sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol yn teimlo eu bod yn cystadlu am gyllid, ac rwy'n meddwl bod gan rai, nid pawb, elfen o fod am gadw pethau'n agos am nad ydynt am golli cyllid" (Rh18)

Nododd cyfranogwyr rwystr arall ynghylch dyblygu o ran ymgysylltu â gwasanaethau fel y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid, sy'n teimlo bod ganddynt yr arbenigedd yn fewnol ac nad oes angen cymorth arnynt gan wasanaethau allanol fel MAC. Nododd rhanddeiliaid fod hyn yn golygu y gall fod angen i wasanaethau 'werthu' budd eu hymyriadau er mwyn dangos i bartneriaid sut y gall yr hyn sydd ganddynt i'w gynnig fod o gymorth a gwella capasiti o fewn gwasanaethau. Tynnwyd sylw at hyn yn benodol ar gyfer Cyfleoedd Dysgu Digymell a Thîm Atal Trais y GIG wrth hyrwyddo eu hymyriadau, er mwyn dangos yr effaith bosibl ar gyfer y system ehangach. Fodd bynnag, nodwyd y gall mewnbwn ychwanegol i feithrin y cydberthnasau hyn helpu i ddangos sut y gall y gwasanaethau gydweithio ac ategu ei gilydd er mwyn darparu cymorth cofleidiol.

Rhwystrau o ran partneriaeth a chyfathrebu

Disgrifiodd rhanddeiliaid eu bod yn gweithio'n galed i feithrin cydberthnasau â gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau eraill ar draws y system gan hyrwyddo'r gwasanaethau a gynigir ganddynt, datblygu llwybrau atgyfeirio a bod yn barod i weithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, gwnaethant hefyd nodi bod diffyg dealltwriaeth o'r hyn roedd y gwasanaethau yn ei ddarparu yn aml o hyd. Ystyriwyd bod CMET yn cynnig ffordd bosibl o oresgyn hyn, oherwydd gall ddod â phartneriaeth ehangach ledled Abertawe ynghyd. Er bod y llwybrau ffurfiol rhwng gwasanaethau statudol a'r trydydd sector ar gyfer yr ymyriadau a ariennir gan yr Uned Atal Trais (er enghraifft Cyfleoedd Dysgu Digymell a Thîm Atal Trais y GIG yn gweithio gyda MAC), wedi gwella'r gwaith rhwng y sector statudol a'r sector gwirfoddol, teimlwyd o hyd fod problemau ehangach o ran y ffaith bod gwasanaethau statudol yn gweithio'n fewnol heb gysylltu cystal ag y dylent â darparwyr cymunedol.

"Gan ein bod yn sefydliad gwirfoddol, nid ydym yn gwybod a yw hynny'n mynd yn rhwystir lle bydd pobl yn awtomatig yn mynd at yr awdurdod lleol ac yn meddwl 'iawn, wel, mae gwasanaethau statudol yma'" (Rh1)

"Mae'n heriol. Rydych yn ceisio hyrwyddo'r gwaith cydweithredol newydd hwn ac yna mae pobl, sefydliadau ac unigolion yn dychwelyd i fod eisiau gweithio mewn seilos ac mae'n anodd iawn gwneud y math hwnnw o newid mewn diwydiant" (Rh18)

Ennyn diddordeb partneriaid yn yr ymyriadau

Disgrifiodd nifer o rhanddeiliaid anhawster wrth ennyn diddordeb gweithwyr proffesiynol yn yr ymyriadau roeddent yn gyfrifol am eu darparu. Er enghraifft, cafodd Cyfleoedd Dysgu Digymell anhawster wrth ennyn diddordeb rhingylliaid a swyddogion dalfeydd yr heddlu yn llawn yn yr ymyriadau. Ymysg y rhesymau canfyddedig dros hyn roedd nad oedd gan staff dalfeydd yr heddlu wybodaeth ddigon clir am ddiben yr ymyriad a sut roedd yn gweithio, a hefyd sut roedd yn wahanol i'r gwaith a wneir gan y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid. Roedd rhwystrau hefyd ynghylch y ffaith nad oedd dalfeydd yr heddlu yn amgylchedd addas i bobl ifanc, gan olygu bod swyddogion yn rhy brysur weithiau i gynnig yr ymyriad neu fod angen iddynt symud y person ifanc drwy broses y ddalfa yn gyflym. Roedd hyn yn golygu nad oedd y cyfweiliad cymell yn cael ei gynnal mor gynnar ag y gallai. Cydnabuwyd bod problemau gyda dalfeydd lle y byddai angen i ymyriadau gael eu cynnal yn broblem gyffredin ar draws heddluoedd, ac nad yw'n benodol i Abertawe yn unig. Aethpwyd i'r afael â'r problemau hyn drwy ddarparu gwybodaeth ac adnoddau ychwanegol i staff dalfeydd yr heddlu. Cydnabu un rhanddeiliad fod angen i staff dalfeydd yr heddlu deimlo eu bod yn rhan o'r broses, a gwnaeth argymhellion ynglŷn â'u cynnwys yn y broses o ddylunio a gweithredu'r ymyriad yn y dyfodol.

"Roedd rhai problemau yn hyn o beth, o ran eu bod yn anghofio gofyn iddynt neu nad oeddent yn gofyn iddynt" (Rh8)

Roedd Tîm Atal Trais y GIG hefyd yn wynebu problemau tebyg, gan gynnwys problemau o ran ymgysylltu â chydweithwyr yn amgylchedd prysur yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys mewn lle mae angen i'r staff ddelio ag achosion brys parhaus. Yn yr un modd â'r Cyfleoedd Dysgu Digymell, roedd staff yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn aml yn teimlo eu bod yn rhy brysur i ystyried ymyriadau Tîm Atal Trais y GIG. Roedd Tîm Atal Trais y GIG wedi bod yn gweithio'n galed i feithrin cydberthnasau â staff yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys i werthu budd yr ymyriadau a chael presenoldeb yn yr Adran Achosion Brys er mwyn symleiddio'r broses. Nodwyd hefyd broblemau o ran salwch staff ac adnoddau'n cael eu hailgyfeirio yn ystod pandemig COVID-19 a defnydd uchel o staff 'banc' dros dro, gan ei gwneud yn fwy anodd meithrin y cydberthnasau hyn a rhannu neges gyson. Wynebwyd problemau tebyg hefyd o ran yr ymyriadau addysg mewn ysgolion, gan gynnwys Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru (WSPS) a Fearless, lle roedd partneriaid yn teimlo ei bod hi'n anodd ennyn

diddordeb ysgolion ledled Abertawe. Nodwyd bod y rhwystr hwn yn broblem hirsefydlog a oedd wedi gwaethgu yn ystod pandemig COVID-19 ac wedi hynny. Roedd yr ymyriadau'n golygu bod angen i'r Uned Atal Trais sicrhau bod gwaith partneriaeth gwell yn y byd addysg a gwella cyfranogiad ysgolion.

Rhannu data a gwybodaeth rhwng gwasanaethau ar draws y system

Roedd y rhanddeiliaid hefyd o'r farn bod problem o ran rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid am fod protocolau a deddfwriaethau ynghylch rhannu gwybodaeth yn atal hynny. Nodwyd fod hon yn broblem hirsefydlog ac nad oedd yn benodol i Abertawe yn unig. Dywedodd rhanddeiliaid fod ofnau ynghylch rhannu data wedi cynyddu ers cyflwyno'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), gan nodi bod angen chwalu'r ofnau hyn a'r mythau posibl a all fod wedi arwain at rwystrau o ran rhannu data yn effeithiol. Nodwyd hefyd broblemau o ran mynediad oherwydd y defnydd o systemau TG gwahanol. At hynny, roedd Heddlu De Cymru hefyd yn gyfyngedig o ran yr hyn y gallai ei rannu. Nodwyd bod y model cydweithio yn gyfle da i bob darparwr gael gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd prosesau safonol o gasglu data, rhannu gwybodaeth a budd y gudd-wybodaeth hon a sut y gall hyn helpu'r dull partneriaeth ymhellach.

"Rwy'n meddwl bod yn rhaid cael rhywbeth yno o ran rhannu gwybodaeth, beth bynnag fo'r lefel. Gwneud yr holl broses ychydig yn fwy tryloyw" (Rh19)

"Cyfle i ddangos pwysigrwydd casglu data a'r hyn y gall y data ei wneud a'r hyn y gall y data ei ddangos. Os gallwn sefydlu data fel hyn ledled Cymru gyfan, dyma'r hyn y gallech ei wneud yn y diwedd" (Rh19)

"Rwy'n meddwl mai'r gwir rwystredigaeth ynghylch hynny yw mai dyma'r un rhywreg y bu pobl yn siarad amdano ers blynyddoedd, ond mae'n dal i fod yno. Rwy'n cofio cael sgwrsiau cyn yr Uned Atal Trais, cyn yr holl waith hwn ac nid yw'n teimlo fel bod y sgwrs am y ffaith bod gan bobl ofn wedi mynd yn haws. Rwy'n meddwl ei fod yn ymwneud mwy â'r camddealltwriaeth hwnnw ynghylch ystyr rhannu data" (Rh19)

Bylchau o ran darparu gwasanaethau

Cododd rhanddeiliaid gymorth iechyd meddwl fel bwch yn y gwasanaethau a ddarperir yn Abertawe. Gwnaethant nodi rhestrau aros hir ar gyfer CAMHS. Credwyd hefyd fod diffyg cyfranogiad gan y sector iechyd o ran iechyd meddwl. Nodwyd bylchau hefyd o ran y gwaith atal yn gynnar a chodi ymwybyddiaeth a wnaed yn flaenorol gan yr NSPCC, gan nad oedd hyn yn digwydd mwyach.

"Ceir lefelau cyfranogiad cymharol dda o'r adrannau iechyd yn Abertawe ond efallai y byddai'n werth edrych ar arbenigedd iechyd meddwl o ran iechyd. Rwy'n gwybod bod gwasanaethau cymorth iechyd meddwl a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Rwy'n meddwl efallai bod rhywfaint o fwch yno hefyd" (Rh18)

"Byddai'r NSPCC yn gwneud gwaith atal cynnar gyda phobl ifanc y nodwyd eu bod ar yr ymylon nad oeddent yn cyrraedd lefel St Giles ond nad oeddent yn cyrraedd lefel unrhyw le arall chwaith o reidrwydd. Ac mae ychydig o fwch o hyd o ran sut rydym yn rheoli hynny heb gael ymateb argyfwng" (Rh4)

"Rwy'n rhannu'r safbwyntiau ynglŷn â mewnbwn gwell a mewnbwn cryfach gan wasanaethau iechyd meddwl. Rwy'n meddwl bod hynny'n rhywbeth rydym yn cydnabod sydd ar goll, ond ar ôl gwneud gwaith, rydym wedi cael mewnbwn cryfach o lawer o'r byd addysg, ac mae'r cysylltiadau hynny wedi datblygu" (Gweithdy)

3.3 Dull sy'n ystyriol o drawma ar draws y system

Tynnodd canfyddiadau'r gwerthusiad sylw at anghenion cymhleth pobl ifanc sy'n wynebu risg o drais a oedd yn cymryd rhan yn y gweithgareddau a ariennir gan yr Uned Atal Trais. Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno bod sawl ffactor risg a all olygu bod rhai pobl ifanc yn fwy tebygol o droseddu. Roedd y ffactorau risg hyn yn cynnwys bregusrwydd a all hefyd olygu bod plant a phobl ifanc yn wynebu risg y bydd rhywun yn camfanteisio'n droseddol arnynt. Cydnabu'r rhanddeiliaid y gall y risgiau hyn fod yn gymhleth ac yn rhyng-gysylltiedig, gyda rhai pobl ifanc yn debygol o fod â sawl ffactor risg sy'n effeithio ar ei gilydd, neu a achosir gan ei gilydd. Nodwyd bod nifer o'r ffactorau risg hyn hefyd yn effeithiau uniongyrchol troseddau, gyda rhanddeiliaid yn tynnu sylw bod troseddau'n gwaethygu bregusrwydd a hefyd yn creu problemau cymhleth newydd ar gyfer pobl ifanc a allai effeithio arnynt yn yr hirdymor hyd at pan fyddant yn oedolion.

Roedd llawer o'r bobl ifanc wedi cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a thrawma cynnar, gan gynnwys plant yn tyfu i fyny mewn cartref â rhiant ag iechyd meddwl gwael, rhiant yn camddefnyddio alcohol neu gyffuriau neu'n ddibynnol arnynt, neu blant yn gweld cam-drin domestig yn y cartref. I rai roedd hyn, yn golygu bod diffyg ffiniau neu reolaeth gan rieni yn y cartref o ran nodi beth sy'n ymddygiad derbynol ac annerbynol, gan dynnu sylw at bwysigrwydd cefnogaeth gan y teulu cyfan. Rhoddwyd enghreifftiau hefyd o bobl ifanc yn wynebu eu heriau eu hunain o ran iechyd meddwl gwael, problemau o ran camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl a llesiant gwael, a hunan-barch isel. Nododd nifer o'r rhanddeiliaid hefyd y cysylltiad annatod rhwng cyffuriau a thrais, yn enwedig i'r bobl ifanc a gefnogir drwy St Giles y camfanteisiwyd arnynt yn droseddol ac a fu'n rhan o linellau cyffuriau.

"Faint o drawma mae pobl ifanc yn ei wynebu am ei fod yn dod mewn sawl ffurf wahanol. Os ydynt yn cael eu cynnwys mewn llinellau cyffuriau, dydyn ni ddim yn gwybod beth maent wedi'i weld ... a ydynt wedi gweld trais rhywiol? Trais corfforol? Cam-drin meddyliol? Mae hyn yn mynd yn ôl i feithrin cydberthynas â'r plentyn... rydym yn meithrin y gydberthynas honno oherwydd un o'r pethau olaf rydym am ei wneud yw agor unrhyw drawma sydd yno. Ond pan fydd y plentyn neu'r person ifanc yn cynhesu atoch, fel arfer bydd yn siarad am ei brofiadau ac yna gallwch weithio gydag ef a'i gefnogi" (Rh6)

Codwyd niwroamrywiaeth fel ffactor risg posibl ar gyfer bregusrwydd i gamfanteisio a risg bosibl o ddod yn rhan o achosion o drais a throseddau. Nododd y rhanddeiliaid eu bod yn gweithio gyda chyfran uchel o bobl ifanc sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd a'u bod wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl ifanc sydd wedi cael diagnosis o gyflyrau niwroamrywiaeth neu sy'n aros i gael diagnosis o'r fath, gan gynnwys Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd ac Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth. Rhannodd y rhanddeiliaid bryderon ynghylch y ffaith bod yn rhaid aros yn hir am ddiagnosis a'r risg gynyddol dros y cyfnod hwn. Nodwyd hyn fel rhwystr pellach i bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol, a all gael trafferth mewn lleoliad cyfweliad ac wrth gyfathrebu â gweithwyr proffesiynol.

"Oherwydd y cyfweliadau cymell yn nalfeydd yr heddlu, roedd yn amlwg bod nifer o bobl ifanc yn arddangos nodweddion niwroamrywiaeth. Arweiniodd hyn at Ymgyrch Erica, sef dull sgrinio a ddefnyddir bellach gyda phob person ifanc yn y ddalfa i'w helpu yn ystod ei gyfnod yn y ddalfa, gan helpu i nodi ffactorau ysgogi a thrafod dulliau ymdopi er mwyn ei atal rhag aildroseddu. Mae hyn wedi denu diddordeb gan 16 o heddluoedd eraill" (Gweithdy)

Effeithiwyd ar addysg llawer o'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y prosiectau cymunedol, gan gynnwys MAC a St Giles, naill ai fel ffactor risg neu fel un o effeithiau bod yn rhan o achosion o drais. Roedd hyn

yn cynnwys pobl ifanc nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), a oedd wedi colli cyfnodau o'r ysgol, presenoldeb a chyrhaeddiad gwael, a phroblemau ymddygiad yn yr ysgol. Codwyd hyn hefyd ar gyfer y sefydliadau sy'n gweithio gydag ysgolion, gan gynnwys tîm cyswllt ysgolion yr heddlu, i ddarparu addysg ataliol gyffredinol. Nodwyd bod ymddieithrio o addysg yn ffactor risg sylweddol ac yn arwydd bod pobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn troseddau a/neu gamfanteisio troseddol, neu'n un o symptomau hynny. Nid yn unig y dywedwyd bod ysgolion yn ffactor amddiffynnol sy'n cyflwyno trefn a strwythur i bobl ifanc, ond hefyd eu bod yn rhywle lle y gellir nodi plant sy'n wynebu risg, a rhoi mesurau ar waith i liniaru'r risgiau hynny. Nododd y rhanddeiliaid nid yn unig bwysigrwydd diogelu'r bobl ifanc hynny y mae eu problemau eisoes yn hysbys, neu'r rheini gellir gweld yn glir eu bod yn fregus neu'n wynebu risg, ond hefyd bob person ifanc sy'n dod i gysylltiad ag addysg, drwy ddefnyddio ymyriadau atal yn gynnar ac addysg cyffredinol. Nodwyd fod y cyfryngau cymdeithasol hefyd yn ffactor risg sylweddol ar gyfer camfanteisio, meithrin perthynas amhriodol ac annog trais, gyda'r rhanddeiliaid hefyd yn cydnabod bod ffilmio digwyddiadau treisgar a rhannu fideos o'r fath ymysg pobl ifanc yn broblem.

"...Mae llawer o'r hyn rydym wedi bod yn ei ddatblygu yn canolbwyntio ar ein hymateb ac ar ddad-droseddoli'r glasoed. Edrych ar lwybrau cefnogol, edrych ar ymyriadau cynnar, cymorth a help cynnar. Rwy'n ystyried creu llefydd a mannau diogel ar gyfer pobl ifanc. Felly sut ydym ni'n gwneud hynny? Sut ydym ni'n gweithio mewn cymunedau? Sut ydym ni'n gweithio gyda hynny fel gweithwyr proffesiynol, sut ydym ni'n gweithio gyda sectorau eraill i feysydd gwasanaeth eraill gyflawni ar hynny?" (Rh4)

Roedd y materion a'r rhwystrau cymhleth a wynebir gan bobl ifanc yn golygu bod angen teilwra'r ymyriadau i anghenion unigol pobl ifanc. Roedd rhai o'r materion hyn yn cynnwys diffyg ymddiriedaeth mewn gwasanaethau, yn enwedig ymhlith y rheini sydd wedi cael profiadau negyddol neu wedi cael eu siomi gan weithwyr proffesiynol. Nodwyd bod diffyg ymddiriedaeth yn yr heddlu a gwasanaethau gofal cymdeithasol. Cydnabu'r rhanddeiliaid nad oedd gan rai pobl ifanc ddiddordeb yn y cymorth a'r gwasanaethau a gynigir iddynt. Nododd y rhanddeiliaid hefyd y gall cymorth orlethu pobl ifanc, yn enwedig os byddant eisoes yn ymwneud â sawl gwasanaeth. Cydnabu'r rhanddeiliaid bwysigrwydd gwasanaethau'n cydweithio i symleiddio cymorth cofleidiol er mwyn sicrhau nad oedd yn rhaid i bobl ifanc ailadrodd eu stori i weithwyr proffesiynol gwahanol ac ail-fyw'r trawma. Roedd hyn yn galw am broses effeithiol o rannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau. Cydnabu'r rhanddeiliaid bwysigrwydd cael staff medrus a phrofiadol yn cyflwyno ymyriadau gan eu bod mewn sefyllfa well i ddarparu cymorth wedi'i deilwra mewn gofod diogel heb farnu ac i feithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â phobl ifanc. Cytunwyd hefyd fod angen i wasanaethau fod yn ystyriol o drawma ac yn fedrus wrth gefnogi anghenion llesiant pobl ifanc.

Tynnodd canfyddiadau'r gwerthusiad sylw at bwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth â phobl ifanc er mwyn chwalu rhwystrau a'u cefnogi i ymgysylltu ag ymyriadau atal trais. Cydnabuwyd y gall hyn gymryd sawl sesiwn dros rai wythnosau neu fisoedd hyd yn oed, a'i bod yn aml yn anodd rhoi tystiolaeth o'r gwaith hwn ac na chaiff tystiolaeth o'r fath bob amser ei chydnabod. Cydnabu'r rhanddeiliaid yr angen i feithrin ymddiriedaeth a rhoi gofod diogel wrth weithio gydag unigolion a all fod wedi profi trawma. Gall cynnwys y person ifanc yn y broses gymorth a sicrhau ei fod yn teimlo bod rhywun yn gwrandao arno ei rymuso a gwella ei ymgysylltiad. Mae'r ymyriadau atal yn canolbwyntio ar chwalu rhwystrau i geisio help a rhoi gwybod i'r heddlu am droseddau, drwy addysg i ddileu stigma a lleihau'r diwylliant cario straeon sy'n gysylltiedig â siarad â'r heddlu. Ystyriwyd bod y gymuned, gan gynnwys clybiau ieuenctid, hefyd yn ffordd o chwalu rhwystrau ymhellach a gwella cydberthnasau rhwng aelodau o'r gymuned a'r heddlu. Un o brif nodau'r ymyriadau oedd galluogi pobl ifanc i deimlo'n ddiogel yn eu cymuned ac yn rhan o'u cymuned.

Gwaethygodd pandemig COVID-19 a mesurau'r cyfnodau clo lawer o'r anghenion cymhleth i bobl ifanc, gan leihau ffactorau amddiffynnol a chynyddu lefelau bregusrwydd pobl ifanc. Roedd hyn yn cynnwys cyfnodau hir allan o'r ysgol, anawsterau wrth addysgu gartref, ynysigrwydd a methu â threulio amser gyda chyfoedion, mwy o risg o gam-drin domestig, iechyd meddwl gwael, camddefnyddio sylweddau yn y cartref ac effeithiau tymor hwy ar lesiant a sgiliau cymdeithasol. Nododd rhanddeiliaid fod ysgolion yn gweld mwy o ddigwyddiadau treisgar, yn enwedig yn cynnwys disgyblion benywaidd, a bod adroddiadau hefyd a nodwyd hefyd fod pobl ifanc yn ei chael hi'n anodd rheoli eu hemosiynau ac ymdopi mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod pobl yn dal i deimlo'r effeithiau hyn y tu hwnt i'r pandemig ac y byddant yn parhau i gael eu teimlo yn yr hirdymor.

Cydnabu'r rhanddeiliaid hefyd fod y pandemig wedi gwaethygu bregusrwydd mewn perthynas â chamfanteisio troseddol a chydabuwyd y newidiadau o ran camfanteisio drwy linellau cyffuriau, gyda mwy o fenywod ifanc bellach yn rhan o achosion o drais ymysg plant a phobl ifanc a llinellau cyffuriau. Cytunwyd bod angen dull hyblyg i ddiwallu anghenion dynameg newidiol camfanteisio ac effaith hyn ar anghenion pobl ifanc sy'n wynebu risg y bydd rhywun yn camfanteisio neu y mae rhywun wedi camfanteisio arnynt. Rhoddwyd un enghraifft o hyn gan St Giles a oedd wedi cyflogi gweithwyr achos benywaidd ychwanegol er mwyn ateb y galw am y gwasanaeth.

Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno ei bod yn bwysig bod gweithwyr proffesiynol edrych y tu hwnt i drais a throeddau ymysg plant a phobl ifanc a deall pa brofiadau a thrawma y gall person ifanc fod wedi'u cael, a sut y gall hyn fod wedi cyfrannu at yr ymddygiad hwnnw. Gwelwyd bod gwella gwybodaeth y gweithlu yn arbennig o bwysig wrth gydnabod trawma ac arwyddion rhybudd y gall person ifanc fod yn wynebu risg o ddod yn rhan o achosion o drais a throeddu, neu ei fod eisoes yn rhan o achosion o'r fath. Ystyriwyd bod dull sy'n ystyriol o drawma ac ymwybyddiaeth o ddiogelwch cyd-destunol yn arbennig o bwysig er mwyn i weithwyr proffesiynol allu gweld y darlun cyfan, gan edrych y tu hwnt i'r digwyddiad cychwynnol a cheisio archwilio a deall beth all fod wedi gwneud i'r person hwnnw ddod yn rhan ohono. Roedd y rhanddeiliaid hefyd yn cytuno ei bod yn bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn mabwysiadu'r safbwynt hwn wrth gydweithio â phobl ifanc y mae rhywun hefyd wedi camfanteisio arnynt.

"Efallai nad yw pobl yn deall effaith y trawma y gall pethau fel bod yn rhan o gang neu weld rhywun yn cael ei drywanu a'i frifo ei achosi. Rwy'n meddwl bod pobl yn diystyru trawma a sut y gall effeithio ar eich iechyd meddwl" (Rh3)

"Mae gennym blant bregus, ac mae'n siŵr y byddai'n ddefnyddiol iawn i ni ddeall mwy am yr hyn sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni" (Rh16)

Ystyriwyd bod CMET yn ffordd o gyfuno arbenigedd allweddol a rhannu'r hyn a ddysgwyd. Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno bod hyn yn hyrwyddo'r defnydd o ddull a oedd yn fwy ystyriol o drawma. Roedd yn sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol y gall person ifanc ddod ar eu traws yn fwy ymwybodol o'i sefyllfa ac yn fwy tebygol o edrych ar y darlun ehangach er mwyn deall y risg a'i ddiogelu'n briodol. Teimlwyd bod meithrin y cydberthnasau hyn a chynnwys mwy o weithwyr proffesiynol mewn sgysiau strategol a gweithredol wedi helpu i wella dull sy'n fwy ystyriol o drawma o atal trais yn Abertawe. Roedd hyn yn cynnwys newid diwylliannol yn null gweithredu gweithwyr proffesiynol a oedd yn dechrau archwilio *pam* y mae plentyn yn cario cylllell neu *beth* a wnaeth iddo wynebu achosion o gamfanteisio. Roedd yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddod ynghyd i rannu arbenigedd allweddol, gwneud y penderfyniad gorau ar gyfer y person ifanc a darparu'r cynnig mwyaf addas i ddiwallu ei anghenion. Roedd hyn yn arbennig o bwysig os oedd cydweithwyr sy'n arbenigo mewn trawma yn rhan o'r ymateb hwn, gan y gallent uwchsgilio'r gweithlu a oedd yn cael budd o ddysgu drwy ffyrdd eraill o weithio a fabwysiadwyd mewn rolau a sectorau gwahanol o weithio. Nodwyd bod y gwaith

diogelu cyd-destunol a wnaed yn Abertawe yn enghraifft o arfer gorau o ran bod y gweithlu yn fwy ystyriol o drawma ac roedd y rhanddeiliaid yn cytuno y byddai ardaloedd eraill yn cael budd o ddysgu gwersi gan Abertawe. Fodd bynnag, cydnabu'r rhanddeiliaid ei bod yn anodd dangos tystiolaeth o waith sy'n ystyriol o drawma.

"Mae gennym gydberthnasau yn ein timau plismona ardaloedd hefyd ac maent i gyd wedi datblygu ers i ni integreiddio panel CMET. I bwynt lle mae'r heddlu bellach yn dod atom ni eleni gan ddweud, rydym yn gwybod y bydd problemau ar y traeth yn dechrau fis nesaf. Beth y gallwn ei wneud? A allwn ddod ynghyd? Felly mae wir wedi meithrin y cydberthnasau hynny" (Rh3)

Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno bod y dull cydweithredol a'r llwybrau a sefydlwyd rhwng gwasanaethau allweddol ledled Abertawe wedi rhoi dealltwriaeth well o drawma i'r gwasanaethau statudol. Rhoddwyd enghreifftiau ar gyfer staff yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys a dalfeydd yr heddlu, nad oes ganddynt yr amser na'r wybodaeth i edrych y tu hwnt i'r broblem gychwynnol fel arfer efallai. Esboniodd y rhanddeiliaid mai'r brif rôl yn yr achosion hynny fyddai trin anaf, achub bywyd ac ymchwilio i drosedd, ac nid ystyried beth ddigwyddodd a pham roedd y person ifanc wedi troi at y gwasanaeth. Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno bod Cyfleoedd Dysgu Digymell a Thîm Atal Trais y GIG yn enghreifftiau da o ymyriadau ar adeg gritigol, drwy ymgysylltu â phobl ifanc ar bwynt argyfyngus lle y gallant fod yn fwy parod i siarad a lle mae gan weithwyr proffesiynol amser wedi'i neilltuo i weithio gyda'r person ifanc, ennyn ei ymddiriedaeth ac eirioli drosto. Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno bod angen i weithwyr proffesiynol wneud y mwyaf o'r cyfleoedd hyn a gwneud i bob cyswllt gyfrif. Gan gydweithio â sefydliadau cymunedol fel MAC a St Giles, roedd cymorth sy'n ystyriol o drawma arbenigol yn cael ei ddarparu yn y gymuned. Cydnabuwyd bod darparu ymyriadau ar bwynt argyfyngus yn hanfodol wrth sicrhau bod pobl ifanc yn ymgysylltu â chymorth, gan leihau niwed a thorri'r cylch o niwed mynych.

"Gan fy mod yn gweithio yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, roeddwn i'n edrych ar y broblem a oedd o'm blaen. Y sefyllfa yw bod coes neu fraich yn hongian i ffwrdd a bod y person hwnnw'n cael ataliad ar y galon, ac mae'n rhaid i mi ddelio â hynny. Dydyn ni ddim yn tueddu i feddwl am unrhyw beth arall, am fod angen gwneud hynny – mae'n sefyllfa argyfyngus ac mae'n rhaid i chi ddelio â'r sefyllfa argyfyngus honno. Felly mae angen cael pobl i ail-raglennu'r ffordd y maent yn meddwl am fod problemau cymdeithasol yn amlwg ac mae rheswm pam y mae'r person hwn wedi dod i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys... ac mae angen cael pobl i feddwl y tu allan i'r bocs rywfaint" (Rh5)

"Mae'n ymwneud â chael y llais hwnnw a themlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u clywed" (Rh1)

"Mae'n broses barhaus oherwydd pan fyddwch yn newid arfer, mae'n cymryd llawer o amser i'w groesawu" (Gweithdy)

3.4 Effaith ar draws y system

Effaith unigol

Ar draws yr ymyriadau a'r rhaglenni a ariennir gan yr Uned Atal Trais yn Abertawe, rhoddwyd tystiolaeth o nifer o ganlyniadau er mwyn i'r bobl ifanc ymgysylltu â'r ymyriadau. Arsylwyd ar newidiadau cadarnhaol mewn perthynas â gwybodaeth plant a phobl ifanc am faterion fel camddefnyddio sylweddau a chario arfau a'u hagweddau tuag at y rhain. Ystyriwyd bod y newidiadau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hymddygiad, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau hyddysg a chadw eu hunain yn ddiogel drwy beidio â chael eu hunain i helynt mwyach.

"Mae'n siŵr mai'r hyn sy'n allweddol yw eich bod yn newid eu ffordd o feddwl, sy'n dilyn ag ymddygiad rydych yn gyfarwydd ag ef, fel eu bod yn gwneud dewisiadau gwell. Dewisiadau sy'n eu cadw'n ddiogel yn y bôn... ac yn amlwg mewn perthynas â'r gyfraith, sy'n eu cadw allan o helynt o ran torri'r gyfraith yn y dyfodol" (Rh15)

"Wedi fy amddiffyn rhag perygl a'm haddysgu beth sy'n gywir a beth sy'n anghywir" (PI3)

"...maen nhw'n deall nad ydyn nhw'n fwy diogel yn cario cylllyll, ac maen nhw hefyd yn deall y gyfraith a goblygiadau posibl nad oeddent yn gwybod amdanynt o'r blaen... Gobeithio ein bod wedi rhoi'r gwrth-naratif i'w helpu i wneud dewisiadau gwell neu wahanol" (Rh9)

"Mae'n haws i mi ddweud wrth rywun fy mod am fynd adref neu nad wyf yn hoffi hyn ac y byddaf yn tynnu fy hun allan o'r sefyllfa. Mae'n haws i mi gydnabod risgiau mewn sefyllfaoedd. [O'r blaen] fyddwn i ddim wedi gallu gweld y sefyllfaoedd drwg neu mae'n siŵr y byddwn yn gallu gweld hynny ond na fyddwn yn lleisio fy marn ac felly'n cerdded i mewn i'r sefyllfa" (PI1)

Nododd y bobl ifanc sy'n ymgysylltu mewn cymorth cymunedol hefyd lefelau gwell o lesiant, cydnerthedd, hyder a chydberthnasau gwell â theulu, ffrindiau a gweithwyr proffesiynol. Teimlwyd bod meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth rhwng gweithwyr proffesiynol a phlant/pobl ifanc yn ganlyniad pwysig oherwydd ystyriwyd bod hyn wedi gwneud i bobl ifanc geisio help ac ymgysylltu mwy â gwasanaethau cymorth a gwasanaethau statudol (gan gynnwys rhoi gwybod i'r heddlu am droseddau). Esboniodd person ifanc o Braver Choices ei fod yn teimlo'n gyfforddus i gael sgwrs agored a gonest, a chydabu bod y gydberthynas oedd ganddo â'i weithiwr wedi gwneud gwahaniaeth o ran y ffordd roedd yn ymgysylltu â'r gwasanaeth. Drwy'r gwaith ymgysylltu hwn a'r lleoedd a'r manau sydd ar gael i blant a phobl ifanc, teimlwyd bod cynnydd wedi bod yng ngweledd plant a phobl ifanc a theimladau o ddiogelwch (ymysg plant a phobl ifanc a'r gymuned ehangach).

"Rwy'n teimlo y gallaf siarad am fy nheimpladau, heb fod angen mynd i fanylder am bopeth, rwy'n gallu dweud sut rwyf yn teimlo, a dysgu am y pethau sy'n digwydd o'm cwmpas. Rwyf wedi dysgu am bethau nad oeddwn i'n gwybod sy'n digwydd o'm cwmpas" (PI1)

"Rwyf hefyd yn gwybod y byddan nhw yno ar yr un pryd bob dydd lau, sy'n helpu hefyd. Rwy'n hoffi'r drefn, mae'n rhoi rhywbeth i mi ei wneud ac rwyf hefyd yn gwybod os byddaf yn poeni am rywbeth y diwrnod hwnnw neu ddiwrnod arall ymlaen llaw, y gallaf siarad â nhw amdano" (PI1)

Ochr yn ochr â hyn, ystyriwyd bod yr ymyriadau a'r rhaglenni a ariennir gan yr Uned Atal Trais yn annog y broses o feithrin sgiliau allweddol ymysg pobl ifanc er mwyn gwella eu cydnerthedd a'u gallu i wrthsefyll pwysau gan gymheiriaid. Er enghraifft, nododd un person ifanc welliannau mewn sgiliau cyfathrebu, gan esbonio ei fod bellach yn fwy hyderus o ran siarad a rhannu ei deimladau, a'i fod yn fwy tebygol o ofyn am help yn y dyfodol. Ystyriwyd bod hyn yn newid pwysig iddo, gan esbonio na fyddai wedi gallu siarad am ei bryderon na'i deimladau yn y gorffennol, a oedd yn golygu bod sefyllfaoedd wedi mynd allan o reolaeth. Roedd y cynnydd mewn hyder a sgiliau cyfathrebu hefyd wedi golygu bod y person ifanc hwn wedi meithrin grŵp o ffrindiau a oedd yn fwy cadarnhaol.

"Mae wedi fy helpu i siarad â nhw ac â'r bobl o'm cwmpas hefyd. Rwy'n gallu gofyn am help yn haws. Fel arfer, byddwn i'n gwneud popeth ar fy mhen fy hun heb y cyngor a'r help, ac roeddwn i'n teimlo bod y sefyllfa allan o fy rheolaeth. Ond nawr rwy'n gofyn am help ar unwaith pan fydda i'n teimlo na allaf wneud pethau ar fy mhen fy hun" (PI1)

"Rwy'n siarad â phobl newydd yn well hefyd, rwy'n gallu cyfathrebu a gwneud ffriniau newydd. Yr wythnos o'r blaen, gwnes i grŵp newydd o ffrindiau ac mae hynny am fy mod i'n gallu siarad yn fwy rhydd am fy nheimpladau" (PI1)

Ystyriwyd bod y cymorth a ddarparwyd drwy'r ymyriadau a ariennir gan yr Uned Atal Trais hefyd yn cael effeithiau ehangach ar bobl ifanc, gan eu galluogi i ymgysylltu mewn agweddau amrywiol ar gymorth a ddarperir yn y gymuned. Roedd hyn yn cynnwys addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Nododd rhanddeiliaid welliant o ran presenoldeb yn yr ysgol, lefelau cyflawni cymwysterau a siawns well o gael cyflogaeth. Hefyd, nodwyd bod pobl ifanc hŷn yn cael cymorth i rentu neu brynu eu heiddo eu hunain. At hynny, nododd y rhanddeiliaid fod llai o achosion o drais yn gyffredinol.

"Rwy'n siarad â MAC, ond rwy'n siarad â phobl eraill nawr hefyd, rwy'n siarad â'm ffrindiau a'm teulu" (PI1)

"Roedd un person ifanc a oedd wedi trefnu apwyntiad a chymerodd yr ymyriad ac mae bellach wedi cofrestru mewn coleg. Felly mae'r gweithwyr MAC yno i'w rhoi mewn cysylltiad â rhywun a all eu helpu a'u tywys i drefnu cwrs mewn coleg. Heb hynny, dydw i ddim yn meddwl y byddai'r plentyn hwnnw wedi ystyried mynd i'r coleg hyd yn oed" (Rh8)

Rhoddyd tystiolaeth o gymorth ehangach ar gyfer aelodau teulu'r person ifanc sy'n ymgysylltu ag ymyriadau. Roedd hyn yn effaith systemig a arweiniodd o ganlyniadau i bobl ifanc a nodwyd uchod gyda lefelau llesiant a chyfathrebu gwell yn y cartref. Roedd diogelwch gwell hefyd yn ganlyniad pwysig i deuluoedd, gyda rhanddeiliaid yn cydnabod bod angen i rieni gael eu cymorth eu hunain yn aml (fel rhiant ac fel unigolyn), yn enwedig pan oedd eu plant wedi wynebu achosion o gamfanteisio a/neu wedi cael eu cynnwys mewn llinellau cyffuriau. Dangosodd yr holl astudiaethau achos o ymyriadau fod angen cynnig cymorth ehangach i rieni, gan nodi pwysigrwydd sicrhau bod model "teulu cyfan" ar waith.

"Darllenais ambell un o'r astudiaethau achos a hebddynt, rwy'n gwybod y byddai pethau wedi bod yn wahanol iawn i'r plant hynny a'u teuluoedd" (Rh12)

Effaith ar lefel system

Mae'r canfyddiadau yn dangos tystiolaeth o effaith ar draws y system ar gyfer dull iechyd y cyhoedd i atal trais yn Abertawe. Arweiniodd y cyllid gan yr Uned Atal Trais at fwy o gapasiti mewn gwasanaethu gan olygu bod ganddynt gyrraedd ehangach i ymgysylltu â mwy o weithwyr proffesiynol a phobl ifanc. Ystyriwyd bod cymeradwyaeth gan yr Uned Atal Trais hefyd yn gwella credadwyedd ymyriadau a oedd yn annog partneriaid i ymgysylltu. Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno bod y gwelliannau yn Abertawe o ran cydweithio o ganlyniad i'r Uned Atal Trais wedi arwain at wybodaeth well ymysg y gweithlu am nodau cyffredinol atal trais, anghenion pobl ifanc a'r gymuned, ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a ddarperir a gwybodaeth am lwybrau cyfeirio ac atgyfeirio at gymorth. Roedd hyn wedi gwella hyder y gweithlu i gydweithio i ddod o hyd i'r lefel fwyaf priodol o gymorth i unigolion, ac ystyriwyd bod hyn yn annog cyfathrebu ac atgyfeiriadau rhwng gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd y rhanddeiliaid yn cytuno y gellid gwella hyn ymhellach.

"Ar gyfer effaith mae angen i ni fod yn targedu ac yn llywio ein proses gynllunio. Bod yn fwy hyddysg am yr hyn sydd ei angen yn lleol yn hytrach na dim ond tybio. Mae deall beth sy'n gweithio'n dda a pham y mae'n gweithio'n dda yn golygu y gallwn gefnogi'r meysydd cywir a buddsoddi ynddynt" (Rh4)

"Rydym wedi cael llwyddiant da gyda rhywfaint o'r gwaith CMET rydym yn ei wneud yma, yr hyn rydym yn ei weld yw os byddwn yn gallu cydlynu'r gwaith yn gywir yna bydd yr holl asiantaethau'n gallu cyflawni'r hyn sydd angen iddynt ei gyflawni. Mae hefyd yn ymwneud

â'r Uned Atal Trais yn cefnogi darpariaeth weithredol leol yn hytrach na bod yn ddarpariaeth weithredol leol" (Rh4)

Nodwyd bod panel CMET yn ffactor pwysig wrth hyrwyddo gwaith ar y cyd i leihau risg a gwella diogelwch ar lefel unigol a chymunedol sydd, yn ei dro, wedi gwella partneriaethau a chyfathrebu ar draws y system. Roedd hefyd yn galluogi ymateb amlasiantaethol yn y gymuned i dargedu digwyddiadau penodol ac ardaloedd problemus o ran trais. Roedd gwella cydberthnasau rhwng gwasanaethau statudol a'r gymuned hefyd yn hyrwyddo'r broses o rannu cudd-wybodaeth a rhoi gwybod am droseddau. Roedd cudd-wybodaeth yn galluogi Heddlu De Cymru i dargedu adnoddau a gweithrediadau fel GRIP a Sceptre yn well⁵.

"Bydd canlyniadau byrdymor yn gweithredu i roi ymateb cyflym. Felly os oes achosion o drais. Er enghraifft, achos o drywanu yn eithaf diweddar yn Abertawe. Llwyddodd yr Uned Atal Trais i alw cyfarfodydd diogelwch â'r heddlu er mwyn i bartneriaid ddod draw i weld beth sydd ar waith i leihau tensiynau ar lefel gymunedol er mwyn sicrhau bod gan deuluoedd a all fod yn ofni bod eu plant yn rhan o achosion o drais rywle i fynd. Felly maent yn gallu cefnogi presenoldeb gweladwy yn y byrdymor" (Rh9)

"Gallwn nodi rhwydweithiau yn llawer gwell nawr – rhwydweithiau troseddol a rhwydweithiau camfanteisio. Rydym yn nodi'n llawer mwy effeithiol nag erioed o'r blaen" (Rh4)

Mae canfyddiadau'r astudiaethau achos hefyd yn dangos tystiolaeth o effeithiau ehangach yn y gymuned, drwy gefnogi'r broses o ganolbwyntio ar ddiogelwch a chydlyniant cymunedol, fel CMET yn cefnogi ymateb cydgysylltiedig i drais. Rhoddwyd enghreifftiau mewn nifer o'r astudiaethau achos darparwyr am achosion o drais yn y gymuned, yn benodol ynghylch trywanu person ifanc a therfysg Mayhill. Ar ôl y trywanu, cynhaliwyd cyfarfod o banel CMET ar unwaith i ddatblygu ymateb amlasiantaethol effeithlon; roedd hyn yn cynnwys presenoldeb cryf o gymorth yn y gymuned gan gynnwys darpariaeth ar gyfer cwnsela, a llwybr cefnogol i nodi unrhyw bryderon a chudd-wybodaeth. Ar ôl terfysg Mayhill, daeth y gwasanaethau hefyd ynghyd i ateb y galw a diwallu'r angen am gwnsela a chymorth trawma. Ystyriwyd bod yr ymateb unedig hwn wedi anfon neges gref i'r cymunedau. Ystyriwyd bod gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth drwy addysg a digwyddiadau cymunedol hefyd wedi chwalu rhwystrau ac annog cymunedau i gydweithio. Cydnabuwyd bod digwyddiadau partneriaeth yn y gymuned sydd â phresenoldeb cryf gan y darparwyr gwahanol hefyd yn effeithiol.

"Pan fydd cymunedau'n cydweithio er mwyn gallu bod yn ymwybodol o'r bobl sy'n wynebu risg...yn y pen draw, mae'n siŵr y byddai angen i ni weld newid llwyr mewn diwylliant i gyflawni effaith gyffredinol. Rydym am fod yn gwbl glir ynghylch beth sy'n ymddygiad derbyniol ac annerbyniol ym marn cymunedau a diwylliannau" (Rh4)

"Mae'n wych meddwl am y daith rydym wedi bod arni yn lleol a gweld rhywfaint o'r gwaith gwych hwnnw'n cael ei adlewyrchu gan bawb. Pŵer cydweithio. Rwy'n meddwl bod angen dod ag ystyr hynny'n fyw am ein bod yn trafod cydweithio. Ond mewn gwirionedd mae'n rhoi enghreifftiau pendant i ni o'i ystyr yn ymarferol" (Gweithdy)

"Os bydd digwyddiad difrifol, mae panel CMET a'r dull hwn wedi llwyddo i alw'r bartneriaeth honno ynghyd o fewn diwrnod i'r digwyddiad hwnnw a gan edrych ar ba

⁵ Ymgyrch Sceptre – Ymgyrch gan yr heddlu i fynd i'r afael â throseddau cyllyll, a phroblemau cysylltiedig trais "difrifol" a chyffuriau anghyfreithlon. Gan gynnwys addysg, gwaith ymgysylltu ac ymgyrchoedd wedi'u targedu. Mae GRIP yn darparu patrolau gweladwy mewn ardaloedd problemus lle ceir achosion o drais.

sefydliadau y mae angen iddynt fod yn rhan o'r ymateb, mae angen i bob un ohonynt fod yn rhan o'r ymateb" (Rh18)

"Gwnaethom lwyddo i roi llawer o gymorth i'r gymuned yn dilyn digwyddiad... Roedd hynny o fewn cyfnod o 24 awr, a dim ond oherwydd y cydberthnasau rydym wedi'u meithrin â'r holl asiantaethau. Ac nid dim ond ein cyfrifoldeb ni ydyw fel cyn y cydberthnasau hynny gan fod yr holl bartneriaid hynny wedi dod ynghyd i allu darparu'r hyn a allent ar y diwrnod hwnnw" (Rh3)

Ystyriwyd bod ymyriadau'r Uned Atal Trais lle'r oedd cydweithio rhwng gwasanaethau statudol a chymunedol yn gwneud i bob cyswllt gyfrif er mwyn darparu ymyriad a dull ymyrryd cynnar. Roedd y rhanddeiliaid yn gobeithio y byddai hyn, yn ei dro, yn lleihau risg a galw am ymyriadau mewn argyfwng, a gwasanaethau statudol, gan gynnwys yr heddlu ac adrannau iechyd. Ystyriwyd bod gweithio ochr yn ochr ag addysg hefyd yn cefnogi pobl ifanc i barhau ym myd addysg neu i ddychwelyd iddo. Fodd bynnag, roedd angen mwy o gyfranogiad gan ysgolion er mwyn datblygu hyn.

"Rwy'n meddwl bod yr effaith wedi gwella. Yr effaith i'r person ifanc, ar gyfer yr ardal leol a'r cynnydd mewn atgyfeiriadau o addysg, sy'n anferth am fod ysgolion yn cydnabod problemau. Nid yw hyn wedi digwydd bob amser oherwydd ofn cael eu cymharu neu'r ffaith nad yw fframweithiau arolygu yn edrych yn ffafriol ar ysgolion sy'n cyfaddef bod ganddynt broblem gyda materion penodol. Ond rydym wedi gweld hynny'n llwyddo, ac rwy'n meddwl bod hynny oherwydd y dull systemau cyfan hwnnw" (Rh18)

"...Gyda'r Uned Atal Trais y tu ôl i ni, gallwn fynd i fwy o ysgolion, mae'n fwy cydgysylltiedig. Gallwn weithio gyda phartneriaid strategol fel St Giles sydd hefyd yn cael eu hariannu gan yr Uned Atal Trais. Felly mae gweithio gyda'r Uned Atal Trais yn rhoi rhywfaint o barch i hynny. Nid wyf yn dweud bod y gwaith yn wahanol o reidrwydd, ond mae'r gwaith yn bendant yn fwy eang ac mae hynny o ganlyniad i rywun fel yr Uned Atal Trais yn dweud bod hwn yn waith effeithiol, rydym yn ei gymeradwy sy'n rhoi parch i chi pan fyddwch yn mynd i ardaloedd newydd fel Abertawe" (Rh9)

Ystyriwyd bod y gwelliant mewn gwaith sy'n ystyriol o drawma hefyd yn gwella gwybodaeth y gweithlu am drawma a'i ymwybyddiaeth ohono, sy'n galluogi gweithwyr proffesiynol i nodi arwyddion a risgiau. Roedd gweithio ochr yn ochr ag ymyriadau a ariennir gan yr Uned Atal Trais hefyd yn cynnig llwybr o gymorth priodol i gydweithwyr sy'n gweithio ym maes iechyd, addysg a chyfiawnder troseddol ei ddefnyddio, a fyddai, yn ei dro, yn lleihau'r galw ar y gwasanaethau hynny i ddarparu'r cymorth hwn.

"Canlyniadau a obeithir, llai o drais ond hefyd mwy o gysylltiadau rhwng asiantaethau, felly mae'n haws o lawer i ganolbwyntio ar y plentyn a'r person ifanc. Mae'n ddull systemau cyfan, felly mae'n fwy cofleidiol o lawer. Wrth edrych ar yr holl syniad hwnnw o drais yn cael ei atal yn y lle cyntaf, y dull iechyd y cyhoedd hwnnw o fynd i fyny'r llif cyn i bobl syrthio yn yr afon. Mae hyn yn cysylltu â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod a thrawma. Y cysylltiadau ehangach hynny ar draws asiantaethau, cyd-gynhyrchu, cydweithio, cynnwys pobl ifanc yn y broses gyfan o'r dechrau fel y gallant lywio'r hyn y maent am iddo ddiwydd. I'r rheini yn y pen pellaf, deall nad yw trais yn ddewis yn aml i bobl, felly sut y gallwn ei gwneud yn haws iddynt a'u cefnogi i fod yn fregus" (Rh19)

3.5 Dangos tystiolaeth o effaith ar lefel system

Mae'r astudiaethau achos o ymyriadau yn nodi'r ffordd y mae'r sefydliadau yn casglu ac yn monitro'r broses o gyflawni rhaglenni a'r canlyniadau, gan gynnwys llesiant, teulu, cydberthnasau ac iechyd. Mae hyn yn cynnwys presenoldeb ac ymgysylltiad, newidiadau mewn agwedd a gwybodaeth a

chanlyniadau. Mae'r sefydliadau hefyd yn casglu adborth gan bobl ifanc ac yn datblygu astudiaethau achos, gyda rhai enghreifftiau yn cael eu cyflwyno yn y gwerthusiad hwn. Mae'r ymyriadau sy'n darparu cymorth tymor hwy yn y gymuned hefyd yn storio gwybodaeth mewn ffeiliau achos, a ddefnyddir yn fewnol ac a all gyfrannu at astudiaethau achos a ddatblygir yn fewnol, ond nid at adroddiadau gwerthuso allanol. Mae pob un o'r darparwyr ymyriadau hefyd yn cyflwyno eu hadroddiadau chwarterol i'r Uned Atal Trais a ddefnyddir i roi adborth ar ddangosyddion perfformiad i'r Swyddfa Gartref.

"Un o'r pethau rydym yn eu hystyried yw ble mae ein hardaloedd problemus, ble mae'r pryderon hynny, pethau eraill rydym yn eu defnyddio mewn data i ddangos unrhyw dueddiadau eraill i ni. Felly a oes grwpiau oedran sy'n arbennig o fregus? A oes ardaloedd fel clystyrau ysgolion ac ati sy'n arbennig o fregus i ni? A ydynt yn cynnwys demograffig o bobl? Y peth arall rydym yn ei ystyried yw am ba hyd y mae pobl ifanc yn dilyn unrhyw brotocolau a beth yw canlyniad hyn" (Rh4)

Cydnabuwyd bod gwerthusiad yn allweddol i ddangos tystiolaeth o'r effaith ledled Abertawe, o ran cynaliadwyedd gwasanaethau ynghyd â dangos arfer gorau a dysgu ledled Cymru. Un enghraifft o hyn oedd y sail dystiolaeth ar gyfer yr ymyriadau mewn ysbyty yng Nghaerdydd, a alluogodd y gwasanaeth i gael ei gyflwyno a'i ddefnyddio mewn lleoliad ysbyty yn Abertawe. Roedd nifer o'r ymyriadau hefyd yn destun gwerthusiadau allanol ar wahân yn Abertawe ac ar lefel Cymru gyfan a'r DU gyfan. Fodd bynnag, cydnabuwyd y dylid ystyried cymorth cymunedol a lleol pan na fydd sail dystiolaeth ffurfiol ar gael, gan gydnabod bod effaith o hyd os yw'n gwneud gwahaniaeth yn y gymuned.

"Mae angen edrych ar wahanol faterion problemus o ran cam-drin domestig a hyd yn oed gyda data'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys a data'r heddlu gallech gael syniad, ac ymosodiadau mewn ysgolion. Gall hyn gysylltu ag asesiadau o anghenion iechyd strategol. Dod â'r data iechyd y cyhoedd hwnnw i mewn" (Rh19)

Ar wahân i'r ymyriadau a gyflawnir, gellir defnyddio data allanol i lywio effaith systemau cyfan y gweithgarwch atal trais a ariennir gan yr Uned Atal Trais ledled Abertawe. Er enghraifft, pobl sy'n mynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, data'r heddlu a data'r Grŵp Cudd-wybodaeth Trawma ac Anafiadau (TIIG). Rhagwelir y bydd y setiau data ehangach hyn, ynghyd ag amrywiaeth o ddata eraill o bob cwr o Abertawe, yn cael eu hymgorffori i hwb cudd-wybodaeth yr Uned Atal Trais er mwyn monitro tueddiadau a dangos tystiolaeth ohonynt i wella cyrhaeddiad ac effaith ymhellach. Cydnabuwyd ei bod yn anodd dehongli canfyddiadau o ddata presennol oherwydd effaith y pandemig. Mae'r gudd-wybodaeth hon am iechyd y cyhoedd ar wahân i'r data ar ymyriadau ac nid yw dadansoddiadau yn archwilio'r data mewn perthynas â'i gilydd. Nododd y rhanddeiliaid bwysigrwydd deall data a sut y gellir eu defnyddio i ddangos effaith ar y system. Cydnabuwyd y posibilrwydd o ddefnyddio cudd-wybodaeth CMET fel allbwn mwy ffurfiol hefyd.

Cydnabu'r rhanddeiliaid bwysigrwydd dangos tystiolaeth o effaith a defnyddio data a chudd-wybodaeth yn fwy effeithiol i gefnogi hyn. Cytunwyd y byddai deall data yn cefnogi Abertawe i ddangos tystiolaeth o effaith ehangach ar draws y system. Er enghraifft, trafododd un rhanddeiliad y modd yr oedd data yn dangos effaith addawol, o ran gwella ansawdd y data. Cydnabuwyd bod hyn yn ganlyniad posibl i Dîm Atal Trais y GIG, yn benodol nyrs y Tîm Atal Trais yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, codi ymwybyddiaeth ymysg gweithlu'r ysbyty, a'r staff yn cwestiynu'r dull o gofnodi data, a allai effeithio ar gofnodion. Er enghraifft, efallai na fydd angen cofnodi ymweliad â'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys fel ymosodiad yn yr asesiad brysbennu. Fodd bynnag, cynhaliodd Tîm Atal Trais y GIG ymarfer drwy fynd drwy nodiadau achos lle gall anaf fod wedi cael ei nodi fel ymosodiad mewn sgysiau pellach yn ystod yr ymweliad â'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Gallai hyn, ynghyd â'r dull sy'n ystyriol o drawma o ofyn pam y digwyddodd yr anaf, fod wedi arwain at

ansawdd gwell mewn adroddiadau'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Gallai hyn arwain at gudd-wybodaeth fwy cywir y gellir ei bwydo i'r Grŵp Cudd-wybodaeth Trawma ac Anafiadau (TIIG) i adlewyrchu anafiadau sy'n gysylltiedig â thrais ledled Abertawe. Roedd hon yn effaith nas ystyriwyd wrth gasglu effeithiau'r ymyriadau hyn.

"Rydym yn gweld newidiadau mewn data Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, mae mwy o ddealltwriaeth rhwng gweithwyr proffesiynol a'r rheini sy'n recordio'r data o bwysigrwydd y data. Felly mae'n dod yn ôl yn well ac yn fwy cyflawn. Mae'n bwysig cael y cysylltiadau hynny â'r ymyriadau ysbyty yn Abertawe. Maen nhw'n llawn cymhelliant ac rwy'n meddwl bod llawer o hynny am fod y nyrsys yn dod i ble maen nhw'n dod yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Felly edrych ar fwy o ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol cyffredinol, staff derbynfydd Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ac ati a bod y data hynny'n dod yn ôl yn fwy cyflawn. Felly mae dealltwriaeth am yr addysg honno. Felly mae pethau eraill i edrych arnynt yn y data i weld a fydd yr ymyriadau'n cael effaith" (Rh19)

"Rydym yn edrych ar ddata ac mae meysydd lle rydym yn edrych ar effaith a gyda newidiadau. Felly efallai na fydd y data yn dangos bod trais wedi gostwng, ond er enghraifft rydym yn gweld mwy o achosion yn cael eu hadrodd a'u cofnodi, mae'n anodd gwybod beth ddaeth gyntaf. Cymerodd amser i ni ddweud wrth y Swyddfa Gartref, y gallech weld cynnydd os byddwn yn gwneud ein gwaith yn briodol ac y ddigon da, efallai y gallwch weld yr hyn sy'n edrych fel cynnydd mewn troseddau ar y dechrau yn hytrach na gostyngiad" (Rh19)

"Deall y broblem fel rhan o'r system gyfan, y ddealltwriaeth o ble rydym nawr er mwyn gwybod ble rym am fynd" (Rh19)

Tynnwyd sylw at rwystrau o ran sicrhau bod data'n cael eu caffael yn effeithiol ac roedd partneriaid yn cydnabod pwysigrwydd casglu data, gan gynnwys ansawdd y data, er mwyn rhoi tystiolaeth o effaith a chefnogi cynaliadwyedd ymyriadau. Mae materion y tynnwyd sylw atynt yn y data Cyfleoedd Dysgu Digymell wedi nodi'r potensial i ddata gael eu monitro'n anghywir ac i beidio ag adlewyrchu'r gwaith a wnaed. Rhoddwyd enghraifft o ymarfer casglu data a gynhaliwyd gan Gyngor Abertawe a greodd newid yn y system. Cydnabu'r rhanddeiliaid bwysigrwydd cael aelodau angerddol o staff sy'n deall pwysigrwydd data i annog gwaith fel hwn, gan nodi sut y gallai ardaloedd eraill ddysgu o'r gwaith hwn. Cydnabu nifer o randdeiliaid hefyd yr angen am gymorth ychwanegol, o bosibl gan yr Uned Atal Trais, i gefnogi system ganolog sy'n dod â'r holl wybodaeth a chudd-wybodaeth ynghyd.

"Roedd yr aelod o staff yn canolbwyntio llawer ar ddata, daeth â nifer enfawr o bartneriaid at ei gilydd yn ardal awdurdod lleol Abertawe. Roedd yn ddiddorol iawn gweld sut y gall ddigwydd. Mae'n ymddangos ei fod wedi bod yn llwyddiant mewn ardaloedd eraill. Gwnaethant gynnwys CMET a'r diogelwch cyd-destunol, data lefel Uned Atal Trais ac roedd ganddynt ddata ar waharddiadau, data ar addysg a data ar wasanaethau troseddwy'r ifanc. Roedd hynny eisoes yno ac yn gysylltiedig. Felly y syniad fyddai efelychu'r hyn maent wedi'i wneud a gweithio gyda'u setiau data. Nid yw'n hawdd cael gafael ar y data hyn, ond roedd yr aelod o staff yn adnabod rhywun ym mhob ardal ac yn gallu cael y wybodaeth honno ar lefel leol yn Abertawe" (Rh19)

Cydnabu'r rhanddeiliaid yr anhawster i ddangos tystiolaeth o effaith. Yn aml, ni chaiff y gwaith a wneir yn meithrin ymddiriedaeth a chydberthnasau ac yn chwalu rhwystrau gyda phobl ifanc cyn iddynt ymgysylltu'n ffurfiol â gwasanaeth ei nodi ac mae'n anodd ei fesur. Gellir buddsoddi llawer o amser ac ymdrech yn ystod y cyfnod hwn. Gan gydnabod y gellir ystyried bod ymgysylltu yn y lle cyntaf yn ganlyniad i rai. Cydnabuwyd bod y gwaith a wnaed yn ystod cyfnodau o ymddieithrio i gefnogi pobl

ifanc i ail-ymgysylltu hefyd yn anodd ei gofnodi'n ffurfiol. Drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, nodwyd anawsterau hefyd wrth fesur newidiadau o ran cario arfau, ymyriadau atal a gwaith sy'n ystyriol o drawma. Cydnabu'r rhanddeiliaid yr angen am fframwaith perfformiad o ddechrau'r broses, ond bod angen i ymyriadau fod wedi bod ar waith am gyfnod penodol o amser weithiau cyn y gellir deall y canlyniadau'n llawn.

"Mae wir yn anodd. Yr unig ffordd y gallaf ddangos tystiolaeth ei fod yn ymwneud â'u dealltwriaeth yw'r cwestiynau, y wybodaeth a gawsant ac ati" (Rh14)

"Mae'n anodd iawn mesur yr effaith gan nad oes gennych safonau penodol fel y byddai gennych gyda pherson ifanc. Ac weithiau o ran yr hyn y byddech yn disgwyl iddynt ddangos bod cynnydd gwirioneddol dda – y gwrthwyneb sy'n digwydd. Felly er enghraifft, os oes mwy o alwadau i'r gwasanaeth ambiwlans neu os oes mwy o alwadau i'r heddlu, mae hynny'n dangos ein bod wedi codi'r ymwybyddiaeth yn yr ardal honno" (Rh3)

Nododd y rhanddeiliaid hefyd fod angen cyd-destun wrth archwilio data canlyniadau, yn enwedig o ran canlyniadau meintiol. Er enghraifft, rhoddodd rhanddeiliad enghraifft o'r Swyddfa Gartref yn cydnabod bod llai o bobl yn mynd i Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys a llai o anafiadau sy'n gysylltiedig â thrais yn ganlyniad cadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r gwasanaethau ledled Abertawe yn gweithio tuag at annog unigolion i geisio help; i fynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys os byddant wedi'u hanafu a bod yn onest ynglŷn â sut y digwyddodd yr anaf, a rhoi gwybod i'r heddlu am droseddau. Byddai hyn yn golygu y byddai cynnydd yn nifer yr adroddiadau cyn iddynt ostwng. Nodwyd hyn hefyd ar gyfer cyfranogiad gwasanaethau plant. Mae hyn yn dangos pa mor hanfodol ydyw i beidio ag ystyried cynnydd yn nifer y bobl sy'n mynd i Adran Damweiniau ac Achosion Brys fel canlyniad negyddol.

"Roedd y Swyddfa Gartref yn ystyried bod y cynnydd yng nghyfranogiad gwasanaethau statudol yn beth cadarnhaol am fod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud at wasanaethau statudol. Mae hefyd yn gefnogol. Efallai y byddant yn ystyried bod cyfranogiad gwasanaethau plant yn beth negyddol, ond weithiau mae er gwell ac nid yw'n ymddangos eu bod yn deall y cyd-destun o amgylch hynny, sy'n bwysig iawn, nid dim ond niferoedd" (Rh18)

"Mae gweithwyr proffesiynol gwahanol yn dehongli data yn wahanol, e.e., roedd yr heddlu wedi dehongli bod rhywbeth yn negyddol, ond roedd yn gadarnhaol edrych arno drwy lens iechyd y cyhoedd. Er enghraifft, maent am weld gostyngiad mewn achosion o drais ymysg pobl ifanc, ond os oes gennych fwy o swyddogion ar y strydoedd yn yr ardaloedd problemus, mae'n debygol y byddwch yn cael mwy o adroddiadau, a dyna'r hyn a welwyd gennym. Felly mae angen ceisio dehongli'r data mewn ffordd 1) sy'n gwneud synnwyr. 2) nad yw'n troi gormod o bobl nac asiantaethau oddi wrth wybod a yw'n beth da neu ddrwg" (Rh19)

Roedd ffurflenni chwarterol yr Uned Atal Trais wedi cael eu haddasu i gynnwys rhagor o wybodaeth y tu hwnt i ddangosyddion perfformiad y Swyddfa Gartref, gan gasglu gwybodaeth ansoddol ac ystyried astudiaethau achos er mwyn dangos tystiolaeth o'r hyn a gyflawnwyd ac adrodd straeon pobl ifanc. Cytunwyd ar y cyfan, er gwaethaf yr addasiadau, nad yw'r ffurflenni hyn bob amser yn adlewyrchu gwir natur yr ymyriadau ac y gellid eu haddasu ymhellach i gynnwys dangosyddion wedi'u teilwra'n benodol at yr ymyriadau a ariennir gan yr Uned Atal Trais, gan gasglu data'n gyson ar draws y system gyfan o hyd. Cytunwyd y gallai'r Uned Atal Trais gaffael a defnyddio data canlyniadau'n well i ddangos tystiolaeth o effaith drwy gynnwys ac ymgorffori fframwaith canlyniadau ar gamau cychwynnol y broses o gomisiynu ymyriad yn ogystal ag ar gamau diweddarach, er enghraifft drwy gydol y broses o

gyflwyno'r ymyriad. Ystyriwyd hefyd fod nodi teimladau o ddiogelwch yn fesur pwysig i'w gynnwys mewn ffurflenni o'r fath. Yn yr un modd, roedd darparwyr ymyriadau hefyd yn awyddus i weld ffurflenni yn casglu tystiolaeth o ganlyniadau mwy meddal, yn enwedig mewn perthynas â chanlyniadau sy'n ystyrlon i'r unigolion y maent yn gweithio gyda nhw. Mae darparwyr hefyd wedi pwysleisio pwysigrwydd cynnwys astudiaethau achos ar ffurflenni o'r fath fel bod modd myfyrio'n well ar daith person ifanc.

"Rwy'n meddwl bod angen i ni gael dulliau adrodd sy'n edrych ar ein heffaith a'n perfformiad a meddwl am dulliau o fesur llwyddiannau a chanlyniadau. Dydw i ddim yn meddwl ein bod yn mesur yr effaith mor gadarn ag y gallem fod yn ei wneud" (Rh18)

3.6 Cynllunio ar gyfer y dyfodol a chynaliadwyedd ar gyfer atal trais yn Abertawe

Bu'r rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y gwerthusiad yn trafod cynaliadwyedd o ran canlyniadau, darparu ymyriadau a'r dull iechyd y cyhoedd o atal trais ledled Abertawe. Ystyriwyd ei bod yn bwysig bod ymyriadau yn gallu gweithredu heb gyllid parhau gan yr Uned Atal Trais yn yr hirdymor, ac roedd yn bwysig i bartneriaid gymryd cyfrifoldeb yn y dyfodol. Trafododd rhanddeiliaid fanteision gwasanaethau a sefydlwyd eisoes, sy'n golygu bod y cyllid gan yr Uned Atal Trais yn ychwanegu gwerth. Roedd hyn wedi eu galluogi i greu adnoddau a chasiti ychwanegol sydd, yn ei dro, wedi gwella eu cyrhaeddiad i ymgysylltu â mwy o weithwyr proffesiynol, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau.

"MAC – Gyda'r ffordd maen nhw'n gweithio a'r hyn sydd ganddynt, yr holl werth ychwanegol hwnnw oherwydd y gwasanaeth ehangach a gynigir ganddynt, ond maen nhw'n ymddangos eu bod wedi'u hymgorffori mwy o lawer yn yr ymyriadau eraill. A'u bod yn gwybod os byddant yn codi hyn fel mater neu bryder bod rhyw fath o bartneriaeth yno i'w helpu i ymateb i hynny ac yn ystyried pwy sydd fwyaf addas fel rhan o'r ymateb hwnnw" (Rh18)

Y dulliau cyfathrebu da a'r gwaith partneriaeth a ddatblygwyd gan gyllid yr Uned Atal Trais a oedd wedi dod â gwasanaethau ynghyd, wedi creu llwybrau atgyfeirio ac wedi galluogi gwaith partneriaeth parhaus. Roedd un rhanddeiliad yn credu y byddai trafodaethau am y fframwaith effaith a chanlyniadau yn agor sgysiau am yr hyn a ddisgwylir gan bartneriaid o safbwynt comisiynu. Cytunwyd hefyd fod y model yn cynnig y cyfle i weithio'n agos gyda Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Diogelu Cyd-destunol yr Awdurdod Lleol a'r posibilrwydd o weithio gyda'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i ddatblygu a chysoni strategaethau i wella cydlyniant a diogelwch cymunedol. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â chyflwyno'r Ddyletswydd Trais Difrifol.

Mae'r holl ddarparwyr ymyriadau yn credu na fyddent mewn sefyllfa i barhau i ddarparu'r ymyriadau llawn presennol heb gyllid yr Uned Atal Trais. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o anodd i'r sefydliadau elusennol. Roedd un rhanddeiliad o'r farn, heb gyllid yr Uned Atal Trais, y byddai mwy o niwed a risg i bobl ifanc. Cododd rhanddeiliaid hefyd bryderon am yr adferiad parhaus ar ôl pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw presennol. O ganlyniad, ystyriwyd bod yr Uned Atal Trais a'i chyllid dynodedig yn chwarae rôl bwysig wrth helpu partneriaid ledled Abertawe i wynebu'r hinsawdd economaidd bresennol.

"Gan mai elusen ydym ni, pe byddai'r cyllid yn dod i ben, byddai'r gwaith yn dod i ben" (Rh10)

Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ar gyfer y model cyffredinol, nododd rhanddeiliaid fod angen ymdrech a datblygiad parhaus ar bartneriaethau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r dulliau trosedd

diweddaraf. Er enghraifft, arsylwyd ar newidiadau mewn dulliau troseddu ers pandemig COVID-19. Gwnaeth y darparwyr gwasanaethau nifer o argymhellion ynghylch cyllid tymor hwy, adborth yr Uned Atal Trais ar gyfer staff llinell flaen, cymorth yr Uned Atal Trais ar gyfer dangos tystiolaeth o effaith a chymorth yr Uned Atal Trais (gyda chefnogaeth genedlaethol) i ymgysylltu â sectorau eraill a pharhau i gyflawni yn yr hirdymor. Nododd un rhanddeiliad fod cyllid tymor hwy yn hollbwysig er mwyn sicrhau newid cymdeithasol tymor hwy.

"Rwy'n meddwl bod cyllid byrdymor ar gyfer y gwaith hwn yn peri problemau. Felly nid yw hon yn broblem a gaiff ei datrys drwy daflu arian ati. A dweud y gwir, mae hwn yn newid cymdeithasol... Mwy na dim ond rhoi ychydig o arian i mewn i brosiect sy'n para am 12 mis, rhywbeth nad yw'n ystyrlon mewn gwirionedd. Effaith genediadol sydd ei hangen arnom mewn gwirionedd. Ond nid yw arian y Swyddfa Gartref dros gyfnodau byr mor ddefnyddiol â hynny. Mae angen buddsoddiad strategol hirdymor go iawn" (Rh4)

Ystyriwyd bod aelodaeth barhaus yn CMET hefyd yn hanfodol er mwyn dod â phartneriaid ynghyd mewn dull unedig y tu hwnt i gyllid gan yr Uned Lleihau Trais. Argymhellwyd y dylid defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn Abertawe a'i gymhwyso mewn ardaloedd eraill o Gymru. Rhoddwyd enghreifftiau ynghylch arfer gorau'r tîm diogelu cyd-destunol a phanel CMET, wrth ddatblygu dull cwbl gydweithredol. Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno y byddai cael cymorth Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r broses o'i roi ar waith mewn ardaloedd eraill.

"Mae Cyngor Abertawe a CMET wedi bod yn hynod o gefnogol, nawr rydym yn meddwl sut y gallwn gyflwyno'r gwasanaethau hynny'n lleol a sut y dylid eu hymgorffori yn y strwythur partneriaeth hwnnw" (Rh18)

"Rydych yn gweld mewn cyfarfodydd â phartneriaid lle maen nhw'n dod â phobl o Abertawe i rannu'r gwersi hynny sy'n wych am fod hynny'n golygu eu bod ar y blaen a bod ganddynt y wybodaeth honno. Mae model CMET a'r dulliau diogelu cyd-destunol yn benderfyniad hawdd. Mae'n wych. Mae wedi dod â chymaint o bobl at ei gilydd, felly gorau po fwyaf y gallwn ddysgu o bethau fel hyn" (Gweithdy)

"Mae'r myfyrio ar y gwaith cadarnhaol a wnaed yn arbennig. Mae gwaith partneriaeth wedi dangos sut mae wedi effeithio ar y bobl ifanc a'r gymuned. Mae wedi bod yn ddiddorol gweld y data gyda'i gilydd ac mae'n dangos sut y mae wedi bod yn gweithio. Hyd yn oed wrth wynebu rhwystrau, mae partneriaid yn parhau i oresgyn ac addasu ar gyfer canlyniad gwell. Mae'n dangos bod gwasanaethau'n addasu i anghenion yr ardal" (Gweithdy)

4. Deall canlyniadau system atal trais effeithiol yn Abertawe

Er mwyn deall rôl y system atal trais ymhellach yn Abertawe, defnyddiwyd y canfyddiadau o'r gwerthusiad i ddatblygu model rhesymeg. Mae datblygu damcaniaeth rhaglen yn allweddol er mwyn gwerthuso ymyriadau cymhleth (Skivington et al, 2021) ac mae'r model rhesymeg hwn yn rhoi dealltwriaeth ynghylch sut a pham rydym yn disgwyl i weithgareddau atal trais Uned Atal Trais Abertawe arwain at y canlyniadau byrdymor, tymor canolig a hirdymor hyn. Mae'r model rhesymeg hwn yn cynnwys gwybodaeth am y cyd-destun ehangach ar gyfer cyflawni'r ymyriadau, y dulliau newid, y ffactorau galluogi a'r ffactorau allanol.

4.1 Model Rhesymeg Abertawe

Rhanddeiliaid allweddol	Rhaglenni Allweddol/ Dulliau a Gweithgareddau	Allbynnau	Canlyniadau		
			Byrdymor	Tymor canolig	Hirdymor
<p>Cymunedau (e.e. pobl ifanc, teuluoedd, y cyhoedd, goroeswyr trais)</p> <p>Yr Heddlu</p> <p>Partneriaid academaidd</p> <p>Byrddau Iechyd</p> <p>Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid</p> <p>Crimestoppers</p> <p>Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</p>	<p>Diogelu Cyd-destunol (gan gynnwys CMET [Cyd-destunol, Coll, wedi'u Hecsbloittio a'u Masnachu] a Chydlynnydd Ymyrnyd yn Gynnar ac Atal a ariennir gan yr Uned Atal Trais) – ymateb amlasiantaethol i gydnabod ac ymateb i anghenion unigol pobl ifanc. Darparu neu hwyluso mynediad i wasanaethau cymorth arbenigol mewn perthynas â bregusrwydd fel camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, digartrefedd a thrais. Mae hefyd yn canolbwyntio ar leoliadau problemau a nodwyd ledled Abertawe ac ar grwpiau cymheiriaid, gan ddarparu gweithgarwch allgymorth wedi'i dargedu a datgysylltiedig.</p> <p>Dulliau Cyfiawnder Troseddol</p> <p>– <i>Ymyriadau Dalfeydd yr Heddlu</i> – gweithwyr achos Media Academy Cymru yn cynnal cyfweiliadau cymell â phlant a phobl ifanc yn</p>	<p><i>Astudiaethau achos/astudiaethau lleol</i> o effaith – cesglir gan raglenni/dulliau unigol</p> <p><i>Ffurflenni data chwarterol i'r Uned Lleihau Trais</i> sy'n casglu ac yn ystyried gweithgarwch prosiectau a chanlyniadau, risgiau a gwersi a ddysgwyd.</p> <p>- crynodeb o weithgarwch y gwasanaeth, gan gynnwys gweithgarwch a gyflawnwyd yn ystod y chwarter a gwaith amlasiantaethol a wnaed</p> <p>– y prif fathau o anghenion sydd gan unigolion sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth</p> <p>- nifer yr atgyfeiriadau a gafwyd a ffynhonnell yr atgyfeiriad (gan gynnwys dadansoddiad o'r</p>	<p>UNIGOL/CYMUNEDOL</p> <p>Teimlo'n fwy diogel</p> <p>Mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth (drwy addysg) o risgiau a chanlyniadau cymryd rhan mewn trais</p> <p>Newid cadarnhaol yn ffordd o feddwl ac agweddau plant a phobl ifanc (drwy wybodaeth ac ymwybyddiaeth gynyddol)</p> <p>Teimlo wedi grymuso mwy i atal trais drwy raglenni cymunedol</p> <p>Mwy o gymorth i oroeswyr troseddau</p> <p>Presenoldeb gwell yn yr ysgol</p> <p>Cyberthnasau gwell â chyfoedion</p>	<p>UNIGOL/CYMUNEDOL</p> <p>Creu amgylcheddau mwy diogel i gymunedau</p> <p>Pobl sy'n wynebu risg o drais yn cael ymyriadau cynnar (e.e. teuluoedd, plant, brodyr a chwiorydd)</p> <p>Cyberthnasau teuluol a rhyngpersonol gwell</p> <p>Iechyd meddwl a llesiant gwell</p> <p>Mwy o hyder i siarad am drais</p> <p>Defnyddio llai o gyffuriau/llai o ddibyniaeth ar gyffuriau</p> <p>Llai o ymweliadau ag Adranau Damweiniau ac Achosion Brys</p> <p>Caiff tystion eu grymuso i ymyrnyd yn ddiogel</p> <p>Canlyniadau addysgol gwell – cyrhaeddiad</p>	<p>UNIGOL/CYMUNEDOL</p> <p>Adsefydlu llwyddiannus</p> <p>Llai o gylchoedd trais cenedliadol</p> <p>Llai o aildroseddau</p> <p>Llai o anafiadau yn gysylltiedig â thrais</p> <p>Canlyniadau cyfiawnder troseddol gwell</p> <p>Canlyniadau iechyd gwell sy'n gysylltiedig â phenderfynyddion ehangach</p> <p>Llai o stigma ynghylch teuluoedd y mae rhywun sy'n rhan o'r system cyfiawnder</p>

Y cyfryngau	nalfeydd yr heddlu ac yn rhoi cymorth dilynol.	atgyfeiriadau a dderbyniwyd, yr atgyfeiriadau a wrthodwyd a'r rhesymau pam)	Magu hyder mewn gweithwyr proffesiynol a meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â nhw	Plant a phobl ifanc yn deall ac yn gwybod ble i gael help os byddant yn rhan o weithgarwch troseddol a thrais	troseddol wedi effeithio arnynt
Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau	– Rhaglen GRIP – ariennir i sicrhau y gellir cyflwyno plismona ardaloedd problemus, gyda phwyslais ar gymryd rheolaeth o drais gan ganolbwyntio'n fforensig ar y strydoedd a'r cymdogaethau penodol yr effeithir arnynt fwyaf.	- nifer yr atgyfeiriadau a wnaed at wasanaethau cymorth arbenigol, gan gynnwys manylion cymorth a ddarparwyd mewn perthynas â llety/cyllid/addysg/cyflog aeth/iechyd/defnydd o gyffuriau ac alcohol/gwybodaeth cyfiawnder troseddol	Caiff plant a phobl ifanc eu grymuso i wneud penderfyniadau hyddysg ac i deimlo'n gadarnhaol am y dyfodol	Mwy o ymwybyddiaeth o fewn cymunedau ynghylch ble i gael help/cefnogaeth a sut i ddiogelu pobl ifanc	Llai o blant a phobl ifanc yn cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
Iechyd Cyhoeddus Cymru	– Ymgyrch Sceptre – mynd i'r afael â throseddau cyllyll, a phroblemau cysylltiedig trais a chyffuriau anghyfreithlon. Gan gynnwys ymgyrchoedd wedi'u targedu a gwaith ymgysylltu ac addysg i roi sicrwydd i bobl ifanc eu bod yn fwy diogel pan na fyddant yn cario cyllyll.	- nifer yr unigolion a gefnogwyd sy'n 24 oed ac iau ac sy'n 25 oed a throsodd	Mwy o ymwybyddiaeth o ran sut i nodi'r rheini sy'n wynebu risg neu a all fod yn wynebu risg	Nodi plant a phobl ifanc bregus yn gynnar fel y gallant gael cymorth i'w hatal rhag cael eu cynnwys mewn trais neu droseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau	
Y Swyddfa Gartref			Mwy o ymwybyddiaeth o sut i gefnogi'r unigolion hyn mewn ffordd ddiogel		
Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhidi			Mwy o ymdeimlad o gymuned		
Llywodraeth Cymru			Llesiant gwell		
Sefydliadau Trydydd Sector	Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru (WSPSP) – mae gan ysgolion swyddog cymuned ysgol yr heddlu (SCPO) sy'n cyflwyno cyfres o wersi, mewnbynau atal troseddau a mentrau plismona ysgolion cefnogol, ynghyd â mynd i'r afael ag unrhyw faterion plismona yn yr ysgol.	– newidiadau (canlyniadau) a gyflawnwyd ar gyfer y bobl dan sylw – wedi'u dangos drwy naratifau astudiaethau achos byr	Mwy o adroddiadau am droseddau treisgar (e.e., troseddau cyllyll, trais domestig)		
Awdurdodau Lleol, gan gynnwys Partneriaethau Diogelwch		– risgiau neu faterion a nodwyd mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn	Gwella gweledded plant a phobl ifanc		
Cymunedol, Addysg a Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol	Ymddiriedolaeth St Giles – gwaith ymyriadau cynnar ac atal gyda phobl ifanc mewn 'cyfle dysgu digymell'. Gweithio gyda phobl ifanc y nodwyd eu bod yn wynebu risg o gael eu cynnwys mewn trais, er mwyn eu hannog i ymgysylltu â chymorth dwys wedi'i deilwra.	– crynodeb o ddysgu allweddol yn ystod y chwarter	EHANGACH/SYSTEM	EHANGACH/SYSTEM	EHANGACH/SYSTEM
			Mwy o waith cydweithredol ar draws gwasanaethau /sefydliadau partner	Gallu gwell i adnabod rhwydweithiau troseddol yn effeithiol	Gostyngiad yn y galw am blismona am fod llai o achosion o drais i ymateb iddynt
			Gwasanaethau/sefydliadau/gweithwyr proffesiynol yn cael mwy o wybodaeth yn lleol ac yn cael dealltwriaeth well o anghenion eu cymunedau	Cyfleoedd gwell i bartneriaid gydweithio wrth ymateb i drais a chefnogi'r rhai yr effeithiwyd arnynt	Gostyngiad yng nghost ariannol trais ar draws gwasanaethau
	Fearless, Crimestoppers – gweithwyr achos dynodedig yn targedu ardaloedd problemus o ran trais a nodwyd yn Abertawe				

	<p>Caiff sesiynau eu cyflwyno i bobl ifanc mewn lleoliadau addysgol a chymunedol. Hyfforddiant i weithwyr proffesiynol i'w helpu i nodi ac ymateb i arwyddion a datgeliadau.</p> <p>Braver Choices, Media Academy Cymru – prosiect troseddau cyllyll yn y gymuned i sicrhau bod plant yn Abertawe sy'n defnyddio neu sy'n ystyried defnyddio cyllyll ac arfau ehangach yn cael dilyn llwybr carlam i ymyriadau a chymorth pwrpasol sy'n seiliedig ar gryfderau.</p> <p>Tîm Atal Trais y GIG – yn gweithio mewn adran damweiniau ac achosion brys ysbyty i nodi ac ymateb i gleifion ag anafiadau sy'n gysylltiedig â thrais ac i ddarparu cymorth dwys yn y gymuned gan weithiwr achos er mwyn eu dargyfeirio oddi wrth drais.</p>		<p>Dealltwriaeth well o'r gwasanaethau a ddarperir ar draws sefydliadau</p> <p>Cam i wella cysondeb dulliau cyfathrebu ar draws gwasanaethau/sefydliadau</p> <p>Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth well o ddulliau sy'n ystyriol o drawma i atal trais</p> <p>Dealltwriaeth well o'r data</p> <p>Gallu dadansoddol gwell mewn gwasanaethau/sefydliadau</p> <p>Gallu gwell i ddarparu cymorth ymyriadau cynnar ac atal ynghyd ag ymatebion adweithiol i sefyllfaoedd sy'n codi mewn cymunedau lleol</p> <p>Llai o bobl yn cario cyllyll</p> <p>Mwy o brosesau diogelu</p> <p>Mwy o ymgysylltu â'r bobl sydd fwyaf bregus mewn cymunedau</p>	<p>Mwy o allu i ymateb i achosion sylfaenol trais yn hytrach na'r ymddygiad/trosedd</p> <p>Dealltwriaeth well o lefel pob math o drais gan gynnwys 'niwed cudd'</p> <p>Llai o niwed cudd</p> <p>Llai o fregusrwydd sy'n cynyddu'r risg o ymwneud â thrais</p> <p>Mynediad gwell at gymorth ar gyfer grwpiau bregus sy'n wynebu risg yn gyffredinol</p> <p>Llai o frigiadau o droseddau treisgar</p> <p>Llai o droseddwyr am y tro cyntaf sy'n mynd yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol</p> <p>Ysgolion yn fwy hyderus i ymateb i drais a throseddau cyllyll mewn ysgolion</p>	<p>Gostyngiad mewn pob math o drais</p> <p>Gostyngiad mewn anghydraddoldebau iechyd/cau'r bwlch mewn anghydraddoldebau iechyd</p> <p>Cynnydd mewn cynhyrchiant economaidd</p> <p>Caiff y gwasanaethau a ddarperir eu llywio gan lais defnyddwyr gwasanaethau (plant a phobl ifanc)</p> <p>Atal niwed</p>
--	--	--	---	---	--

Mae'r fframwaith ar gyfer gwerthuso ymyriadau cymhleth wedi'i gymhwysu at ganfyddiadau'r astudiaeth hon, er mwyn deall sut mae'r Uned Atal Trais yn cyfrannu at newid systemau ledled Abertawe.

I ba raddau y mae'r ymyriad yn arwain at y canlyniadau bwriadedig neu y gallai hynny ddigwydd?

Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn dangos tystiolaeth o'r graddau y mae gweithgareddau atal trais a ariennir gan yr Uned Lleihau Trais yn arwain at ganlyniadau bwriadedig. Sicrhaodd yr Uned Lleihau Trais adnoddau a fuddsoddwyd i ddatblygu llwybrau, hwyluso cydberthnasau proffesiynol a phartneriaethau. Mae hyn wedi arwain at waith partneriaeth gwell, rhannu gwybodaeth yn well, a mwy o wybodaeth ymysg y gweithlu ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma ar draws y system atal trais. Mae hyn wedi golygu bod modd datblygu llwybrau cymorth i nodi pobl ifanc sy'n wynebu risg a'u symud i gymorth priodol ar draws y system.

Nod model Uned Atal Trais Abertawe i atal trais a'r ymyriadau a'r dulliau a ariennir yw lleihau'r risg o fod yn rhan o drais a niwed cysylltiedig trais ymysg plant a phobl ifanc. Mae'r holl ymyriadau yn canolbwyntio ar gefnogi pobl ifanc drwy eu hatal rhag dod yn rhan o achosion o drais, naill ai fel dioddefwr neu gyflawnwr (neu'r ddau), neu leihau'r risg i bobl ifanc sy'n agored i niwed neu sydd eisoes wedi wynebu trais a/neu drais ymysg plant a phobl ifanc. Nod yr ymyriadau oedd hyrwyddo cydnerthedd a llesiant cadarnhaol a hyrwyddo dinasyddiaeth a chydlyniant cymunedol.

Caiff hyn ei gyflawni drwy alluogi pobl ifanc i ddeall goblygiadau eu gweithredoedd, gwneud dewisiadau hyddysg, gwybod sut a ble i roi gwybod am droseddau a gofyn am help neu geisio cymorth. Mae'r ymyriadau yn helpu pobl ifanc i chwalu rhwystrau a lleihau stigma, fel eu bod yn gallu cael gafael ar gymorth, a meithrin cydberthnasau diogel y gellir ymddiried ynddynt sy'n eu galluogi i ymgysylltu â gwasanaethau. Ymysg yr adborth gan ddarparwyr gwasanaethau a'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y gwerthusiad roedd bod gan bobl ifanc fwy o wybodaeth am risgiau ac ymwybyddiaeth ohonynt, yn datblygu strategaethau ymdopi amgen ac iechyd a llesiant gwell. Roedd hyn yn cynnwys mwy o gydnerthedd a mwy o hunan-barch a hyder. Roedd cymryd rhan mewn gweithgareddau ymyrryd hefyd yn cynnig strwythur a threfn, a chyfle i bobl ifanc feithrin sgiliau i'w helpu i lwyddo wrth ffynnu a gwella eu bywydau. Roedd adroddiadau hefyd am effaith ehangach o ran cydberthnasau gwell gan bobl ifanc â ffrindiau a theulu a llai o achosion o drais. Roedd y rhanddeiliaid yn gobeithio y byddai cymorth o'r ymyriadau yn arwain at lai fyth o achosion o drais, gyda phobl ifanc yn teimlo'n rhan o'u cymunedau ac yn ddiogel ynddynt.

Beth sy'n gweithio ym mha amgylchiadau?

Roedd y canfyddiadau'n tynnu sylw at bwysigrwydd defnyddio dull sy'n ystyriol o drawma ar draws gweithgareddau atal trais. Disgrifiodd partneriaid y ffactorau risg a phrofiadau'r bobl ifanc a oedd wedi defnyddio'r gwasanaethau, gan gynnwys Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, niwroamrywiaeth ac iechyd meddwl gwael. Gwnaethant hefyd nodi bod llawer o bobl ifanc wedi ymddieithrio o'r ysgol, gan dynnu sylw at y rôl hanfodol sydd gan addysg i'w chwarae yn creu ffactorau amddiffynnol ac yn cydnabod ffactorau risg. Nodwyd rhwystrau i deuluoedd ymgysylltu â gwasanaethau am eu bod wedi'u llethu gan brofiadau negyddol blaenorol o gymorth a'r ffaith eu bod wedi ymwneud â sawl sefydliad, a oedd wedi arwain at ddiffyg ymddiriedaeth a diffyg ymgysylltiad rhieni. Mae hyn yn tynnu sylw at y ffaith bod angen i wasanaethau gydweithio i roi cymorth teulu cyfan cofleidiol a hygyrch. Ystyriwyd bod cael staff profiadol a medrus yn allweddol, gan sicrhau y gallent weld y tu hwnt i'r ymddygiad/digwyddiad cychwynnol er mwyn meithrin ymddiriedaeth, eiriol dros bobl ifanc a gwneud i bob cyswllt gyfrif.

Ymysg y rhwystrau i gyflawni ar gyfer darparwyr ymyriadau roedd oedi wrth recriwtio a effeithiodd ar y broses o roi ymyriadau ar waith, natur fyrhoedlog y cyllid a oedd yn arwain at ansicrwydd swyddi i'r staff, a gweithio gydag adnoddau a gallu cyfyngedig mewn amgylchedd lle mae gan bobl ifanc anghenion cynyddol a chymhleth a lle ceir gofynion cynyddol ar y system gymorth. Ystyriwyd bod effaith pandemig COVID-19 wedi cynyddu'r cymhlethdodau hyn a'r gofynion ar wasanaeth, gyda bylchau mewn darpariaeth iechyd meddwl ar lefel ymyriadau cynnar ac mewn argyfwng. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd deall lefel y gwaith a'r adnoddau sy'n ofynnol i gefnogi cymunedau'n effeithiol. Rhoddwyd enghreifftiau hefyd o rwystrau o ran cyfathrebu a rhannu gwybodaeth, a'r ymrwymiad sy'n ofynnol er mwyn lleihau achosion o ddyblygu gwaith, gweithio mewn seilo a hyrwyddo ymwybyddiaeth o ymyriadau a'u buddiannau.

Tynnwyd sylw at rwystrau o ran sicrhau bod data'n cael eu caffael yn effeithiol ac roedd partneriaid yn cydnabod pwysigrwydd casglu data, gan gynnwys ansawdd y data, er mwyn rhoi tystiolaeth o effaith a chefnogi cynaliadwyedd ymyriadau. Nodwyd yr angen am gymorth ychwanegol, o bosibl gan yr Uned Atal Trais er mwyn cefnogi system ganolog i ddod â'r holl wybodaeth a chudd-wybodaeth ynghyd. Roedd adroddiadau dangosyddion perfformiad y Swyddfa Gartref ar gyfer gweithgareddau a ariennir gan yr Uned Lleihau Trais yn gyfyngedig o ran adlewyrchu gwir natur yr ymyriadau, a byddai'n fuddiol eu haddasu ymhellach a'u teilwra'n benodol at yr ymyriadau a ariennir gan yr Uned Atal Trais.

Sut mae'r system a'r ymyriadau'n addasu i'w gilydd?

Roedd astudiaeth yn archwilio tystiolaeth a gyhoeddwyd ar ddefnyddio dulliau systemau cyfan iechyd y cyhoedd a daeth i'r casgliad bod rhaglenni sy'n mabwysiadu'r deg nodwedd 'system gyfan' allweddol yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus na rhaglenni nad ydynt yn gwneud hynny [2]. Mae'r nodweddion hyn yn cynnwys 1) nodi system, 2) meithrin gallu, 3) creadigrwydd ac arloesedd, 4) cydberthnasau, 5) ymgysylltu, 6) cyfathrebu, 7) camau gweithredu a pholisïau wedi'u hymgorffori, 8) cadarn a chynaliadwy, 9) arweinyddiaeth hwylusol, a 10) monitro a gwerthuso [1].

Mae'r canfyddiadau o astudiaeth achos Abertawe yn cefnogi'r egwyddorion systemau cyfan hyn a thystiolaeth o ran sut y sicrhodd yr Uned Atal Trais arweinyddiaeth gefnogol i feithrin cydberthnasau, ennyn diddordeb rhanddeiliaid, meithrin cydberthnasau â chymunedau ac ennyn eu hymddiriedaeth. Mae'r model comisiynu a chyflawni yn cyfrannu at nodau cyffredinol ehangach lleihau trais a niwed cysylltiedig ymysg plant a phobl ifanc er mwyn creu cymunedau mwy diogel ledled Cymru.

Buddsoddodd cyllid gan yr Uned Atal Trais adnoddau ychwanegol i mewn i'r gwasanaethau atal trais ledled Abertawe, gan eu galluogi i adeiladu ar eu capasiti a chyflwyno ymyriadau ychwanegol i sicrhau mwy o gyrhaeddiad ledled Abertawe. Ystyriwyd bod yr Uned Atal Trais yn cefnogi sefydliadau i ddod ynghyd ar sail fwy ffurfiol, drwy weithgareddau a gomisiynwyd ar y cyd. Disgrifiwyd bod yr Uned Atal Trais yn dod â gwasanaethau a chydweithwyr ynghyd i ddatblygu rhwydweithiau a meithrin cydberthnasau er mwyn gweithio mewn partneriaeth. Roedd gweledigaeth glir a rennir ymysg partneriaid ar gyfer defnyddio dull iechyd y cyhoedd cydgysylltiedig o atal trais. Ystyriwyd bod y gwaith amlasiantaethol a chyfranogiad partneriaid yn allweddol i'r dull unedig hwn. Rhoddwyd enghreifftiau ar gyfer cydleoli a datblygu llwybrau atgyfeirio a oedd wedi hyrwyddo prosesau gweithio ar y cyd, ymwybyddiaeth o wasanaethau ac ymwybyddiaeth o'r rhwystrau a wynebier gan bobl ifanc ac unigolion sydd ag anghenion cymhleth. Nododd partneriaid fod ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r gweithgareddau atal trais a ariannwyd gan yr Uned Atal Trais, ynghyd â gwasanaethau cymorth ehangach ledled Abertawe. Fodd bynnag, awgrymodd y canfyddiadau y gallai fod diffyg dealltwriaeth eang o hyd o'r gwasanaethau a ddarperir, ac y byddai'r bartneriaeth yn cael budd o fewnbwn cryfach gan ddarparwyr addysg ac iechyd meddwl.

Ystyriwyd bod rôl y Tîm Cyd-destunol, Coll, Wedi'u Hechsbloetio a'u Masnachu (CMET) yn allweddol ar gyfer gwaith amlasiantaethol effeithiol ledled Abertawe, gan gyflwyno cyfle i ddod â phartneriaid gweithredol a strategol allweddol ynghyd i rannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau ar y cyd er mwyn cael ymateb uniongyrchol a chydgyssylltiedig. Ystyriwyd bod y CMET yn allweddol wrth gefnogi gwaith cydweithredol, ymgysylltu â'r sector gwirfoddol a chwalu rhwystrau er mwyn atal pobl ifanc rhag cael eu troseddoli.

Arweiniodd y cyllid gan yr Uned Atal Trais at fwy o gapasiti mewn gwasanaethu gan olygu bod ganddynt gyrhaeddiad ehangach i ymgysylltu â mwy o weithwyr proffesiynol a phobl ifanc. Rhoddwyd enghreifftiau o welliannau o ran gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol, gan gynnwys mwy o ymarfer sy'n ystyriol o drawma. Gwaith partneriaeth a llwybrau gwell, mwy o gyrhaeddiad, ynghyd â datblygiad llwybrau hygyrch at gymorth ac ymwybyddiaeth ohonynt (gan gynnwys defnydd mwy priodol o lwybrau). Cafwyd adroddiadau am brosesau gwell i rannu gwybodaeth ac adrodd a oedd yn golygu y gellid targedu adnoddau ac ymatebion yn well.

Er bod darparwyr y gwasanaethau yn bodoli cyn iddynt weithio gyda'r Uned Atal Trais, mae canfyddiadau gwerthuso yn dangos, heb y cyllid a'r cymorth gan yr Uned Atal Trais i sefydlu a chynnal llwybrau cymorth, na fyddai'r canlyniadau hyn drwy'r system wedi cael eu cyflawni. Gan ystyried cynaliadwyedd y gwasanaethau a gynigir, tynnodd partneriaid sylw at y ffaith na fyddai gan ddarparwyr yr un cyrhaeddiad i gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd heb gyllid parhaus a hirdymor. Nodwyd bod hyn yn bryder o ystyried y cymhlethdodau cynyddol a wynebir gan gymunedau a'r gofynion cynyddol ar y system. Mae canfyddiadau gwerthuso yn tynnu sylw at y ffaith bod gwaith partneriaeth effeithiol yn cefnogi dull cynaliadwy o atal trais ledled Abertawe. Mae enghreifftiau o arferion gorau o astudiaeth achos Abertawe yn cynnig gwersi pwysig i ardaloedd eraill ledled Cymru. Cytunwyd hefyd fod y model yn cynnig y cyfle i weithio'n agos gyda Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Diogelu Cyd-destunol yr Awdurdod Lleol a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i ddatblygu a chysoni strategaethau i wella cydlyniant a diogelwch cymunedol. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â chyflwyno'r Ddyletswydd Trais Difrifol.

4.2 Argymhellion ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar draws y system

- Gallai'r Uned Atal Trais weithio gyda'r darparwyr atal cyffredinol i sicrhau bod lefelau uwch o sefydliadau addysgol ac ysgolion ledled Abertawe yn cymryd rhan. Gall fod angen cymorth y llywodraeth i annog ymgysylltiad.
- Ymysg yr enghreifftiau o arferion gorau, tynnwyd sylw at y gwaith partneriaeth rhwng gwasanaethau statudol a gwirfoddol mewn gweithgareddau a ariennir gan yr Uned Atal Trais. Dylid ehangu ar hyn ymhellach ar draws y sector gwirfoddol er mwyn ymgysylltu'n well â chymunedau. Gellid defnyddio'r hyn a ddysgwyd gan y tîm diogelu cyd-destunol yma.
- Mae'r ymyriadau yn Abertawe yn enghreifftiau da o waith partneriaeth i wella adnoddau ar draws y system o ran gwaith sy'n ystyriol o drawma. Gellid cysylltu hyn â hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ym mhob rhan o'r gweithlu.
- Mae'r holl ymyriadau yn cynnwys mewnbyn ar lefel strategol a gweithredol sy'n bwysig ar gyfer cyflawni'n effeithiol, gyda gwaith gweithredol ar y llinell flaen yn llywio penderfyniadau strategol. Dylai'r Uned Atal Trais ystyried sut y gall ymgysylltu'n fwy anffurfiol â staff llinell flaen er mwyn cael proses adborth ddwyffordd.
- Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at fwch mewn darpariaeth cymorth iechyd meddwl (ar gam ymyrryd yn gynnar ac mewn argyfwng) a chynrychiolaeth ar lefel partneriaeth. Os nad ydych eisoes wedi gwneud hyn, dylid gwahodd cydweithwyr iechyd meddwl o'r system iechyd a gofal

cymdeithasol ehangach i banel CMET a gallai'r Uned Atal Trais archwilio'r broses o greu llwybr cymorth iechyd meddwl i mewn i ymyriad wedi'i ariannu gan yr Uned Atal Trais yn y dyfodol.

- Gallai partneriaid allweddol a'r Uned Atal Trais gydweithio i ddatblygu strategaeth gyfathrebu sy'n addas i bobl ifanc. Awgrymodd rhanddeiliaid y gallai'r ffocws symud i ffwrdd oddi wrth gario cyllyll a chanolbwyntio ar ddefnyddio iaith a rennir a straeon newyddion da.
- Lle y bo'n bosibl, byddai cyllid tymor hwy yn golygu y byddai llai o darfu ar y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y gweithlu a defnyddwyr gwasanaethau. Mae hefyd yn golygu y gellir cynnal gwerthusiad tymor hwy i allu deall gwir effaith ymyriadau. Dylai gwasanaethau atal trais weithio ochr yn ochr â'r Uned Atal Trais i ddatblygu achos busnes a model cynaliadwy y tu hwnt i gyllid yr Uned Atal Trais.
- Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol er mwyn cydweithio. Mae angen i ymyriadau sy'n cynnwys sefydliadau gwahanol gynnwys pob partner allweddol sy'n cymryd rhan o'r dechrau er mwyn llywio'r broses gynllunio a gweithredu. Bydd hyn yn cyfrannu at berchnogaeth a chyfrifoldeb a rennir. Gall aelodaeth amlasiantaethol yr Uned Atal Trais hwyluso gwasanaethau i rannu cyfrifoldebau.
- Mae aelodaeth panel CMET yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol sy'n rhan o'r Uned Atal Trais a gweithgarwch atal trais ehangach ledled Abertawe. Dylai hyn barhau i redeg, gan adolygu'r aelodaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod pob partner a sector yn cymryd rhan. Os nad yw hyn eisoes yn digwydd, dylid gwahodd adrannau iechyd cyhoeddus, a gallai'r Uned Atal Trais weithio gyda chydweithwyr o'r byd addysg i nodi'r cydweithwyr sydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r cyfarfodydd hyn.
- Gellid cofnodi cudd-wybodaeth a ddefnyddir ar gyfer CMET yn swyddogol er mwyn creu allbynnau mwy ffurfiol gan gynnwys argymhellion a arweinir gan gudd-wybodaeth i lywio cyfeiriad adnoddau ar draws y system. Byddai angen adnoddau a chapasiti ychwanegol i gefnogi hyn. Gallai'r Uned Atal Trais weithio gyda Chyngor Abertawe i archwilio dichonoldeb hyn.
- Mae'r gwaith a wneir gan y tîm diogelu cyd-destunol yn unigryw ac mae'n cefnogi dull diogelu sy'n ystyriol o drawma. Gallai Abertawe ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd i arddangos y gwaith hwn fel arfer gorau a'r hyn a ddysgwyd ar gyfer ardaloedd eraill ledled Cymru.

4.3 Argymhellion ar gyfer dangos effaith ym mhob rhan o'r system

- Ym mlwyddyn gyntaf yr Uned Atal Trais, datblygodd yr Uned Atal Trais a Phrifysgol John Moores Lerpwl becyn cymorth gwerthuso i gefnogi'r Uned Atal Trais a darparwyr a ariennir ganddi i wella'r broses o ddangos effaith gweithgareddau atal trais ledled Cymru. Gellid defnyddio'r pecyn offer yn fwy eang i gefnogi gwerthusiad cyson. Gallai partneriaid yr Uned Atal Trais gydweithio i ddatblygu fframwaith canlyniadau safonol ymhellach ar gyfer model atal trais Uned Atal Trais Abertawe. Argymhellir y dylai rhan greiddiol o'r fframwaith hwn fod yn gyson ar draws gwasanaethau er mwyn dangos effaith systemau cyfan. Fodd bynnag, dylai'r fframwaith hwn hefyd sicrhau rhyddid i wneud addasiadau ar gyfer ymyriadau gwahanol. Dylai hyn gynnwys canlyniadau llai pendant a nodau wedi'u teilwra yn seiliedig ar anghenion a nodau cleientiaid unigol.
- Gall ymarferion mapio data a sicrhau ansawdd fod yn ddefnyddiol ar gyfer ymyriadau unigol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau y caiff y data priodol eu casglu i adlewyrchu'r ddarpariaeth ac effaith y ddarpariaeth honno.
- Dylid cyflwyno data canlyniadau ar gyfer achosion o fynd i adrannau damweiniau ac achosion brys i ddangos effaith fyrdymor ac i osgoi camddechongli.

- Gellid archwilio data ar ymyriadau ynghyd â setiau data ehangach o fewn Porth Atal Trais Cymru i olrhain effaith bosibl ar draws y system ehangach (er enghraifft data TIIG). Gall hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar gudd-wybodaeth data fod yn ddefnyddiol er mwyn i gydweithwyr ddeall y darlun ehangach a sut y gall data canlyniadau ddylanwadu ar weithredoedd.
- Dylai astudiaethau achos dienw barhau i gael eu datblygu ar draws ymyriadau mewn templed safonol i'w ddefnyddio wrth werthuso (yn fewnol ac yn allanol) i ddangos effaith gwasanaethau. Dylid cael cydsyniad gan ddefnyddwyr gwasanaethau cyn ei ddefnyddio ar gyfer y cyhoedd.
- Mae'r gwerthusiad yn tynnu sylw at ymarfer data arfer gorau a gynhaliwyd gan Gyngor Abertawe. Dylid ehangu ar yr ymarfer casglu data hwn a'i ymgorffori fel mater o drefn i ddwyn ynghyd ddata ar draws y system. Fodd bynnag, byddai angen adnoddau a chapasiti ychwanegol i gefnogi hyn. Gallai'r Uned Atal Trais a Chyngor Abertawe weithio ar y cyd i sicrhau y caiff y gudd-wybodaeth fwyaf priodol ei chasglu o bob rhan o'r system ehangach.
- Caiff y rhan fwyaf o'r ymyriadau eu gwerthuso'n lleol ac yn genedlaethol. Byddai'n ddefnyddiol i bartneriaid gwerthuso ddod ynghyd i sefydlu grŵp cynghori ar werthuso i rannu canfyddiadau (lle y caniateir hynny) ac i gysoni dulliau recriwtio i sicrhau nad ymchwilir yn ormodol i wasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau neu na ofynnir gormod ganddynt.
- Mae adborth gan bobl ifanc yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynnwys llais defnyddwyr gwasanaethau wrth ddylunio ymyriadau, eu rhoi ar waith, eu darparu a'u gwerthuso. Dylai darparwyr gwasanaethau a gwerthuswyr barhau i sicrhau bod llais defnyddwyr gwasanaethau wrth wraidd y broses o ddylunio a darparu ymyriadau, gan ymgorffori prosesau cyd-gynhyrchu lle y bo'n bosibl. Dylai hyn fod yn ffocws allweddol ar gyfer gwerthusiadau blwyddyn olaf gweithgareddau a ariennir gan yr Uned Atal Trais i ddeall gwaddol yr Uned Atal Trais yn well ac i ddatblygu cynllun cynaliadwyedd.

5. Cyfeiriadau

- (1) NICE (2010). Identifying the key elements and interactions of a whole system approach to obesity prevention. Golygwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. Llundain; Peninsula Technology Assessment Group. Ar gael yn: <https://www.nice.org.uk/guidance/ph42/evidence/review-1-identifying-the-key-elements-and-interactions-of-a-whole-system-approach-to-obesity-prevention-69056029>
- (2) Bagnall et al., (2019). Whole systems-approaches to obesity and other complex public health challenges: a systematic review. *BMC Public Health*. Ar gael yn: <https://bmcpubhealth.biomedcentral.com/articles/10.1186/s12889-018-6274-z>
- (3) PHE (2019). A Whole-System Multi-Agency Approach to Serious Violence Prevention. A Resource for Local System Leaders in England. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/862794/multi-agency_approach_to_serious_violence_prevention.pdf
- (4) Y Swyddfa Gartref (2018). Serious Violence Strategy. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/serious-violence-strategy>
- (5) Uned Atal Trais Cymru (2020). Strategaeth ATAL i atal trais difrifol ymhlith pobl ifanc yn Ne Cymru 2020-2023 Ar gael yn: [Strategaeth-Atal-Uned-Atal-Trais.pdf \(violencepreventionwales.co.uk/cy\)](https://www.violencepreventionwales.co.uk/cy/Strategaeth-Atal-Uned-Atal-Trais.pdf)
- (6) Trais Difrifol ymhlith Pobl Ifanc yn Ne Cymru. Asesiad o anghenion strategol (2020). Ar gael yn: [TERFYNOL Adroddiad-o-anghenion-strategol-Adroddiad-ar-y-prif-bwyntiau.pdf \(violencepreventionwales.co.uk/cy/\)](https://www.violencepreventionwales.co.uk/cy/TERFYNOL_Adroddiad-o-anghenion-strategol-Adroddiad-ar-y-prif-bwyntiau.pdf)
- (7) Arfer da o ran atal trais ymhlith pobl ifanc: Adolygiad mapio a sganio'r gorwel (2020). Ar gael yn: [Adolygiad-mapio-a-sganior-gorwel-o-atal-trais-ymhlith-pobl-ifanc.pdf \(violencepreventionwales.co.uk/cy\)](https://www.violencepreventionwales.co.uk/cy/Adolygiad-mapio-a-sganior-gorwel-o-atal-trais-ymhlith-pobl-ifanc.pdf)
- (8) Model Gweithredu Uned Atal Trais Cymru (Adroddiad Blynyddol Uned Atal Trais Cymru 2020/21). Ar gael yn: [Uned-Atal-Trais-Cymru-Adroddiad-Blynyddol-2020-21.pdf \(violencepreventionwales.co.uk/cy/\)](https://www.violencepreventionwales.co.uk/cy/Uned-Atal-Trais-Cymru-Adroddiad-Blynyddol-2020-21.pdf)
- (9) Timpson et al., (2020). Evaluation of the Violence Prevention Unit. Year 1 Findings (2019/20). Sefydliad Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl. Ar gael yn: <https://www.violencepreventionwales.co.uk/cms-assets/research/Evaluation-of-the-Wales-Violence-Prevention-Unit-Year-1-Full-Report.pdf>
- (10) Timpson H, Harrison R, Butler N a Quigg Z (2021). Uned Atal Trais Cymru (2020: Adroddiad Gwerthuso Systemau Cyfan (2020/21). Sefydliad Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl. <https://www.violencepreventionwales.co.uk/cms-assets/research/Uned-Atal-Trais-Cymru-Adroddiad-Gwerthuso-Systemau-Cyfan-2020-21.pdf>
- (11) Y SYG (2021). Canlyniadau Cyfrifiad 2021 ar gyfer Abertawe. Ar gael yn: [Canlyniadau Cyfrifiad 2021 ar gyfer Abertawe – Abertawe](https://www.abertawe.gov.uk/canlyniadau-cyfrifiad-2021-ar-gyfer-abertawe/)
- (12) Llywodraeth Cymru (2019). Gwybodaeth o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019. Ar gael yn: [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 – Abertawe](https://www.abertawe.gov.uk/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-2019/)
- (13) Cyngor Abertawe (2022). Ffeithiau allweddol am Abertawe. Ar gael yn: [Ffeithiau allweddol am Abertawe – Abertawe](https://www.abertawe.gov.uk/fffeithiau-allweddol-am-abertawe/)
- (14) Heddlu Abertawe (2022). Map troseddau Abertawe. Ar gael yn: [Swansea | Police.uk \(www.police.uk\)](https://www.abertawe.gov.uk/swansea-police-uk/)
- (15) Cresswell et al., (2020). Asesiad o Anghenion Iechyd: Effaith COVID-19 ar brofiadau plant a phobl ifanc o drais a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Ar gael yn: <https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2021/07/Adroddiad-Crynodeb-Gweithredol-Effaith-COVID-19-ar-brofiadau-plant-a-phobl-ifanc-o-drais-a-phrofiadau-niweidiol-yn-ystod-plentyndod-.pdf>
- (16) Skivington et al., (2021). A new framework for developing and evaluating complex interventions: update of Medical Research Council guidance. *BMJ* 2021;374:n2061. Ar gael yn: [A new framework for developing and evaluating complex interventions: update of Medical Research Council guidance \(bmj.com\)](https://www.bmj.com/lookup/doi/10.1136/bmj.n2061)

5. Atodiadau

Tabl 1: Mapio'r fframwaith ar gyfer gwerthuso ymyriadau cymhleth [16]

Elfen fframwaith ymchwil	Manylion	Sut yr aed i'r afael â'r elfen hon yn y gwerthusiad presennol
Cyd-destun	Deall y ffactorau cyd-destunol ehangach a all ddylanwadu ar y gwerthusiad mewn perthynas â dylanwadau ar yr 'ymyriad' neu ar y 'prosesau astudio'. Ymysg y ffactorau cyd-destunol a allai ddylanwadu ar yr ymyriad mae prosesau mabwysiadu, cyrhaeddiad a chynnal yr ymyriad, ynghyd â ffactorau allweddol a all bennu a ellid ailadrodd canfyddiadau gwerthuso pe cânt eu rhoi ar waith ar draws lleoliadau gwahanol ai peidio.	Casglwyd fel rhan o'r gwerthusiad o'r broses.
Damcaniaeth y rhaglen	Ystyried a yw damcaniaeth y rhaglen wedi newid o'r cam datblygu ac os felly, pa agweddau ar y system ehangach sydd wedi dylanwadu ar y canlyniadau dymunol. Mae'r elfen hon hefyd yn argymhell y dylid archwilio swyddogaethau ac elfennau allweddol yr ymyriad y mae angen eu cadw i sicrhau'r effaith fwyaf.	Cynnwys prosesau mesur/ystyried y canlyniadau o fodel rhesymeg ehangach yr Uned Atal Trais yn y gwerthusiad hwn a defnyddio canfyddiadau'r gwerthusiad i fireinio damcaniaeth y rhaglen.
Ymgysylltu â rhanddeiliaid	Cynnwys y bobl hynny a dargedir gan yr ymyriad, sydd wedi'u cynnwys yn y broses ddatblygu neu gyflawni, neu sydd â diddordeb proffesiynol yn yr ymyriad. Mae hyn yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau, aelodau o'r cyhoedd ac unrhyw un sy'n gysylltiedig mewn ffordd broffesiynol. Ymysg y meysydd i'w harchwilio drwy'r ymgysylltiad hwn mae safbwyntiau rhanddeiliaid ar y modd y caiff ardaloedd problemus eu nodi a'u targedu ar gyfer ymyriad.	Drwy ddulliau gwerthuso ansoddol fel rhan o'r gwerthusiad o'r broses a'r effaith.
Nodi ansicrwydd allweddol.	Nodi'r bylchau sy'n bodoli o ystyried yr hyn a wyddys eisoes a'r hyn y mae damcaniaeth y rhaglen, rhanddeiliaid a'r tîm ymchwil yn ei nodi fel blaenoriaeth ar gyfer gwerthuso. Mae hyn yn llywio'r broses o fframio'r cwestiynau ymchwil.	Wedi'i lywio gan y blaenoriaethau gwerthuso a nodir gan yr Uned Atal Trais ac a ddatblygir ymhellach drwy ymchwil ansoddol.
Mireinio'r ymyriad	Gwneud argymhellion i newid yr ymyriad yn unol â chanfyddiadau'r gwerthusiad. Yma, rhaid i allu, ymarferoldeb a derbynoldeb gwneud newidiadau gael eu hystyried drwy broses yr ymyriad, er mwyn sicrhau bod unrhyw argymhellion i addasu'r ddarpariaeth yn briodol.	Caiff argymhellion, yn seiliedig ar ganfyddiadau gwerthuso, eu datblygu ar y cyd â Grŵp Llywio Gwerthusiad yr Uned Atal Trais.
Ystyriaethau economaidd	Ystyried yr adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni'r ymyriad gan gyfeirio at yr adnoddau sy'n ofynnol. Er nad yw gwerthusiad economaidd llawn bob amser yn bosibl, gallai hyn gynnwys ystyried canlyniadau'r ymyriad i'r bobl a'r sefydliadau yr effeithiwyd arnynt a ph'un a fydd y canlyniadau yn cyfiawnhau'r mewnbwn.	Er bod asesiad economaidd o'r Uned Atal Trais y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad presennol, bydd y broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn archwilio gallu darparwyr y gwasanaeth, mewnbwn yr adnoddau a'r galw.

Uned Atal Trais Cymru, Siambrau'r Farchnad, 2-5
Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1AT
PHW.ViolencePreventionUnit@wales.nhs.uk | 02920 338450



Uned Atal Trais
Violence Prevention Unit